Joint Council for Qualifications

# Amau Camymddwyn

# Polisïau a Gweithdrefnau

## 1 Medi 2019 hyd at 31 Awst 2020

**Sylwer: Yn dilyn canfyddiadau'r Comisiwn Annibynnol ar Gamymddwyn, efallai y bydd y ddogfen hon yn cael ei diwygio ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020.  Bydd canolfannau yn cael gwybod am unrhyw newidiadau ar ôl cyfres mis Tachwedd.**

**Cynhyrchwyd ar ran:**

## Cynnwys | Tudalen


| | | |
|---|---|---|
| Cyflwyniad | | 1 |
| Diffiniadau | | 2 |
| Cyfrifoldebau unigol | | 5 |
| Gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddwyn | | 7 |
| Yr honiad | | 9 |
| Ymateb y corff dyfarnu i honiad o gamymddwyn | | 11 |
| Yr ymchwiliad | | 12 |
| Yr adroddiad | | 15 |
| Y penderfyniad | | 16 |
| Sancsiynau a chosbau | | 19 |
| Sancsiynau a chosbau am gamymddwyn gan staff y ganolfan – unigolion | | 21 |
| Sancsiynau am gamymddwyn gan staff y ganolfan – canolfannau | | 23 |
| Sancsiynau a chosbau a weithredir yn erbyn ymgeiswyr | | 26 |
| Cyfathrebu penderfyniadau | | 28 |
| Apeliadau | | 29 |
| Atodiad 1 | Ffynonellau gwybodaeth | 30 |
| Atodiad 2 | Enghreifftiau o gamymddwyn | 32 |
| Rhan 1: Camymddwyn gan staff y ganolfan | | |
| Rhan 2: Camymddwyn gan ymgeiswyr | | 35 |
| Atodiad 3 | Canllaw i ymchwilio i honiad o gamymddwyn | 37 |
| Atodiad 4 | Sancsiynau mynegol yn erbyn canolfannau | 39 |
| Atodiad 5 | Tabl o droseddau ac ystodau'r cosbau | 40 |
| Atodiad 6 | Canllaw tariff sancsiynau staff canolfannau – y CGC | 44 |
| Atodiad 7 | Enghreifftiau o gamymddwyn | 45 |
| Atodiad 8 | Ffurflenni M1, M2 a M3 y CGC | 73 |

# Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon ar gyfer pawb sy'n rhan o ddigwyddiadau camymddwyn neu sy'n cael eu heffeithio ganddynt, gan gynnwys y rhai sydd am roi gwybod am bryderon am gamymddwyn wrth gyflwyno cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol a gaiff eu hardystio gan gyrff dyfarnu'r Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC).

Mae'r ddogfen yn nodi'r polisïau a'r gweithdrefnau y mae sefydliadau dyfarnu'r CGC wedi cytuno arnynt ar gyfer ymdrin â chamymddwyn ac achosion o danseilio diogelwch.

Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng rheoliadau'r corff dyfarnu a'r gweithdrefnau hyn, y ddogfen hon sy'n cymryd blaenoriaeth.

Mae'r ddogfen hon yn:

cydymffurfio ag Amod A8 – Camymddwyn a chamweinyddu yn ôl diffiniad y rheoleiddwyr ac Egwyddor 14 dogfen Regulatory Principles SQA Accreditation
enwi'r rheoliadau ar gyfer gweithredu arholiadau ac asesiadau
diffinio camymddwyn yng nghyd-destun arholiadau ac asesiadau
nodi hawliau a chyfrifoldebau'r cyrff dyfarnu, staff y ganolfan ac ymgeiswyr mewn perthynas â materion o'r fath
disgrifio'r gweithdrefnau i'w dilyn mewn achosion lle mae rheswm i gredu y gall y rheoliadau fod wedi'u torri
rhoi manylion y gweithdrefnau sy'n ymwneud ag ymchwilio a phenderfynu ar honiadau o gamymddwyn sydd yn eu tegwch, trylwyredd, amhleidioldeb a gwrthrychedd yn bodloni gofynion y ddeddf gyfredol mewn perthynas â materion o'r fath neu'n mynd y tu hwnt iddi.

## Achosion o gamymddwyn

**Bydd achosion o gamymddwyn yn digwydd am nifer o resymau**:

gwneir rhai pethau'n fwriadol gyda'r bwriad o roi mantais annheg mewn arholiad neu asesiad;
mae rhai digwyddiadau'n datblygu yn sgil diffyg ymwybyddiaeth o'r rheoliadau, diofalwch neu anghofio wrth weithredu'r rheoliadau;
mae rhai'n digwydd o ganlyniad i rym amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y rhai dan sylw (e.e. larwm dân yn canu ac yn amharu ar y gallu i oruchwylio ymgeiswyr).

**Mae'r math o unigolion sy'n camymddwyn hefyd yn**

**amrywio**. Gallent fod yn:

ymgeiswyr eraill
athrawon, darlithwyr, tiwtoriaid, hyfforddwyr, aseswyr neu eraill sy'n gyfrifol am gynnal, gweinyddu neu sicrhau ansawdd arholiadau ac asesiadau gan gynnwys swyddogion arholiadau, goruchwylwyr a'r rhai sy'n hwyluso Trefniadau Mynediad (e.e. Darllenwyr, Ysgrifenyddion a Chynorthwywyr Ymarferol)
personél asesu megis arholwyr, aseswyr, cymedrolwyr neu ddilyswyr mewnol ac allanol

unrhyw drydydd parti arall, e.e. rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid, brodyr/chwiorydd, ffrindiau'r ymgeisydd.

Heb ystyried y cefndir neu'r bobl dan sylw, mae angen ystyried pob honiad o gamymddwyn yn ymwneud ag arholiadau ac asesiadau. Gwneir hyn i ddiogelu uniondeb y cymhwyster ac i fod yn deg â'r ganolfan ac â'r holl ymgeiswyr.

# Diffiniadau

**Rheoleiddiwr**

Corff a ddynodir gan y llywodraeth i sefydlu safonau cenedlaethol ar gyfer cymwysterau ac i sicrhau bod pawb yn cydymffurfio â hwy.

**Canolfan**

Sefydliad (megis ysgol, coleg, cwmni/darparwr hyfforddiant, man cyflogaeth) sydd wedi'i gymeradwyo gan gorff dyfarnu ac sy'n atebol iddo am y trefniadau arholi ac asesu sy’n arwain at ddyfarniad cymhwyster.

**Pennaeth y ganolfan**

“Pennaeth y ganolfan” yw’r swyddog gweithredol uchaf yn y sefydliad – Prifathro ysgol, Pennaeth coleg, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Academïau neu Brif Weithredwr cwmni neu ddarparwr hyfforddiant.

Os gwneir honiad o gamymddwyn yn erbyn pennaeth canolfan, dylai'r sawl a enwebir i ymchwilio'r mater gan y corff dyfarnu perthnasol, megis Cadeirydd y Llywodraethwyr, ymgymryd â'r cyfrifoldebau hynny y mae'r pennaeth yn eu cyflawni fel arfer.

**Ymgeiswyr preifat**

Ymgeisydd preifat yw 'ymgeisydd sy’n dilyn cwrs astudio'n annibynnol ond yn cofrestru ac yn sefyll arholiad mewn canolfan arholi gymeradwy’.

**Rheoliadau**

Ystyr 'Rheoliadau' yw'r rhestr o ddogfennau sydd i'w gweld yn **Atodiad 1**. Maen nhw'n cynnwys arweiniad a rheoliadau’n ymwneud â darparu trefniadau mynediad a chynnal asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs, arholiadau ac asesiadau di-arholiad.

Mae'r Rheoliadau yn seiliedig ar ofynion y rheoleiddwyr cymwysterau yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, fel y rhai sydd i'w gweld yn nogfennau *Amodau Cydnabod Safonol* Cymwysterau Cymru, *General Conditions of Recognition* Ofqual a *Regulatory Principles* SQA Accreditation.

**Camymddwyn**

**Camymddwyn**

Mae 'camymddwyn' yn golygu unrhyw weithred, cam gweithredu diofyn neu ymarfer sy'n torri'r Rheoliadau neu sy'n:

arwain at niwed i ymgeiswyr; **a/neu**

tanseilio hyder y cyhoedd mewn cymwysterau; **a/neu**

cyfaddawdu, ceisio cyfaddawdu neu'n gallu cyfaddawdu'r broses asesu, gonestrwydd unrhyw gymhwyster neu ddilysrwydd canlyniad neu dystysgrif; **a/neu**

niweidio awdurdod, enw da neu hygrededd unrhyw gorff dyfarnu neu ganolfan neu unrhyw swyddog, gweithiwr neu asiant unrhyw gorff dyfarnu neu ganolfan.

Nid yw camymddwyn bob amser yn ymwneud yn uniongyrchol â sefyll arholiad. Mae cyrff dyfarnu yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gall mathau newydd neu annisgwyl o gamymddwyn ymddangos wrth i dechnolegau a natur a threfniadaeth canolfannau arholi newid.

**Dylai canolfan hysbysu, ymchwilio ac adrodd yn ôl i gorff dyfarnu am unrhyw honiadau o gamymddwyn neu o amau camymddwyn. Mae methiant i wneud hynny'n gamymddwyn ynddo'i hun.**

**Hefyd, mae methiant i weithredu'n unol â gofynion corff dyfarnu, ar sail y manylion yn y ddogfen hon, neu fethiant i gydweithredu ag ymchwiliad corff dyfarnu, yn gamymddwyn.**

**Mae camymddwyn yn cynnwys camweinyddu ac achosion o beidio â chydymffurfio â'r rheoliadau**, ac mae'n gynnwys gweithgarwch fel:

Methiant i gadw at y rheoliadau'n ymwneud â chynnal asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs, arholiadau ac asesiadau di-arholiad neu fethiannau i gydymffurfio â rheoliadau'r CGC wrth gynnal yr arholiadau/asesiadau a/neu ymdrin â phapurau arholiad, sgriptiau ymgeiswyr, taflenni marciau, cofnodion asesu cronnus, canlyniadau a ffurflenni hawlio tystysgrifau. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

Gall rhai enghreifftiau o gamymddwyn gael effaith sylweddol ar ymgeiswyr a'u cymwysterau. Mae'n rhaid i gyrff dyfarnu hysbysu rheoleiddwyr cymwysterau am enghreifftiau penodol o gamymddwyn.

Mae'r canlynol yn fathau o gamymddwyn (mae Atodiad 2 yn cynnwys enghreifftiau o bob math);
tanseilio diogelwch
twyll
cymorth amhriodol i ymgeiswyr
methiant i gydweithredu ag ymchwiliad
camweinyddu
camymddwyn gan ymgeiswyr

## Amau camymddwyn

At ddibenion y ddogfen hon ystyr amau camymddwyn yw unrhyw achosion o gamymddwyn sy'n cael ei honni neu ei amau.

## Camymddwyn gan staff y ganolfan

Ystyr "Camymddwyn gan Staff y Ganolfan" yw camymddwyn gan un o'r canlynol:

aelod o staff, contractwr (pa un ai wedi'i gyflogi dan gontract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau) neu wirfoddolwr mewn canolfan; **neu**

unigolyn a benodwyd mewn unrhyw rôl arall gan ganolfan megis goruchwyliwr, Gweithiwr Cyfathrebu Proffesiynol, Addasydd Iaith Lafar, cynorthwyydd ymarferol, anogwr, darllenydd neu ysgrifennydd.

Nodir enghreifftiau o gamymddwyn gan staff canolfan yn **Atodiad 2, Rhan 1**. Nid yw'r rhestr hon o enghreifftiau yn gynhwysfawr ac felly nid oes cyfyngiad ar gwmpas y diffiniadau a nodir yn y ddogfen hon. Gall achosion eraill o gamymddwyn gael eu nodi a'u hystyried gan y cyrff dyfarnu gan arfer eu doethineb.

## Camymddwyn gan ymgeiswyr

Mae 'camymddwyn gan ymgeisydd' yn golygu camymddwyn gan ymgeisydd yn ystod unrhyw arholiad neu asesiad, gan gynnwys paratoi a dilysu unrhyw asesiadau dan reolaeth,gwaith cwrs neu asesiadau di-arholiad, cyflwyno unrhyw waith ymarferol, casglu portffolios o dystiolaeth asesu ac ysgrifennu unrhyw bapur arholiad.

Nodir enghreifftiau o gamymddwyn gan ymgeiswyr yn **Atodiad 2, Rhan 2**. Nid yw'r rhestr hon o enghreifftiau yn gynhwysfawr ac felly nid oes cyfyngiad ar gwmpas y diffiniadau a nodir yn y ddogfen hon. Gall y cyrff dyfarnu ystyried achosion eraill o gamymddwyn yn ôl eu hewyllys.

## Cyfrifoldebau unigol

Mae dogfen *General Conditions of Recognition* y rheoleiddwyr yn nodi bod rhaid i gyrff dyfarnu:

sefydlu a chynnal gweithdrefnau ysgrifenedig cyfoes ar gyfer ymchwilio unrhyw achos o gamymddwyn neu gamweinyddu sydd wedi'i honni neu ei amau, gan gydymffurfio â’r rhain bob amser; a

sicrhau bod ymchwiliadau o’r fath yn cael eu cyflawni’n fanwl gywir, yn effeithiol a gan unigolion â’r cymhwysedd priodol nad oes ganddynt unrhyw ddiddordeb personol yn y canlyniad.

Bydd y corff dyfarnu yn:

goruchwylio pob ymchwiliad i gamymddwyn sydd wedi'i honni neu ei amau;

penderfynu p'un a ddylid atal cyhoeddi canlyniadau tan ddiwedd yr ymchwiliad, neu’n barhaol, lle y mae gofyn gwneud hynny yn ôl canlyniad yr ymchwiliad;

cymhwyso’r sancsiynau a chosbau priodol a restrir yn y ddogfen hon os bydd camymddwyn yn cael ei brofi;

cyflwyno adroddiad ar y mater i’r rheoleiddwyr a chyrff dyfarnu eraill yn unol â dogfen *General Conditions of Recognition* y rheoleiddwyr;

ystyried cyflwyno adroddiad am y mater i’r heddlu os profir bod trosedd wedi'i chyflawni yn rhan o'r camymddwyn honedig;

ystyried cyflwyno adroddiad am y mater i awdurdodau priodol eraill lle bo'n berthnasol, e.e. Asiantaethau Cyllido ac Asiantaethau Rheoleiddio Addysgu.

Fel arfer, bydd y corff dyfarnu'n rhoi caniatâd i bennaeth y ganolfan weithredu ar ran y corff dyfarnu i gasglu tystiolaeth ar ei ran.

Yn yr achosion hynny lle mae honiadau wedi'u gwneud yn erbyn pennaeth y ganolfan, neu reolwyr y ganolfan, y corff dyfarnu fydd yn penderfynu sut i gynnal yr ymchwiliad. Gall y corff dyfarnu roi caniatâd i unigolyn arall gasglu tystiolaeth ar ei ran, er enghraifft un o'r canlynol:

Cadeirydd Corff Llywodraethol y ganolfan; **neu**

cyflogwr atebol (neu ei g/chynrychiolydd) e.e. Cyfarwyddwr Addysg; **neu**

unigolyn cymwys arall megis Arolygydd Ofsted neu bennaeth ysgol arall.

**Yna bydd yr unigolyn sydd wedi cael caniatâd i gasglu tystiolaeth yn cyflwyno adroddiad i'r corff dyfarnu erbyn yr amser a nodwyd ac yn darparu'r holl dystiolaeth y gofynnwyd amdani.**

Mae'r corff dyfarnu yn cadw'r hawl i gasglu tystiolaeth yn uniongyrchol ar gyfer unrhyw ymchwiliad os yw'n teimlo mai gweithredu felly yw'r peth gorau i'w wneud.

**Rhaid** i bennaeth y ganolfan:

**hysbysu'r corff dyfarnu priodol cyn gynted ag y bo'n bosibl am unrhyw amheuon neu honiadau o gamymddwyn neu gamymddwyn gwirioneddol**. **Yr unig eithriad i hyn yw pan fydd achos o gamymddwyn mewn asesiad dan reolaeth, gwaith cwrs neu asesiadau di-arholiad yn cael ei ddarganfod cyn i'r ymgeisydd lofnodi'r ffurflenni dilysu (gweler adran 4.3**). Pan fydd achos o gamymddwyn gan aelod o staff yn cael ei ddarganfod mewn gwaith cwrs neu asesiadau di-arholiad, **rhaid** i bennaeth y ganolfan hysbysu'r corff dyfarnu **ar unwaith**, heb ystyried a yw'r ymgeisydd (ymgeiswyr) wedi llofnodi'r ffurflenni dilysu ai peidio;

Rhoi gwybod am gamymddwyn gan ddefnyddio'r ffurflenni priodol fel y nodir yn adran 4.2

bod yn atebol am sicrhau bod y ganolfan a staff y ganolfan yn cydymffurfio bob amser â chyfarwyddiadau'r corff dyfarnu mewn perthynas ag ymchwiliad

sicrhau, os bydd angen dirprwyo ymchwiliad i **uwch aelod o staff y ganolfan**, **bod yr uwch aelod hwnnw o staff y ganolfan yn annibynnol. Ni ddylai fod yn gysylltiedig â'r adran na'r ymgeisydd sy'n destun y camymddwyn honedig.** Dylai pennaeth y ganolfan sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau (gweler isod) a allai beryglu'r ymchwiliad;

ymateb yn gyflym ac yn agored i bob cais am ymchwiliad i honiad o gamymddwyn. Bydd hyn er lles staff y ganolfan, ymgeiswyr ac unrhyw rai eraill dan sylw;

ymateb yn gyflym ac yn agored i bob cais am wybodaeth yn ôl cais corff dyfarnu;

cydweithredu, a sicrhau bod eu staff yn gwneud hynny hefyd, ag ymchwiliad i honiad o gamymddwyn, pa un ai yw'r ganolfan yn ymwneud yn uniongyrchol â'r achos ai peidio;

sicrhau bod aelodau o staff ac ymgeiswyr yn cael eu hysbysu o'u cyfrifoldebau a hawliau unigol fel y nodir yn y canllawiau hyn;

anfon ymlaen unrhyw ohebiaeth a thystiolaeth gan y corff dyfarnu at staff y ganolfan a/neu ddarparu manylion cysylltu'r staff dan sylw fel y gall y corff dyfarnu ei hun wneud hynny;

trosglwyddo unrhyw rybudd neu hysbysiad o gosb i'r unigolion dan sylw, a sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag unrhyw geisiadau a wneir gan y corff dyfarnu o ganlyniad i achos o gamymddwyn.

Mae'r cyfrifoldebau a nodir yn **adran 2.5** yn ymestyn i unrhyw achosion o gamymddwyn honedig sy'n ymwneud ag ymgeiswyr preifat a gofrestrir trwy'r ganolfan.

Atgoffir penaethiaid canolfannau y gall peidio â chydymffurfio â'r gofynion yn adrannau 2.5 a 2.6 gael ei ystyried yn enghraifft o gamymddwyn.
Gallai 2.5 a 2.5 olygu camymddwyn ei hun.

## Gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddwyn

Mae ymdrin â chwynion a honiadau o gamymddwyn, yn cynnwys y camau canlynol.

Yr honiad **(adran 4)**

Ymateb y corff dyfarnu **(adran 5)**

Yr ymchwiliad **(adran 6)**

Yr Adroddiad **(adran 7)**

Y penderfyniad **(adran 8)**

Yr apêl **(adran 14)** **Cyfathrebu**

Bydd cyrff dyfarnu fel arfer yn cyfathrebu â phennaeth y ganolfan ynglŷn â honiadau o gamymddwyn, heblaw am yr achosion hynny lle mae pennaeth neu reolwyr y ganolfan yn destun yr ymchwiliad. Mewn achosion o'r fath, gellir cyfathrebu â pherson arall y mae'r corff dyfarnu wedi'i awdurdodi i helpu i ymchwilio i'r mater, megis Cadeirydd y Llywodraethwyr neu'r Cyfarwyddwr Addysg.

Bydd cyfathrebiadau'n ymwneud â'r penderfyniadau a gymerir gan y corff dyfarnu mewn achosion o gamymddwyn bob amser yn cael eu cyfeirio at bennaeth y ganolfan, ac eithrio yn yr achosion hynny lle mae pennaeth neu reolwyr y ganolfan yn destun yr ymchwiliad. Os yw pennaeth neu reolwyr y ganolfan yn destun yr ymchwiliad, cyfathrebir fel arfer â Chadeirydd y Llywodraethwyr, Swyddogion yr Ymddiriedolaeth Academïau, swyddogion yr Awdurdod Lleol neu awdurdodau llywodraethu priodol eraill, fel y bo'n briodol.

Gall cyrff dyfarnu gyfathrebu'n uniongyrchol ag aelodau o staff y ganolfan, os yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny, e.e. nid yw'r aelod o staff wedi'i gyflogi mwyach gan y ganolfan na'i gytundebu iddi.

Bydd cyrff dyfarnu ond yn cyfathrebu'n uniongyrchol ag ymgeisydd neu gynrychiolydd ymgeisydd pan fydd yr ymgeisydd naill ai'n ymgeisydd preifat neu'r corff dyfarnu wedi dewis cyfathrebu'n uniongyrchol â'r ymgeisydd oherwydd amgylchiadau'r achos.

(Er enghraifft, lle bu gwrthddweud yn y dystiolaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd a'r ganolfan, neu lle mae amheuaeth nad yw'r ganolfan wedi cydymffurfio â'r rheoliadau).

Mewn achosion o'r fath bydd y corff dyfarnu fel arfer yn ysgrifennu at bennaeth y ganolfan i ddweud ei fod yn bwriadu ymdrin yn uniongyrchol â'r ymgeisydd. Fel arfer ni ddylai pennaeth y ganolfan gyfathrebu ymhellach â'r ymgeisydd unwaith y bydd y corff dyfarnu'n ei hysbysu o hyn.

Lle y gofynnir am hynny, **rhaid** i bennaeth y ganolfan hwyluso'r cyfathrebu rhwng y corff dyfarnu a'r unigolyn dan sylw.

Mae'r corff dyfarnu yn cadw'r hawl i rannu gwybodaeth sy'n berthnasol i ymchwiliadau o gamymddwyn â thrydydd parti, er enghraifft, cyrff dyfarnu eraill, y rheoleiddwyr ac awdurdodau priodol eraill.

Dylai pawb sy'n cael eu cyfweld neu'n cyflwyno datganiad ddeall bod hawl gan y cyrff dyfarnu i rannu eu datganiadau, cofnodion neu drawsgrifiadau unrhyw gyfweliadau y gellir eu cynnal, â phobl eraill sy'n rhan o'r achos ac unrhyw drydydd parti priodol arall yn ôl y disgrifiad ym **mharagraff 3.7**. Gellir rhannu'r wybodaeth hon ar unrhyw adeg yn ystod neu ar ôl yr ymchwiliad.

# Yr honiad

**<u>Arholwyr, cymedrolwyr a dilyswyr allanol yn amau camymddwyn</u>**

**Bydd arholwyr, cymedrolwyr, monitoriaid a dilyswyr allanol sy'n amau bod camymddwyn wedi digwydd mewn arholiad neu asesiad yn hysbysu'r corff dyfarnu perthnasol yn syth, gan ddefnyddio'r gweithdrefnau a'r ffurflenni a ddarperir gan y corff dyfarnu.**

**<u>Y ganolfan yn amau camymddwyn</u>**

**Lle bydd canolfan yn amau camymddwyn, rhaid i bennaeth y ganolfan gyflwyno manylion llawn yr achos i'r corff dyfarnu perthnasol yn syth.**

Yn ddelfrydol, dylid defnyddio **Ffurflen CGC/M1** (amau camymddwyn gan ymgeisydd) neu **Ffurflen CGC/M2** (amau camymddwyn/camweinyddu gan staff canolfan) i hysbysu corff dyfarnu am achos o gamymddwyn. Mae pob ffurflen i'w gweld ar wefan y CGC – http://www.jcq.org.uk/exams-office/forms

Mae hysbysiadau ar ffurf llythyr yn dderbyniol ond rhaid darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani yn y ffurflenni. Mae pob ffurflen i'w gweld ar wefan y CGC yn http://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice neu fel Atodiad i'r ddogfen hon.

**Nid oes angen cyflwyno adroddiad i'r corff dyfarnu am gamymddwyn gan ymgeisydd mewn asesiad dan reolaeth, gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad a ddarganfyddir cyn i'r ymgeisydd lofnodi'r datganiad dilysu. Yn hytrach dylid ymdrin â'r mater yn unol â gweithdrefnau mewnol y ganolfan. Yr unig eithriad i hyn yw pan fo'n bosibl bod deunydd asesu cyfrinachol y corff dyfarnu wedi'i ddatgelu. Rhaid rhoi gwybod i'r corff dyfarnu am hyn yn syth.**

**Ar adeg y digwyddiad, os na chofrestrwyd ymgeisydd gyda chorff dyfarnu am gydran, uned neu gymhwyster, gall unrhyw gamymddwyn sy'n cael ei ddarganfod mewn asesiad dan reolaeth, gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad gael ei drin yn unol â gweithdrefnau mewnol y ganolfan hefyd.**

Fel arfer ni ddylai canolfannau roi marciau am unrhyw waith a gyflwynir nad yw'n waith yr ymgeisydd ei hun. Os rhoddwyd unrhyw gymorth amhriodol (gweler isod), **rhaid** nodi hyn ar daflen glawr gwaith yr ymgeisydd neu mewn man priodol arall.

**Dylai canolfannau gyfeirio at arweiniad y corff dyfarnu yn yr achosion hynny lle mae camymddwyn mewn cymhwyster galwedigaethol yn cael ei ddarganfod cyn cyflwyno gwaith yr ymgeisydd i'w ardystio.**

(Noder: Cynghorir canolfannau, os bydd y ganolfan yn gwrthod gwaith cwrs, asesiad dan reolaeth, asesiad di-arholiad neu waith portffolio a gyflwynir i'w asesu'n fewnol ar sail camymddwyn, bod gan ymgeiswyr yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn. Mae gwefan y CGC yn cynnwys cyngor ar y dulliau yr argymhellir eu defnyddio ***[link to JCQ website]*** i apelio yn erbyn penderfyniadau asesu mewnol.

**Pobl eraill yn adrodd am gamymddwyn**

Weithiau bydd cyrff dyfarnu'n derbyn honiadau o gamymddwyn gan gyflogwyr, staff y ganolfan, rheoleiddwyr, asiantaethau ariannu, ymgeiswyr, cyrff dyfarnu eraill ac aelodau o'r cyhoedd. Weithiau bydd yr adroddiadau hyn yn ddienw.

Lle y gofynnir am hynny, ni fydd cyrff dyfarnu'n datgelu hunaniaeth yr unigolion sy'n adrodd am achosion o gamymddwyn honedig, onid oes rhwymedigaeth gyfreithiol arnynt i wneud hynny.

Gall y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 ddiogelu gweithwyr sy'n gwneud honiadau o gamymddwyn (gan CBAC) mewn canolfannau, os yw:

y datgeliad yn "ddatgeliad gwarchodedig" (fel y nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol);

y gweithiwr yn codi pryder gwirioneddol ynghylch camymddwyn; a

datgeliad wedi'i wneud gan gydymffurfio â'r canllawiau a nodir yn y ddeddfwriaeth a/neu ym Mholisi Chwythu'r Chwiban y ganolfan ei hun.

y datgeliad yn cael ei wneud i gyflogwr neu gorff rhagnodedig fel Ofqual.

**I osgoi unrhyw amheuaeth, ni chaiff cyrff dyfarnu eu henwi yn y ddeddfwriaeth fel cyrff y gellir gwneud datgeliadau gwarchodedig iddynt (h.y. corff rhagnodedig). Mae'r ddeddfwriaeth, fodd bynnag, yn cynnwys Ofqual fel corff y gellir cyflwyno datgeliadau gwarchodedig iddo.**

Ceir rhagor o arweiniad ar Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 a datgeliadau gwarchodedig yn:
*JCQ Public Interest Disclosure Act – Guidance*
tudalennau gwe Gov.uk

Mae cyrff dyfarnu'n ymwybodol y gall unrhyw unigolyn sy'n rhoi gwybod am amheuon o gamymddwyn gan aelod o staff neu ymgeisydd wynebu sefyllfa anodd.

Bydd y corff dyfarnu felly'n ceisio gwarchod hunaniaeth y cudd hysbyswr os gofynnir am hynny wrth gyflwyno'r adroddiad.

Os bydd hysbyswr yn ffonio i gynnig y wybodaeth, gofynnir iddo fel arfer gadarnhau'r honiad yn ysgrifenedig.

Pan fydd corff dyfarnu'n derbyn honiad, bydd y corff dyfarnu'n gwerthuso'r honiad yn sgil unrhyw wybodaeth sydd ar gael, i weld a oes achos i ymchwilio ymhellach.

## Ymateb y corff dyfarnu i honiad o gamymddwyn

Yn achos adroddiadau o amheuon o gamymddwyn a dderbynnir gan arholwyr, cymedrolwyr, monitoriaid, dilyswyr allanol, y rheoleiddwyr neu aelodau o'r cyhoedd, (gan gynnwys cudd hysbyswyr) fel arfer bydd y corff dyfarnu'n ystyried yr adroddiad ac yn penderfynu:

peidio â gweithredu ymhellach; **neu**

gofyn i bennaeth y ganolfan, neu unigolyn cymwys arall, gasglu tystiolaeth i gefnogi ymchwiliad i'r camymddwyn honedig ac i gyflwyno adroddiad ysgrifenedig; **neu**

ymchwilio i'r mater yn uniongyrchol.

Bydd y corff dyfarnu'n hysbysu'r rheoleiddiwr perthnasol cyn gynted ag y bydd yn derbyn digon o dystiolaeth bod yr amheuon o gamymddwyn yn bodloni'r gofynion hysbysu a nodir yn rhan B3 o ddogfen y Rheoleiddwyr *Conditions of Recognition*. Hefyd gellir hysbysu'r cyrff dyfarnu eraill a gymeradwyodd y ganolfan honno ac unrhyw awdurdodau priodol eraill.

Pan dderbynnir adroddiad o gamymddwyn honedig, a gyflwynir gan bennaeth y ganolfan, bydd y corff dyfarnu'n ystyried yr adroddiad ac yn penderfynu:

peidio â gweithredu ymhellach; **neu**

os yw'r hysbysiad ar ffurf adroddiad, penderfynu'r achos yn unol â'r gweithdrefnau (lle mae'r dystiolaeth yn caniatáu hynny) – **gweler adrannau 8 i 13**; **neu**

gofyn i bennaeth y ganolfan gasglu rhagor o dystiolaeth yn unol ag **adrannau 6.1 i 6.6**; **neu**

ymchwilio i'r mater ymhellach ei hun.

Er mwyn sicrhau gonestrwydd arholiadau/asesiadau'r dyfodol a hyder y cyhoedd yn yr arholiadau/asesiadau hynny, pa un ai y profwyd honiad o gamymddwyn ai peidio, gall y corff dyfarnu gynnal ymweliadau arolygu a/neu fonitro ychwanegol, a/neu ofyn am weithredu pellach.

Mae'r corff dyfarnu yn cadw'r hawl i hysbysu'r heddlu neu gyrff gorfodi'r gyfraith/ymchwilio eraill os bydd yr honiad yn datgelu bod trosedd wedi'i chyflawni o bosibl.

# Yr ymchwiliad

## Gweithgareddau a gynhelir gan bennaeth y ganolfan/casglwr gwybodaeth a benodwyd

Fel arfer, disgwylir i bennaeth y ganolfan gasglu tystiolaeth i honiadau o gamymddwyn. **Rhaid** i bennaeth y ganolfan ymdrin â'r mater yn unol ag unrhyw derfynau amser a gofynion a bennwyd gan y corff dyfarnu.

Dylai penaethiaid canolfannau gyfeirio at **adran 2.5** y ddogfen hon i weld crynodeb o'u cyfrifoldebau.

Dylai'r rhai sy'n gyfrifol am gasglu tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad gael y dystiolaeth a nodir gan y corff dyfarnu, yn y fformatau gofynnol. Dylai unigolion bob amser gasglu'r dystiolaeth a nodir gan y corff dyfarnu, waeth beth fo'u hasesiad nhw o'r mater. Yn yr un modd, ni ddylid cymryd yn ganiataol bod rhywbeth yn wir, gan fod honiad wedi'i wneud.

Dylai pennaeth canolfan ystyried y gall staff ac ymgeiswyr fel ei gilydd fod yn gyfrifol am gamymddwyn.

Os caiff y gwaith o gasglu tystiolaeth ei ddirprwyo i **uwch aelod arall o staff y ganolfan**, pennaeth y ganolfan fydd yn gyfrifol o hyd. Wrth benderfynu ar **uwch aelod addas o staff y ganolfan**, **rhaid** i bennaeth y ganolfan gymryd pob cam rhesymol i osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau.

Lle y gall fod awgrym bod gwrthdaro buddiannau, ni ddylid dirprwyo gweithgareddau ymchwilio i amheuon o gamymddwyn i reolwr yr adran, y tîm neu'r adran sy'n destun yr amheuon o gamymddwyn. Os bydd unrhyw bryderon ynghylch gwrthdaro buddiannau neu addasrwydd y sawl sydd i ymchwilio o bosibl, **rhaid** i bennaeth y ganolfan gysylltu â'r corff dyfarnu cyn gynted â phosibl i drafod y mater.

Os yw canolfan yn cyflwyno'r adroddiad am yr amheuon o gamymddwyn, argymhelliad y cyrff dyfarnu yw bod y ganolfan, o leiaf, yn darparu copi cyflawn o'r ffurflen neu'r llythyr a ddefnyddiwyd i hysbysu'r corff dyfarnu o'r camymddwyn i'r unigolyn (unigolion) a gyhuddir.

Pan fydd y sawl sy'n casglu'r dystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad yn penderfynu bod angen cyfweld ymgeisydd neu aelod o staff mewn perthynas â chamymddwyn honedig, rhaid cynnal y cyfweliadau'n unol â pholisi'r ganolfan ei hun ar gyfer cynnal ymholiadau. Dylid cofnodi manylion llawn y cyfweliad a'u cadw. Dylid gofyn i'r sawl sy'n destun y cyfweliad gadarnhau bod y nodyn yn gywir.

Dylid cyfeirio hefyd at **adran 6.14** sy'n ymdrin â hawliau'r unigolion a gyhuddir.

Nid oes angen i ymgynghorwyr cyfreithiol fod yn rhan o'r broses, o leiaf lle nad oes unrhyw honiad o ymddygiad troseddol. Fodd bynnag, os bydd y naill ochr neu'r llall yn gofyn am bresenoldeb cyfreithiwr neu swyddog undeb llafur, dylid hysbysu pawb arall o flaen llaw fel bod ganddyn nhw'r cyfle i gael cefnogaeth debyg. Ni ddylai'r sawl sy'n bresennol yn y cyfweliad gyda'r unigolyn gymryd rhan weithredol yn y cyfweliad hwnnw. Yn benodol, ni ddylai ateb cwestiynau ar ran y sawl sy'n cael ei gyfweld. Ni fydd corff dyfarnu'n atebol am unrhyw ffioedd proffesiynol y mae'n rhaid eu talu. Mae'n ofynnol gofyn i bennaeth y ganolfan ddarparu lleoliad priodol ar gyfer cyfweliadau o'r fath. Gellir cynnal y cyfweliadau dros y ffôn hefyd. Gellir gofyn i'r unigolion dan sylw ddarparu datganiad ysgrifenedig. **Dylai'r sawl sy'n casglu tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad gyfeirio at Atodiad 3.**

## Gweithgareddau a gyflawnir yn uniongyrchol gan y corff dyfarnu

**Mae'r corff dyfarnu yn cadw'r hawl i gynnal unrhyw ymchwiliad ei hun os yw'n teimlo mai gweithredu felly yw'r peth gorau i'w wneud. Y corff dyfarnu sy'n penderfynu sut y dylid cynnal ymchwiliad bob amser.**

Ni fydd corff dyfarnu fel arfer yn cadw rhag pennaeth canolfan unrhyw wybodaeth am ddeunydd a gafwyd neu a grëwyd yn ystod ymchwiliad i honiad o gamymddwyn.

Fodd bynnag, mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r ddeddf diogelu data ac yn benodol mae'n rhaid gwneud hynny lle byddai'n cynnwys datgelu hunaniaeth hysbyswr sydd wedi gofyn am gael cadw ei hunaniaeth yn gyfrinachol. Mewn achosion o'r fath, bydd y corff dyfarnu'n atal unrhyw wybodaeth fyddai'n datgelu enw'r unigolyn, ac yn egluro pam nad oes modd darparu'r wybodaeth a ataliwyd.

Ni fydd unrhyw dystiolaeth nad yw'n cael ei rhoi i'r sawl a gyhuddir (a phennaeth eu canolfan, os yn gymwys) yn cael ei rhoi i Bwyllgor Camymddwyn ac ni chaiff ei hystyried wrth benderfynu a yw honiad o gamymddwyn wedi cael ei brofi ai peidio.

Weithiau mae angen i gorff dyfarnu gyfweld ymgeisydd yn ystod ymchwiliad. Os yw'r ymgeisydd yn berson ifanc dan oed neu'n unigolyn sy'n agored i niwed, ac os cynhelir y cyfweliad wyneb yn wyneb, mae'r cyrff dyfarnu yn ymrwymo mai dim ond ym mhresenoldeb oedolyn priodol y gwneir hynny.

Gellir cynnal y cyfweliadau dros y ffôn neu gan ddefnyddio rhyw wasanaeth cyfathrebu arall dros fideo/â llais.

Pan fydd angen i aelod o staff corff dyfarnu gynnal cyfweliad gydag aelod o staff, gall ffrind neu ymgynghorydd (a allai fod yn gynrychiolydd cymdeithas athrawon neu gymdeithas arall) yr aelod o staff a gyfwelir fod yn bresennol.

Os yw'r sawl sy'n cael ei gyfweld am gael presenoldeb ymgynghorydd cyfreithiol, dylid hysbysu pawb arall o flaen llaw er mwyn rhoi'r cyfle iddyn nhw gael cefnogaeth debyg.

Bydd yn ofynnol i bennaeth y ganolfan sicrhau bod lleoliad priodol ar gael ar gyfer cyfweliadau o'r fath.

Ni ddylai'r sawl sy'n bresennol yn y cyfweliad gyda'r unigolyn gymryd rhan weithredol yn y cyfweliad hwnnw. Yn benodol, ni ddylai ateb cwestiynau ar ran y sawl sy'n cael ei gyfweld.

Cofnodir manylion llawn y cyfweliad a gofynnir i'r sawl sy'n cael ei gyfweld gadarnhau ei fod yn gywir. Gellir gofyn hefyd i'r sawl sy'n cael ei gyfweld ddarparu datganiad ysgrifenedig.

## Hawliau’r unigolion a gyhuddir

Pan fydd digon o dystiolaeth ar gael, ym marn yr ymchwiliwr, i daflu’r bai ar unigolyn am gamymddwyn, **rhaid** i'r unigolyn hwnnw (pa un ai yw’n ymgeisydd neu’n aelod o staff) gael:

ei hysbysu (yn ysgrifenedig fyddai orau) o'r honiad yn ei (h)erbyn;

ei gynghori bod copi o gyhoeddiad y CGC *Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Asesiadau: Polisïau a Gweithdrefnau* i'w weld yn Saesneg ar wefan y CGC – http://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice

gwybod pa dystiolaeth sydd yna i gefnogi’r honiad hwn;

gwybod y canlyniadau posibl pe byddai achos o gamymddwyn yn cael ei brofi;

y cyfle i ystyried ei ymateb i'r honiadau (os bydd angen hynny);

cyfle i gyflwyno datganiad ysgrifenedig;

gwybod y bydd ef/hi yn cael y cyfle i ddarllen y cyflwyniad a gwneud datganiad ychwanegol mewn ymateb, pe byddai'r achos yn cael ei roi gerbron y Pwyllgor Camymddwyn;

cyfle i geisio cyngor (yn ôl yr angen) a rhoi datganiad ategol (os bydd angen);

ei hysbysu beth yw'r weithdrefn apelio sy'n berthnasol, (**gweler paragraff 14.1**) pe bai penderfyniad yn cael ei wneud yn ei erbyn;

wedi cael gwybod am y posibilrwydd y gallai gwybodaeth sy'n ymwneud ag achos difrifol o gamymddwyn gael ei rhannu â chyrff dyfarnu eraill, y rheoleiddwyr ac awdurdodau priodol eraill.

**Pennaeth y ganolfan sy'n gyfrifol am hysbysu'r unigolyn a gyhuddir.** Mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd angen i bennaeth y ganolfan ystyried yn ofalus, ar sail holl amgylchiadau'r achos, o ran amseru a'r ffordd orau o gyflwyno honiad o gamymddwyn a'r dystiolaeth ategol i'r unigolyn (unigolion) dan sylw.

Anfonir manylion llawn am ddulliau apelio'r corff dyfarnu at bennaeth canolfan a/neu'r unigolyn a gyhuddir sy'n ymwneud ag apêl. **(Gweler adran 14).**

## Yr adroddiad

**Ar ôl casglu tystiolaeth mewn perthynas ag ymchwiliad i gamymddwyn, rhaid i bennaeth y ganolfan gyflwyno adroddiad ysgrifenedig llawn am yr achos i'r corff dyfarnu perthnasol.**

Dylid anfon y ddogfennaeth ganlynol gyda'r adroddiad, fel y bo'n briodol:

datganiad o'r ffeithiau, gan gynnwys cyfrif manwl a chlir o amgylchiadau'r camymddwyn honedig ac asesiad gwrthrychol o'r dystiolaeth a gasglwyd;

y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r honiad, megis datganiad(au) ysgrifenedig gan y goruchwylwyr, aseswr, dilyswyr mewnol neu aelodau eraill o'r staff sydd ynghlwm â'r mater;

datganiad(au) ysgrifenedig gan yr ymgeisydd (ymgeiswyr) yn ei eiriau ei hun (yn eu geiriau eu hunain);

unrhyw dystiolaeth ddieuogol a/neu ffactorau lliniarol;

gwybodaeth am weithdrefnau'r ganolfan ar gyfer hysbysu ymgeiswyr a staff y ganolfan am reoliadau'r cyrff dyfarnu;

cynlluniau eistedd yn dangos union leoliad yr ymgeiswyr yn yr ystafell arholiadau;

unrhyw ddeunydd diawdurdod sydd wedi'i ganfod yn yr ystafell arholiadau neu ffotograffau o ddeunydd nad yw'n bosibl eu cyflwyno i gorff dyfarnu;

unrhyw waith yr ymgeisydd ac unrhyw ddeunydd cysylltiol (e.e. deunydd ffynhonnell ar gyfer gwaith cwrs) sy'n berthnasol i'r ymchwiliad;

unrhyw adnoddau addysgu/deunydd sy'n berthnasol i'r ymchwiliad;

manylion y camau a gymerir gan y ganolfan i liniaru effaith unrhyw gamymddwyn neu gamau a gymerir i atal achos o'r fath rhag digwydd eto.

Dylid defnyddio **Ffurflen CGC/M1 neu Ffurflen CGC/M3** fel sail yr adroddiad.

Mae'r ffurflenni hyn ar gael ar wefan y CGC –
http://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice

Ar sail yr adroddiad, ac unrhyw ddogfennaeth ategol a ddarperir, bydd y corff dyfarnu'n penderfynu a oes tystiolaeth o gamymddwyn ac a oes angen ymchwilio ymhellach. Gan hynny, hysbysir pennaeth y ganolfan.

# Y penderfyniad

## Y Pwyllgor Camymddwyn

Er mwyn penderfynu ar y canlyniadau mewn achosion o gamymddwyn honedig, gall cyrff dyfarnu benodi Panel neu Bwyllgor yn cynnwys aelodau mewnol a/neu allanol â phrofiad o weithdrefnau arholiadau ac asesu. Neu, gellir dewis aelod(au) o staff y corff dyfarnu a enwir i gyflawni'r swyddogaeth hon. Yn y ddogfen hon cyfeirir at y Pwyllgor (neu'r personél corff dyfarnu sy'n gyfrifol am ymdrin â chamymddwyn) fel y "Pwyllgor Camymddwyn".

Gall aelod o staff y corff dyfarnu nad yw wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r ymchwiliad gynorthwyo'r Pwyllgor.

Mae'r canlynol yn berthnasol i weithgareddau'r Pwyllgor Camymddwyn (neu i'r personél sy'n gweithredu yn y rôl honno):

Mae gwaith y Pwyllgor Camymddwyn yn gyfrinachol.

Mae gofyn i aelodau'r Pwyllgor Camymddwyn enwi unrhyw achos y mae ganddynt wybodaeth bersonol amdano neu y gellid dweud bod ganddynt ddiddordeb ynddo a allai arwain at gasgliad bod y Pwyllgor wedi dangos tuedd. Ni fydd unrhyw aelod sydd â diddordeb personol agos yn cael trafod yr achos o gwbl ac ni fydd yn bresennol pan fydd y Pwyllgor Camymddwyn yn trafod y mater.

Nid oes gan yr unigolion a gyhuddir, penaethiaid canolfannau a'u cynrychiolwyr yr hawl i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Camymddwyn.

Y brif egwyddor wrth lunio'r Pwyllgor Camymddwyn yw sicrhau bod pawb sy'n perthyn iddo yn annibynnol ar y rhai wnaeth gynnal yr ymchwiliad ei hun.

Ni fydd aelodau o staff y corff dyfarnu sydd wedi casglu tystiolaeth ar gyfer yr achos yn uniongyrchol yn cymryd unrhyw ran yn y broses gwneud penderfyniadau. Mewn achosion syml, gall fod yn synhwyrol gwneud penderfyniad ar sail y wybodaeth sydd wedi dod i law.

Ni fydd unrhyw un sy'n datgan bod ganddynt ddiddordeb yng nghanlyniad yr achos yn bresennol yn yr ystafell pan fydd yr achos yn cael ei ystyried.

Yr unig dystiolaeth fydd yn cael ei rhoi i'r Pwyllgor Camymddwyn yw'r dystiolaeth honno sy'n uniongyrchol berthnasol i'r achos sy'n cael ei ystyried ac a ddarparwyd ar gyfer yr unigolyn y gwnaed yr honiad yn ei (h)erbyn. I osgoi unrhyw amheuaeth, lle bo hynny'n ymarferol, os bydd yr unigolyn y gwnaed yr honiad yn ei erbyn yn derbyn deunydd sydd wedi'i ail-olygu (er enghraifft tynnu enwau unigolion) bydd y deunydd a dderbynnir gan y Pwyllgor Camymddwyn wedi'i ail-olygu yn yr un modd.

Bydd yr unigolyn y cyflwynwyd yr honiad yn ei erbyn yn cael cyfle i gyflwyno datganiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor Camymddwyn yn sgil y deunydd a ddarparwyd.

## Gwneud y penderfyniad - trosolwg

Wrth benderfynu ar unrhyw achos, bydd y Pwyllgor Camymddwyn yn cadarnhau bod y gweithdrefnau cywir wedi'u dilyn wrth ymchwilio i'r achos, a bod pob unigolyn dan sylw wedi cael cyfle i wneud datganiad ysgrifenedig. Os cafodd unigolion y cyfle i wneud datganiad ysgrifenedig, ond eu bod wedi gwrthod y cyfle hwn, bydd yr achos yn mynd rhagddo'n seiliedig ar yr holl wybodaeth arall a dderbyniwyd.

Os yw'n fodlon, bydd y Pwyllgor Camymddwyn yna'n ceisio penderfynu:

a oes tystiolaeth (yn ôl y diffiniad yn y ddogfen hon, gweler tudalen 3) bod camymddwyn wedi digwydd;

pwy sy'n gyfrifol am y camymddwyn.

Os yw'r Pwyllgor Camymddwyn yn fodlon bod digon o dystiolaeth i brofi bod camymddwyn wedi digwydd, bydd yn penderfynu wedyn ar:

y mesurau priodol i'w cymryd i ddiogelu gonestrwydd yr arholiad neu'r asesiad ac i atal unrhyw achosion o dorri'r rheoliadau yn y dyfodol;

natur unrhyw sancsiwn neu gosb i'w gweithredu.

## Gwneud y penderfyniad

Bydd pob achos o gamymddwyn honedig yn cael ei ystyried a'i benderfynu'n unigol yn ôl yr holl wybodaeth sydd ar gael. Os yw'n amlwg bod tystiolaeth glir a chadarn o ailadrodd patrwm o gamymddwyn, gellir ystyried hyn wrth benderfynu a ddylid gweithredu sancsiwn mwy difrifol ai peidio.

Bydd y Pwyllgor Camymddwyn yn ceisio penderfynu'n unfrydol wrth ddod i'w gasgliadau, ond os bydd angen gellir penderfynu ar sail y mwyafrif.

Fel materion ar wahân, bydd y Pwyllgor Camymddwyn yn ystyried:

a oes camymddwyn wedi bod neu beidio; a

os penderfynir bod camymddwyn wedi digwydd, pa un a ddylid gweithredu sancsiwn.

Wrth benderfynu ar achos, bydd y Pwyllgor Camymddwyn yn:

enwi'r rheoliad neu'r gofyniad yn y fanyleb yr honnwyd ei fod wedi'i dorri;

sefydlu ffeithiau'r achos ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd iddo;

penderfynu a yw'r ffeithiau y penderfynwyd arnynt felly yn torri'r rheoliadau neu ofynion y fanyleb mewn gwirionedd.

Os digwyddodd camymddwyn, bydd y Pwyllgor Camymddwyn yn penderfynu pwy sy'n gyfrifol amdano ac yn;

ystyried unrhyw bwyntiau lliniarol;

penderfynu ar lefel briodol o sancsiwn neu gosb, gan ystyried y gosb leiaf llym yn gyntaf.

Rhaid i'r Pwyllgor Camymddwyn fod yn fodlon ar ba mor debygol ydyw bod yr honiad wedi'i brofi (h.y. ei bod yn fwy tebygol ei fod wedi digwydd na ddim).

Mae'n bosibl na fydd y dystiolaeth mewn rhai achosion yn gwbl bendant ond gall y corff dyfarnu benderfynu na all dderbyn gwaith ymgeiswyr neu roi canlyniadau i ymgeiswyr er mwyn gwarchod gonestrwydd y cymhwyster i'r mwyafrif. Lle bo hynny'n briodol, gall y corff dyfarnu roi amcangyfrif o'r graddau ar gyfer yr uned(au) dan sylw.

Yn y sefyllfaoedd hynny lle caiff achos ei ohirio oherwydd bod angen gwybodaeth bellach ar y Pwyllgor cyn gallu dod i benderfyniad, bydd y tîm ymchwilio a'r sawl y gwnaed yr honiad yn ei erbyn yn cael gwybod am y gohiriad a natur y cais.

Mewn achosion syml lle nad oes unrhyw her nac amheuaeth i'r dystiolaeth, gall y cyrff dyfarnu alw am drefn ddiannod. Gellir cymhwyso sancsiwn neu sancsiynau a hysbysu'r unigolyn neu'r ganolfan amdanynt ar ôl i aelod o staff y corff dyfarnu ystyried yr achos.

Mae sancsiynau a chosbau a weithredir dan y drefn ddiannod hon yn cynnwys yr hawl i apelio, yn yr un modd â'r holl sancsiynau a chosbau eraill sy'n deillio o achosion o gamymddwyn.

Dylai canolfannau gyfeirio at gyhoeddiad y CGC *Canllaw i brosesau apelio'r cyrff dyfarnu* sydd ar gael yn Saesneg ar wefan y CGC – http://www.jcq.org.uk/exams-office/appeals

## Sancsiynau a chosbau

Bydd cyrff dyfarnu'n gosod sancsiynau a chosbau ar unigolion ac ar ganolfannau a geir yn euog o gamymddwyn er mwyn:

lleihau'r risg i onestrwydd yr arholiadau ac asesiadau, yn y presennol ac yn y dyfodol;

cynnal hyder y cyhoedd wrth gyflwyno a dyfarnu cymwysterau;

gwneud yn siŵr o leiaf nad oes unrhyw fanteision i'w hennill o dorri'r rheoliadau;

atal unrhyw un arall rhag gwneud yr un peth.

Bydd cyrff dyfarnu fel arfer yn gosod sancsiynau a chosbau ar unigolion a geir yn euog o gamymddwyn. Y rhain fel arfer fydd yr ymgeiswyr neu'r aelodau o staff sy'n gyfrifol.

Fodd bynnag, os credir yn gyffredinol bod camymddwyn wedi digwydd o ganlyniad i fethiant mawr wrth reoli adran neu ganolfan gyfan, gall y corff dyfarnu sancsiynu'r ganolfan.

Yn yr achosion hyn, gall y corff dyfarnu wneud trefniadau arbennig i ddiogelu buddiannau ymgeiswyr y gellid effeithio'n andwyol arnynt fel arall.

Bydd cyrff dyfarnu'n gwneud eu gorau i amddiffyn ymgeiswyr sy'n cael eu dal mewn digwyddiad camymddwyn, heb unrhyw fai arnyn nhw.

Dylid derbyn, fodd bynnag, os nad yw'r gwaith a gyflwynir i'w asesu'n cynrychioli ymdrechion yr ymgeiswyr unigol, yna efallai na fydd yn bosibl rhoi canlyniad i'r ymgeiswyr hynny neu ganiatáu iddynt gadw canlyniad.

Wrth ystyried sut i weithredu, bydd cyrff dyfarnu'n gweithredu'n gytbwys o ran eu cyfrifoldebau tuag at weddill y garfan a'r unigolion sy'n cael eu dal yn y digwyddiad camymddwyn.

Efallai na fydd canlyniadau'n cael eu cyhoeddi neu y gellir eu tynnu'n ôl mewn achosion lle y digwyddodd camymddwyn ond nad oedd yn bosibl profi'n gwbl sicr pwy oedd ar fai.

Mewn achosion lle nad yw'n rhesymol nac yn bosibl penderfynu pwy sy'n gyfrifol am gamymddwyn, a lle mae'n glir bod amharu wedi bod ar onestrwydd yr arholiad neu asesiad mewn perthynas ag unigolyn neu unigolion, gall y corff dyfarnu benderfynu peidio â derbyn y gwaith a gyflwynwyd neu a ymgymerwyd i'w asesu neu gall benderfynu na fyddai'n ddiogel dyfarnu na chaniatáu cadw dyfarniad.

Yn yr achosion hyn gall yr ymgeisydd (ymgeiswyr) ailsefyll yr arholiad/asesiad ar y cyfle nesaf lle mae'r ddarpariaeth honno ar gael, neu, lle mae'r cymhwyster yn caniatáu hynny, gall ddarparu tystiolaeth ychwanegol o gymhwysedd.

Mae’r cyrff dyfarnu wedi cytuno na ddylid gosod sancsiynau a chosbau am droseddau yn ôl graddfa benodol, ond yn hytrach maent i’w dewis o amrediad a ddiffinnir. Byddant felly yn adlewyrchu amgylchiadau penodol pob achos ac unrhyw ffactorau lliniarol. Nodir y lefel o sancsiwn neu gosb am drosedd benodol y cytunwyd arni yn **Atodiadau 4 a 5**.

Mae'r corff dyfarnu yn cadw'r hawl i osod cosbau’n hyblyg, y tu allan i’r amrediadau a ddiffinnir, os ceir bod amgylchiadau arbennig o liniarol neu boenus yn bodoli.

Dim ond ar y dystiolaeth sydd ar gael y seilir sancsiynau a chosbau.

Rhaid bod modd cyfiawnhau pob sancsiwn a chosb a dylent fod yn rhesymol o ran graddfa a chael eu cymhwyso'n gyson.

Os yw’r arholiad yn un o gyfres, dim ondyn y gyfres y digwyddodd y tramgwyddiad y bydd sancsiynau a chosbau yn weithredol, a chyfresi yn y dyfodol o bosibl.

(Os daw tystiolaeth i law beth amser ar ôl y tramgwyddo, mae'n bosibl o hyd y gweithredir sancsiwn neu gosb ar gyfer y gyfres y digwyddodd y tramgwyddo a chyfresi diweddarach).

Os yw’r asesiad yn barhaus, gweithredir sancsiynau a chosbau i'r cyflwyniad y digwyddodd y camymddwyn ynddo a gall hynny effeithio ar gyflwyniadau'r dyfodol.

Er mwyn bod yn gyson wrth osod sancsiynau a chosbau, ni fydd y cyrff dyfarnu fel arfer yn ystyried effeithiau ôl-ddilynol (er enghraifft ar gais i fynd i'r brifysgol) unrhyw gosb neu sancsiwn arbennig a allai godi o amgylchiadau’r unigolyn.

Cedwir cofnod parhaol o effaith unrhyw sancsiynau neu gosbau ar ganlyniadau unigolyn. Oherwydd hynny **ni ddylai** canolfannau dynnu ymgeiswyr yn ôl ar ôl nodi unrhyw gamymddwyn, hyd yn oed os nad ydynt wedi cwblhau'r asesiadau dan sylw.

Bydd yr holl wybodaeth arall yn ymwneud ag achosion penodol o gamymddwyn neu anghysonderau yn cael ei dinistrio.

Rhaid i bennaeth y ganolfan hysbysu'r unigolion hynny a gafodd eu canfod yn euog o gamymddwyn y gellid trosglwyddo gwybodaeth i gyrff dyfarnu eraill a/neu i awdurdodau priodol eraill.

Bydd y wybodaeth hon fel rheol yn cynnwys enwau, troseddau a sancsiynau'r sawl a ganfuwyd yn euog o dorri'r rheoliadau cyhoeddedig.

## Sancsiynau a chosbau am gamymddwyn gan staff y ganolfan – unigolion

Mewn achosion o gamymddwyn gan staff y ganolfan, prif rôl y corff dyfarnu yw ystyried a yw'n bosibl bod gonestrwydd ei arholiadau ac asesiadau wedi cael ei beryglu. (CBAC)

Bydd y corff dyfarnu'n ystyried a allai'r gonestrwydd hwnnw gael ei beryglu pe byddai unigolyn y cafodd ei ganfod yn euog o gamymddwyn yn ymwneud â'r gwaith o gynnal, goruchwylio neu weinyddu arholiadau neu asesiadau'r corff dyfarnu yn y dyfodol.

Nid yw ymwneud ag unrhyw fater sy’n effeithio ar berthynas cytundebol aelod o staff neu gontractwr gyda’i g/chyflogwr, neu’r un a gyflogodd ef/hi, yn rhan o swyddogaeth y corff dyfarnu.

Mae cyrff dyfarnu’n cydnabod y gall cyflogwyr gymryd safbwynt gwahanol am honiad i’r un a gymerir gan y corff dyfarnu neu ei Bwyllgor Camymddwyn.

Efallai y bydd cyflogwr am wneud penderfyniad terfynol ar ôl i'r corff dyfarnu neu'r Pwyllgor Camymddwyn ddod i'w benderfyniad.

Wrth benderfynu ar y sancsiwn neu gosb briodol, bydd y corff dyfarnu'n ystyried ffactorau megis:

y risg posibl i onestrwydd yr arholiad neu asesiad;
yr effaith andwyol bosibl ar ymgeiswyr;
nifer yr ymgeiswyr a/neu ganolfannau yr effeithir arnynt; **a**
risg posibl i'r rhai sy'n dibynnu ar y cymhwyster (e.e. cyflogwyr neu aelodau'r cyhoedd).

Gall y corff dyfarnu ystyried, yn ôl ei ewyllys, ffactorau lliniarol sydd wedi'u cefnogi gan dystiolaeth briodol. Ni fydd anwybodaeth o'r rheoliadau, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried fel ffactor liniarol.

**Gellir cymhwyso'r sancsiynau a'r cosbau hyn yn unigol neu ar y cyd.**

Lle y cafwyd aelod o staff neu gontractwr yn euog o gamymddwyn, gall corff dyfarnu osod un neu fwy o'r sancsiynau neu'r cosbau canlynol:

**Rhybudd ysgrifenedig**

Cyhoeddi rhybudd ysgrifenedig i'r aelod o staff yn nodi y bydd sancsiynau penodol pellach yn cael eu gweithredu os ail-adroddir y drosedd o fewn cyfnod penodol.

**Hyfforddiant**

Ei gwneud yn ofynnol i'r aelod o staff, fel amod o ymwneud â'i arholiadau a/neu asesiadau yn y dyfodol, ymgymryd â hyfforddiant neu fentora penodol, o fewn cyfnod amser penodol, a phroses adolygu ar ddiwedd yr hyfforddiant.

**Amodau arbennig**

Gosod amodau arbennig ar ran yr aelod o staff yn ei arholiadau a/neu asesiadau yn y dyfodol, pa un ai yw hyn yn cynnwys yr asesiad mewnol, cynnal, goruchwylio neu weinyddu ei arholiadau ac asesiadau.

**Atal**

Gwahardd yr aelod o staff rhag ymwneud â chyflwyno na gweinyddu ei arholiadau ac asesiadau am gyfnod penodol o amser. Gellir hysbysu cyrff dyfarnu eraill, rheoleiddwyr a sefydliadau eraill fel y Teaching Regulation Agency (TRA) a Chyngor y Gweithlu Addysg (EWC) pan gaiff cosb atal ei chyflwyno. (CBAC)

Hysbysir pennaeth y ganolfan o'r sancsiynau hyn a rhaid iddo sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu.

**Os bydd aelod o staff yn symud i ganolfan arall yn ystod y cyfnod mae'n destun un o'r sancsiynau uchod, rhaid i bennaeth y ganolfan hysbysu'r corff dyfarnu o'r symudiad hwn.**

Mae'r corff dyfarnu yn cadw'r hawl i hysbysu pennaeth y ganolfan y mae'r aelod o staff yn symud iddi am natur y sancsiwn a'r rheswm drosto.

Os bydd canolfan yn newid corff dyfarnu ar gyfer cymhwyster a bod aelod o'r staff sy'n ymwneud â chyflwyno neu asesu'r cymhwyster yn destun sancsiwn, rhaid i bennaeth y ganolfan hysbysu'r corff dyfarnu newydd.

Yn ôl ei ddisgresiwn, gall y corff dyfarnu ofyn i ganolfannau ymgymryd â gwaith monitro, neu i ddyfeisio cynllun i allu sicrhau bod y sancsiynau yn erbyn staff canolfan yn cael eu cymhwyso'n briodol. Mae gofynion o'r fath yn wahanol ac ar wahân i'r sancsiynau a ddisgrifir yn **adran 11**.

## Sancsiynau am gamymddwyn gan staff y ganolfan – canolfannau

Cyrff dyfarnu fydd yn pennu pa mor briodol yw gosod sancsiwn yn ôl y dystiolaeth a gyflwynir, natur ac amgylchiadau'r camymddwyn, a'r math o gymhwyster dan sylw.

**Nid yw'r holl sancsiynau'n gymwys i bob math o gymhwyster neu amgylchiadau.**

Gellir gweithredu'r cosbau hyn yn unigol neu ar y cyd. Mae'r tabl yn **Atodiad 4** yn dangos sut y gellir gweithredu'r sancsiynau.

Gall cyrff dyfarnu, yn ôl eu hewyllys, osod y sancsiynau canlynol yn erbyn canolfannau.

### Rhybudd ysgrifenedig

Ysgrifennu llythyr at bennaeth y ganolfan yn ei hysbysu o'r tramgwyddiad ac yn rhoi rhybudd iddo o unrhyw gamau gweithredu pellach y gellir eu cymryd (gan gynnwys gosod cosbau ac amodau arbennig) os torrir y rheoliadau eto, neu os bydd unrhyw dorri rheoliadau eraill yn digwydd yn y ganolfan o hyn ymlaen.

### Adolygu ac Adrodd (Cynlluniau Gweithredu)

Bydd yn ofynnol i bennaeth y ganolfan adolygu gweithdrefnau'r ganolfan ar gyfer cynnal neu weinyddu arholiad/asesiad penodol, neu'r holl arholiadau/asesiadau yn gyffredinol.

Bydd yn ofynnol i bennaeth y ganolfan hefyd gyflwyno adroddiad i'r corff dyfarnu ar y gwelliannau a roddwyd ar waith erbyn dyddiad penodol.

Neu, bydd y corff dyfarnu a'r ganolfan yn cytuno ar gynllun gweithredu, a bydd angen ei roi ar waith fel amod o barhau i dderbyn cofrestriadau neu ymrestriadau gan y ganolfan.

### Cymeradwyo tasgau asesu penodol

Cymeradwyo tasgau asesu penodol gan y corff dyfarnu mewn sefyllfaoedd lle y byddant fel arfer yn cael eu gadael i ewyllys y ganolfan.

**Monitro neu arolygu ychwanegol**

Gallai'r corff dyfarnu gynyddu, ar draul y ganolfan, y lefel arferol o fonitro sy'n digwydd mewn perthynas â'r cymhwyster (cymwysterau).

Neu, gallai Gwasanaeth Arolygu Canolfannau'r CGC gael ei hysbysu am y ffaith bod y rheoliadau wedi'u torri a gallai arolygu'r ganolfan yn ychwanegol at yr amserlen arolygu arferol, a hynny ar hap a heb unrhyw rybudd.

(Mae Gwasanaeth Arolygu Canolfannau'r CGC yn gweithredu mewn perthynas â chymwysterau cyffredinol a chymwysterau galwedigaethol a arholir.)

**Dileu statws Hawliau Uniongyrchol**

Gallai'r statws hawliau uniongyrchol gael ei dynnu oddi ar y ganolfan ac os felly, rhaid i ddilysydd allanol y ganolfan awdurdodi pob cais am ardystio.
(Dim ond i gymwysterau galwedigaethol y mae'r sancsiwn hwn yn gymwys.)

**Cyfyngiadau ar ddeunyddiau arholi ac asesu**

Am gyfnod penodol o amser darperir papurau arholiad a deunyddiau asesu i ganolfan ychydig cyn y bydd papurau a deunyddiau o'r fath yn cael eu defnyddio.

Bydd y papurau hyn yn cael eu hagor a'u dosbarthu dan oruchwyliaeth swyddog y corff dyfarnu (neu asiant a benodir ganddo) sy'n gyfrifol am y danfoniad.

Efallai y bydd gofyn i'r ganolfan hefyd drosglwyddo'r sgriptiau wedi'u cwblhau ac unrhyw ddogfennaeth atodol berthnasol i swyddog y corff dyfarnu (neu asiant a benodir ganddo) yn hytrach na defnyddio'r dulliau dosbarthu arferol.

Gellid rhoi'r mesurau hyn ar waith ar gyfer pynciau dethol neu ar gyfer pob pwnc.

**Goruchwylwyr annibynnol**

Penodi goruchwylwyr annibynnol, am gyfnod penodol o amser ac ar draul y ganolfan, i sicrhau bod arholiadau a/neu asesiadau yn cael eu cynnal yn unol â'r rheoliadau cyhoeddedig.

**Atal ymrestriadau neu gofrestriadau arholiad ymgeiswyr**

Gallai corff dyfarnu, am gyfnod o amser, neu tan y bydd mater penodol wedi'i gywiro, wrthod derbyn cofrestriadau neu ymrestriadau ymgeiswyr gan ganolfan.

Gallai hyn gael ei weithredu ar gyfer pynciau/meysydd galwedigaethol penodol neu bob pwnc/maes galwedigaethol.

**Atal ardystiad**

Gallai corff dyfarnu, am gyfnod o amser, neu tan y bydd mater penodol wedi'i gywiro, wrthod cyhoeddi tystysgrifau i ymgeiswyr o ganolfan.
(Mae hyn yn berthnasol i NVQ a mathau tebyg o gymwysterau'n unig.)

**Tynnu cymeradwyaeth cymhwyster (cymwysterau) penodol yn ôl**

Gallai corff dyfarnu dynnu cymeradwyaeth canolfan i gynnig un neu fwy o gymwysterau a gyhoeddir gan y corff dyfarnu hwnnw yn ôl.

**Tynnu cydnabyddiaeth y ganolfan yn ôl**

Gallai'r corff dyfarnu dynnu cydnabyddiaeth neu gymeradwyaeth canolfan yn ôl.

Ystyr hyn yw na fydd y ganolfan yn gallu cyflwyno na chynnig unrhyw gymwysterau'r corff dyfarnu hwnnw i'r myfyrwyr.

Hysbysir y rheoleiddwyr, y cyrff dyfarnu ac awdurdodau priodol eraill bod hyn wedi'i wneud.

Ar yr adeg y mae corff dyfarnu'n penderfynu tynnu cydnabyddiaeth canolfan yn ôl, hysbysir y ganolfan o'r dyddiad cynharaf y gall wneud cais arall am gofrestriad ac unrhyw fesurau y bydd angen iddi eu cymryd cyn gwneud y cais hwn.

Ni ddylai canolfannau y tynnwyd eu cydnabyddiaeth canolfan yn ôl gymryd yn ganiataol y bydd ail-gymeradwyaeth yn rhywbeth y mae disgwyl iddo ddigwydd.

Rhaid i'r ganolfan dalu unrhyw dreuliau sy'n berthnasol wrth gydymffurfio â'r cosbau a/neu'r amodau arbennig.

Os bydd pennaeth y ganolfan yn gadael yn ystod y cyfnod y mae'r ganolfan yn destun unrhyw un o'r sancsiynau neu fesurau arbennig uchod, bydd y corff dyfarnu, os gofynnir iddo wneud hynny, yn adolygu'r angen i barhau â'r mesurau hyn ar y cyd â phennaeth newydd y ganolfan.

## Sancsiynau a chosbau a weithredir yn erbyn ymgeiswyr

Cyrff dyfarnu fydd yn penderfynu pa mor briodol yw gosod sancsiwn neu gosb gan ddibynnu ar y dystiolaeth a gyflwynir, natur ac amgylchiadau'r camymddwyn, a'r math o gymhwyster dan sylw. **Nid yw'r holl sancsiynau'n briodol i bob math o gymhwyster neu amgylchiadau.**

Gellir gweithredu'r cosbau hyn yn unigol neu ar y cyd.
Mae'r tabl yn **Atodiad 5** yn dangos sut y gellid gweithredu'r cosbau a'r sancsiynau.

Gall cyrff dyfarnu, yn ôl eu hewyllys, osod y sancsiynau canlynol yn erbyn ymgeiswyr.

### Rhybudd

Rhybuddio'r ymgeisydd, os yw'n ailadrodd y drosedd o fewn cyfnod penodol o amser, y bydd sancsiynau penodol pellach yn cael eu gweithredu.

### Colli'r holl farciau am adran

Bydd yr ymgeisydd yn colli'r holl farciau a enillwyd am ran arwahanol o'r gwaith.
Gall adran fod yn rhan o gydran, neu'n ddarn unigol o asesiad di-arholiad os yw'n cynnwys sawl eitem.

### Colli'r holl farciau am gydran

Bydd yr ymgeisydd yn colli'r holl farciau a enillwyd am gydran.
Yn amlach na dim, bydd cydran yn rhan o gymwysterau llinol yn hytrach na chymhwyster unedol, ac felly gellir ystyried dewis y gosb hon yn lle cosb 4.
Mae gan rai unedau gydrannau hefyd, ac os felly mae lefel o gosb rhwng rhifau 2 a 4 yn bosibl.

### Colli'r holl farciau am uned

Bydd yr ymgeisydd yn colli'r holl farciau a enillwyd am uned.
Dim ond os yw'r cymhwyster yn un unedol y bydd y gosb hon ar gael. Yn achos cymwysterau llinol, cosb 3 yw'r dewis.
Bydd y gosb hon fel arfer yn caniatáu i'r ymgeisydd agregu neu wneud cais am ardystiad yn y gyfres honno, er y byddai hynny'n golygu marc neu radd ostyngol.

### Diarddel o uned

Bydd yr ymgeisydd yn cael ei ddiarddel o'r uned.
Dim ond os yw'r cymhwyster yn un unedol y bydd y gosb hon ar gael. Yn achos cymwysterau llinol cosb 7 yw'r dewis.
Effaith y gosb hon yw atal yr ymgeisydd rhag agregu neu ofyn am ardystiad yn y gyfres honno, os yw'r ymgeisydd wedi gwneud cais am hynny.

**Diarddel o bob uned mewn un cymhwyster neu fwy**

Os bydd yr amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny, gellir defnyddio cosb 5 ar gyfer unedau eraill a safwyd yn ystod yr un gyfres arholi neu asesu. (Bydd yr unedau hynny sydd yn y gronfa o gyfresi arholiadau blaenorol yn cael eu cadw.)
Dim ond os yw'r cymhwyster yn un unedol y bydd y gosb hon ar
gael. Yn achos cymwysterau llinol cosb 8 yw'r dewis.

**Diarddel o gymhwyster cyfan**

Caiff yr ymgeisydd ei ddiarddel o'r cymhwyster cyfan a gymerwyd yn y gyfres neu'r flwyddyn academaidd honno.
Dim ond os yw'r ymgeisydd wedi gofyn am agregiad y gellir gweithredu'r gosb hon i gymwysterau unedol. Mae unrhyw unedau sydd yn y gronfa o gyfresi blaenorol yn cael eu cadw, ond bydd yr unedau a gymerir yn y gyfres bresennol a'r cyfle agregu'n cael eu colli.
Os nad yw ymgeisydd wedi gwneud cais am agregiad, yna cosb 6 yw'r dewis. Gellir defnyddio hyn hefyd gyda chymwysterau llinol.

**Diarddel o'r holl gymwysterau a gymerwyd yn y gyfres honno**

Os bydd yr amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny, gellir gweithredu cosb 7 i gymwysterau eraill.
Dim ond os yw'r ymgeisydd wedi gofyn am agregiad y gellir gweithredu'r gosb hon i gymwysterau unedol.
Mae unrhyw unedau sydd yn y gronfa o gyfresi blaenorol yn cael eu cadw, ond bydd yr unedau a gymerir yn y gyfres bresennol a'r cyfle agregu'n cael eu colli.
Os nad yw ymgeisydd wedi gwneud cais am agregiad, yna cosb 6 yw'r dewis. Gellir defnyddio hyn hefyd gyda chymwysterau llinol.

**Atal yr ymgeisydd**

Caiff yr ymgeisydd ei atal rhag cynnig am un neu fwy o arholiadau am gyfnod penodol o amser. Gweithredir y gosb hon ar y cyd ag unrhyw gosbau eraill a nodir uchod, (heblaw am rybudd cosb 1) os bydd yr amgylchiadau'n gwarantu hynny.

Os bydd ymgeisydd yn cael ei wahardd rhag cynnig am arholiad yn y dyfodol, yn ogystal â chael ei gosbi, gall pob ymgeisydd a gosbir trwy golli marciau neu ddiarddel, ailsefyll y gydran (cydrannau), uned(au) neu gymhwyster (cymwysterau) yr effeithiwyd arnynt yn y gyfres arholiadau neu'r cyfle asesu nesaf os yw'r fanyleb yn caniatáu hynny.

Ni fydd ymgeiswyr yn Lloegr yn gallu ailsefyll unedau TGAU unigol mewn cyfresi diweddarach (hen fanylebau TGAU). Bydd rhaid iddynt ailsefyll y pwnc cyfan, gan drosglwyddo'r marc asesiad dan reolaeth. Ystyr hyn yw y bydd rhaid i ymgeiswyr, yn gyffredinol, aros am ddeuddeg mis am gyfle i ailsefyll yr arholiad(au).

Efallai yr hoffai penaethiaid canolfannau weithredu ymhellach eu hunain mewn achosion o gamymddwyn gan ymgeiswyr.

## Cyfathrebu penderfyniadau

Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud, bydd pennaeth y ganolfan yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig cyn gynted â phosibl.

**Cyfrifoldeb pennaeth y ganolfan yw cyfathrebu'r penderfyniad hwnnw i'r unigolion dan sylw, ac i drosglwyddo manylion unrhyw sancsiynau/cosbau a chamau gweithredu mewn achosion lle nodir bod angen gwneud hynny.**

Mae'r mwyafrif o achosion camymddwyn yn gyfrinachol rhwng y ganolfan, yr unigolyn wnaeth gamymddwyn a'r corff dyfarnu.

Fodd bynnag, mewn achosion o gamymddwyn difrifol, lle mae gonestrwydd yr arholiad neu'r asesiad dan fygythiad i'r fath raddau fel ei fod yn drech na'r ddyletswydd i gadw cyfrinachedd, fel arfer bydd angen cyfnewid gwybodaeth rhwng:

y rheoleiddwyr;
cyrff dyfarnu eraill; a
chanolfannau eraill lle y gallai'r camymddwyn effeithio ar y ffordd y cyflwynir cymhwyster corff dyfarnu.

Yn unol â gofynion y ddogfen *reoliadol (CBAC) Amodau Cydnabod*, bydd y corff dyfarnu'n cyflwyno adroddiad i'r rheoleiddwyr am achosion o gamymddwyn gan staff y ganolfan os yw amgylchiadau'r achos yn debygol o fodloni'r diffiniad o Effaith Andwyol yn ôl y diffiniad yn Amod B3.2 o'r ddogfen reoliadol (CBAC) *Amodau Cydnabod*.

Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys manylion sut y gweithredodd pennaeth y ganolfan, y corff dyfarnu neu'r cyflogwr cyfrifol. Hysbysir cyrff dyfarnu eraill ac awdurdodau priodol eraill hefyd.

Mewn achosion difrifol o gamymddwyn gan staff canolfan, mae'r cyrff dyfarnu'n cadw'r hawl i rannu gwybodaeth â chyrff proffesiynol megis Cyngor y Gweithlu Addysg (Cymru) a'r Teaching Regulation Agency (Lloegr) (CBAC).

**Cyfrifoldeb pennaeth y ganolfan yw hysbysu'r unigolyn a gyhuddir y gallai'r corff dyfarnu rannu gwybodaeth, yn unol â pharagraffau 13.2, 13.3 a 13.4.**

## Apeliadau

Mae'r cyrff dyfarnu wedi sefydlu trefn i ystyried apeliadau yn erbyn cosbau sy'n deillio o benderfyniadau camymddwyn.

Mae gan yr unigolion canlynol yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau'r Pwyllgor Camymddwyn neu swyddogion sy'n gweithredu ar ei ran:

Penaethiaid canolfannau, sy'n gallu apelio yn erbyn sancsiynau a osodir ar y ganolfan neu ar staff y ganolfan, yn ogystal ag ar ran ymgeiswyr a gofrestrwyd neu a ymrestrwyd am arholiad trwy'r ganolfan;

Aelodau o staff y ganolfan, neu bersonél arholi sydd â chontract gyda'r ganolfan, sy'n gallu apelio yn erbyn sancsiynau a osodwyd arnyn nhw'n bersonol;

Ymgeiswyr preifat;

Trydydd parti sydd wedi'i wahardd rhag sefyll neu gyflwyno arholiadau neu asesiadau'r corff dyfarnu.

Anfonir gwybodaeth am y broses o gyflwyno apêl i bob canolfan sy'n ymwneud â phenderfyniadau camymddwyn.

Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach yng nghyhoeddiad Saesneg y CGC *Canllaw i brosesau apeliadau'r cyrff dyfarnu* – http://www.jcq.org.uk/exams-office/appeals

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi manylion ynghylch prosesau apelio'r cyrff dyfarnu.

# Atodiad 1

## Ffynonellau gwybodaeth

Mae'r dogfennau canlynol yn cynnwys y rheoliadau sy'n ymwneud â chynnal arholiadau ac asesiadau, yn ogystal â'r gofynion a geir ym manyleb y pwnc neu'r cymhwyster. **Ym mhob achos rhaid cyfeirio at fersiwn diweddaraf y rheoliadau**.

**Mae'r dogfennau CGC canlynol ar gael yn Saesneg ar wefan y CGC:**

**Llyfrynnau**:

Canllaw i brosesau apeliadau'r cyrff dyfarnu Canllaw

i'r broses ystyriaeth arbennig

Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol, 1 Medi 2019 i 31 Awst 2020

Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy, 1 Medi 2019 i 31 Awst 2020

Cyfarwyddiadau ar gynnal gwaith cwrs, 1 Medi 2019 i 31 Awst 2020

Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau, 1 Medi 2019 i 31 Awst 2020

Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau di-arholiad, 1 Medi 2019 i 31 Awst 2020

Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau – Gwybodaeth ac arweiniad i ganolfannau (cyfresi arholiadau Mehefin 2019 a Thachwedd 2019)

**Hysbysiadau'r Cyd-gyngor**:

Gwybodaeth i ymgeiswyr (gwaith cwrs)
Gwybodaeth i ymgeiswyr (asesiadau di-arholiad) Gwybodaeth i ymgeiswyr (profion ar sgrin)
Gwybodaeth i ymgeiswyr (Hysbysiad Preifatrwydd)
Gwybodaeth i ymgeiswyr (cyfryngau cymdeithasol)
Gwybodaeth i ymgeiswyr (arholiadau ysgrifenedig)
Poster ffonau symudol
Llên-ladrad mewn Arholiadau, Arweiniad i Athrawon/Aseswyr
Rhybudd i Ymgeiswyr

**Mae'r dogfennau corff dyfarnu canlynol ar gael hefyd: AQA**

Rheoliadau Cyffredinol AQA
Diweddariadau Arholiadau AQA

**City & Guilds**

Rheoliadau Cyffredinol City & Guilds
Llawlyfr Canolfannau City & Guilds

**CCEA**

Llawlyfr Gweinyddu Cymwysterau

**OCR**

Canllawiau Gweinyddu Pynciau Penodol

**Pearson**

Canllawiau Canolfannau: Ymdrin â chamymddwyn
Cyfarwyddiadau Pwnc-benodol ar gynnal arholiadau

**CBAC**

Llyfryn Gofynion Arholiadau Llawlyfr Asesu
Mewnol CBAC Camymddwyn - Canllaw i
ganolfannau

Canllaw i Apeliadau (CBAC)

**Mae dogfennau rheoleiddiol ar gael ar wefannau'r rheoleiddwyr.**

# Atodiad 2

## Enghreifftiau o Gamymddwyn

Enghreifftiau o gamymddwyn yw'r canlynol. **Nid yw'n rhestr gynhwysfawr** ac nid yw felly'n cyfyngu ar gwmpas y diffiniadau a nodwyd yn gynharach yn y ddogfen hon.

Gall achosion eraill o gamymddwyn gael eu nodi a'u hystyried gan y cyrff dyfarnu gan arfer eu doethineb.

### Rhan 1 Camymddwyn gan Staff y Ganolfan

#### Tanseilio diogelwch

Unrhyw weithred sy'n torri cyfrinachedd papurau cwestiynau neu ddeunyddiau, a'r hyn sy'n cyfateb iddynt yn electronig, neu gyfrinachedd sgriptiau ymgeiswyr neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt yn electronig.

Gallai gynnwys:

methiant i gadw deunyddiau arholiadau yn ddiogel cyn yr arholiad;

trafod neu ddatgelu gwybodaeth fel arall am arholiadau ac asesiadau y dylid ei chadw'n gyfrinachol, e.e. fforymau rhyngrwyd/cyfryngau cymdeithasol (CBAC);

symud amser neu ddyddiad arholiad penodol y tu hwnt i'r amser a ganiatawyd yn llyfryn y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*. Mae cynnal arholiad cyn y dyddiad cyhoeddedig yn cael ei ystyried yn gamymddwyn gan staff y ganolfan ac yn amlwg yn tanseilio diogelwch;

methu â darparu goruchwyliaeth ddigonol ar gyfer ymgeiswyr y mae newid i'r amserlen wedi effeithio arnynt (Byddai hyn yn gymwys i ymgeiswyr sy'n cael eu goruchwylio dros nos gan bersonél y ganolfan neu yn yr achosion hynny lle mae arholiad i'w sefyll mewn sesiwn gynharach neu hwyrach ar y diwrnod cyhoeddedig.);

rhyddhau ymgeiswyr yn gynnar o asesiad sydd ar yr amserlen (e.e. cyn 10 a.m. ar gyfer arholiad yn ystod sesiwn y bore);

caniatáu, hwyluso neu gael gafael ar ddeunydd arholiad heb awdurdod cyn arholiad;

methu â dal gafael ar bapurau arholiad a'u diogelu ar ôl arholiad mewn achosion lle mae'r papur yn weithredol am gyfnod hwy na'r sesiwn benodol. Er enghraifft, lle mae arholiad i'w sefyll mewn sesiwn ddiweddarach gan un neu fwy o ymgeiswyr oherwydd bod amrywiad ar yr amserlen;

ymyrryd â sgriptiau, asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs neu asesiadau di-arholiad ymgeiswyr ar ôl eu casglu a chyn eu hanfon at y corff dyfarnu/arholwr/cymedrolwr;

(Byddai hyn hefyd yn cynnwys darllen sgriptiau ymgeiswyr neu lungopïo sgriptiau ymgeiswyr cyn eu hanfon at y corff dyfarnu/arholwr.)

methu â chadw ffeiliau cyfrifiadur ymgeiswyr yn ddiogel sy'n cynnwys asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs neu asesiadau di-arholiad.

## Twyll

Unrhyw weithred anonest mewn perthynas ag unrhyw arholiad neu asesiad, ond heb ei gyfyngu i'r canlynol:

dyfeisio neu newid marciau cydrannau a asesir yn fewnol (e.e. asesiadau di-arholiad) lle nad oes unrhyw dystiolaeth wirioneddol o gyflawniad yr ymgeiswyr i gyfiawnhau'r marciau sy'n cael eu rhoi;

cynhyrchu tystiolaeth o gymhwysedd yn erbyn safonau cenedlaethol;

ffugio cofnodion asesu a/neu ddilysu mewnol neu ddatganiadau dilysu;

cofrestru ymgeiswyr ffug am arholiadau neu asesiadau, neu wyrdroi'r broses asesu neu ardystio fel arall, gyda'r bwriad o ennill yn ariannol (twyll);

cyfnewid asesiad dan reolaeth, gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad un ymgeisydd am asesiad ymgeisydd arall;

rhoi gwybodaeth gamarweiniol neu anghywir i gorff dyfarnu, ymgeiswyr a/neu rieni.

## Cymorth amhriodol i ymgeiswyr

Unrhyw weithred o roi cymorth y tu hwnt i'r hyn sydd wedi'i ganiatáu gan y fanyleb neu'r rheoliadau i ymgeisydd neu grŵp o ymgeiswyr, sy'n golygu eu bod yn cael mantais bosibl neu wirioneddol mewn arholiad neu asesiad.

Er enghraifft:

cynorthwyo ymgeiswyr i gynhyrchu asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs, asesiadau di-arholiad neu bortffolios, y tu hwnt i'r hyn mae'r rheoliadau'n ei ganiatáu;

rhannu neu fenthyg asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs neu asesiadau di-arholiad ymgeiswyr gydag ymgeiswyr eraill mewn ffordd sy'n caniatáu achosion o gamymddwyn;

cynorthwyo neu annog ymgeiswyr wrth gynhyrchu atebion;

caniatáu i ymgeiswyr ddefnyddio defnyddiau a waherddir mewn arholiadau (geiriaduron, cyfrifianellau ac ati);

annog ymgeiswyr mewn arholiadau/asesiadau trwy gyfrwng arwyddion neu anogaeth lafar neu ysgrifenedig;

cynorthwyo ymgeiswyr y rhoddwyd hawl iddyn nhw gael defnyddio Cyfathrebydd Proffesiynol, Addasydd Iaith Lafar, cynorthwyydd ymarferol, anogwr, darllenydd neu ysgrifennydd y tu hwnt i'r hyn mae'r rheoliadau'n ei ganiatáu.

## Methiant i gydweithredu ag ymchwiliad

methiant i ddarparu tystiolaeth y mae'r corff dyfarnu'n gofyn yn rhesymol amdano yn ystod ymchwiliad, neu wrth benderfynu a oes angen cynnal ymchwiliad; **a/neu**

methiant i ymchwilio ar gais yn unol â chyfarwyddiadau neu gyngor corff dyfarnu; **a/neu**

methiant i ymchwilio neu gynnig gwybodaeth yn unol â therfynau amser a gytunwyd; **a/neu**

methiant i roi gwybod yn syth i'r corff dyfarnu am unrhyw achosion honedig o gamymddwyn, amheuon o gamymddwyn neu gamymddwyn gwirioneddol.

## Camweinyddu

Methiant i gadw at y rheoliadau'n ymwneud â chynnal asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs, arholiadau ac asesiadau di-arholiad neu gamymddwyn wrth gynnal yr arholiadau/asesiadau a/neu ymdrin â phapurau arholiad, sgriptiau ymgeiswyr, taflenni marciau, cofnodion asesu cronnus, canlyniadau a ffurflenni hawlio tystysgrifau, ayb.

Er enghraifft:

methiant i sicrhau bod asesiad dan reolaeth, gwaith cwrs, asesiadau di-arholiad neu waith sydd i'w gwblhau dan amodau dan reolaeth wedi'i fonitro a/neu ei oruchwylio'n ddigonol;

methiant, ar ran pennaeth canolfan, i gadw at ofynion manylebau cyrff dyfarnu o ran darparu asesiadau di-arholiad, Arnodiadau a phrojectau eraill sydd eu hangen yn rhan o gymhwyster. Mae'r rhain yn cynnwys y Project Rhaglennu TGAU Cyfrifiadureg, TGAU Saesneg Iaith Arnodiad Iaith Lafar a/neu'r TAG Safon Uwch Bioleg, Cemeg, Daeareg a Ffiseg Arnodiad Sgiliau Ymarferol;

aelodau amhriodol o staff yn asesu ymgeiswyr ar gyfer trefniadau mynediad, nad ydynt yn bodloni'r meini prawf y manylwyd arnynt ym mhennod 7 o gyhoeddiad y CGC *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol;*

methiant i ddefnyddio'r tasgau/aseiniadau cywir ar gyfer asesiadau;

methiant i roi hyfforddiant digonol i oruchwylwyr a'r sawl sy'n hwyluso trefniadau mynediad yn ddigonol, e.e. darllenwyr ac ysgrifenyddion, sy'n golygu nad oes cydymffurfio a chyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*;

methiant i gyhoeddi'r hysbysiadau a'r rhybuddion priodol i'r ymgeiswyr, e.e. CGC dogfennau *Gwybodaeth i ymgeiswyr* y CGC;

methiant i hysbysu Gwasanaeth Arolygu Canolfannau'r CGC o safleoedd gwahanol ar gyfer arholiadau;

methiant i ddangos hysbysiadau'n ymwneud â'r arholiad neu'r asesiad ym mhob ystafell (gan gynnwys ystafelloedd Cerdd a Chelf) lle y cynhelir arholiadau ac asesiadau;

peidio â sicrhau bod lleoliad yr arholiadau'n cydymffurfio â'r gofynion a bennwyd yng nghyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*;

methu ag atal deunydd diawdurdod rhag mynd i mewn i'r ystafell arholiadau, naill ai cyn neu yn ystod yr arholiad (D.S. mae hyn ag eithrio defnyddio'r ystafell arholiadau i hyfforddi ymgeiswyr neu i roi cyflwyniadau pwnc-benodol, gan gynnwys cyflwyniadau powerpoint cyn dechrau'r arholiadau);

methiant i atgoffa ymgeiswyr bod rhaid rhoi unrhyw ffonau symudol neu ddeunyddiau eraill sy'n eu meddiant, nad ydynt yn cael eu caniatáu, i'r goruchwyliwr cyn i'r arholiad gychwyn;

methiant i oruchwylio arholiadau'n ôl y cyfarwyddyd yng nghyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*;

methiant i gadw cofnodion cywir ar ffeil i'w harchwilio mewn perthynas â threfniadau goruchwylio dros nos;

methiant i gadw tystiolaeth briodol ar ffeil at ddibenion arolygu, yn ôl cyfarwyddyd cyhoeddiad y CGC *Trefniadau mynediad ac Addasiadau Rhesymol*, i gyfiawnhau'r trefniadau mynediad cymeradwyedig a broseswyd yn electronig gan ddefnyddio'r system *Trefniadau mynediad ar-lein*;

caniatáu trefniadau mynediad i ymgeiswyr nad ydynt yn bodloni gofynion cyhoeddiad y CGC *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol*;

caniatáu trefniadau mynediad i ymgeiswyr lle na chafwyd cymeradwyaeth o flaen llaw gan y system *Trefniadau mynediad ar-lein*, neu yn achos trefniant mwy cymhleth, gan gorff dyfarnu;

methiant i oruchwylio'n effeithiol wrth argraffu aseiniadau a wneir ar gyfrifiadur pan fydd yn ofynnol gwneud hynny;

methiant i gadw asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs neu asesiadau di-arholiad ymgeiswyr dan amodau diogel tan ar ôl llofnodi'r datganiadau dilysu neu farcio'r gwaith;

methiant i gynnal diogelwch sgriptiau ymgeiswyr cyn eu hanfon at y corff dyfarnu neu'r arholwr;

methiant i anfon sgriptiau ymgeiswyr, asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs neu asesiadau di-arholiad at y cyrff dyfarnu neu'r arholwyr neu'r safonwyr yn amserol;

methiant i hysbysu'r corff dyfarnu priodol cyn gynted ag y bo'n bosibl am unrhyw gamymddwyn honedig, amheuon o gamymddwyn neu gamymddwyn gwirioneddol;

methiant i gynnal ymchwiliad trylwyr i gamymddwyn honedig mewn arholiad neu asesiad pan ofynnir am wneud hynny gan gorff dyfarnu;

torri'r trefniadau a gyhoeddwyd ar gyfer rhyddhau canlyniadau arholiadau;

cadw neu ddinistrio tystysgrifau mewn ffordd amhriodol;

methiant i recriwtio dysgwyr mewn ffordd onest, gan gynnwys recriwtio dysgwyr nad ydynt wedi bodloni gofynion mynediad sylfaenol y cymhwyster lle bo hynny'n berthnasol a/neu recriwtio dysgwyr na allant gwblhau'r cymhwyster neu sy'n annhebygol o'i gwblhau fel arall.

## Rhan 2 Camymddwyn ar ran ymgeisydd

Er enghraifft:

newid neu ffugio unrhyw ddogfen ganlyniadau, gan gynnwys tystysgrifau;

torri cyfarwyddiadau neu gyngor goruchwyliwr, arolygwr neu'r corff dyfarnu mewn perthynas â rheolau a rheoliadau'r arholiad neu asesiad;

methiant i gadw at yr amodau goruchwylio a fwriadwyd i gynnal diogelwch yr arholiadau neu asesiadau;

cyd-gynllwynio: gweithio ar y cyd ag ymgeiswyr eraill, y tu hwnt i'r hyn a ganiateir;

copïo gan ymgeisydd arall (gan gynnwys defnyddio technoleg i gynorthwyo'r copïo);

caniatáu i waith gael ei gopïo e.e. rhoi gwaith ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol cyn arholiad/asesiad;

dinistrio gwaith ymgeisydd arall yn fwriadol;

ymddwyn yn aflonyddgar yn yr ystafell arholiadau neu yn ystod sesiwn asesu (gan gynnwys defnyddio iaith fygythiol);

methiant i adrodd yn ôl i'r ganolfan neu'r corff dyfarnu bod ymgeisydd wedi gweld gwybodaeth gysylltiedig ag asesiadau heb ganiatâd neu wedi rhannu gwybodaeth gysylltiedig ag asesiadau ar-lein heb ganiatâd;

cyfnewid, cael, derbyn, neu drosglwyddo gwybodaeth a allai ymwneud â'r asesiad (neu geisio gwneud hynny) (CBAC) trwy siarad, dulliau cyfathrebu electronig, dulliau cyfathrebu ysgrifenedig neu ddulliau cyfathrebu nad ydynt yn rhai llafar;

gwneud datganiad ffug o ddilysrwydd mewn perthynas ag awduraeth asesiad dan reolaeth, gwaith cwrs, asesiad di-arholiad neu gynnwys portffolio;

caniatáu i eraill gynorthwyo wrth gynhyrchu asesiad dan reolaeth, gwaith cwrs, asesiad di-arholiad neu gynorthwyo eraill i gynhyrchu asesiad dan reolaeth, gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad;

camddefnyddio, neu geisio camddefnyddio, deunyddiau ac adnoddau arholiadau ac asesiadau (e.e. deunyddiau enghreifftiol).

bod â gwybodaeth gyfrinachol diawdurdod yn eu meddiant am arholiad neu asesiad;

dod â nodiadau i'r ystafell arholiadau ar ffurf anghywir (lle y caniateir nodiadau mewn arholiadau) neu destunau wedi'u hanodi'n amhriodol (mewn arholiadau llyfr agored);

cynnwys deunydd amhriodol, bygythiol, masweddus, homoffobaidd, trawsffobaidd, hiliol neu rywiaethol mewn sgriptiau, asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs, asesiadau di-arholiad neu bortffolios;

personadu: cymryd arnynt i fod yn rhywun arall, trefnu i rywun arall gymryd eu lle mewn arholiad neu asesiad;

llên-ladrad: copïo neu atgynhyrchu deunydd o ffynonellau cyhoeddedig heb gydnabod hynny neu gyfeirio anghyflawn;

dwyn gwaith ymgeisydd arall;

dod â deunydd diawdurdod i mewn i'r ystafell arholiadau neu'r sefyllfa asesu, er enghraifft: nodiadau, canllawiau astudio a threfnwyr personol, eu papur gwag eu hunain, cyfrifianellau (pan fyddant wedi'u gwahardd), geiriaduron (pan fyddant wedi'u gwahardd), offer sy'n gallu cipio delwedd ddigidol, geiriaduron electronig (pan fyddant wedi'u gwahardd), cyfieithwyr, rhestrau geiriau, geirfaoedd, iPod, ffonau symudol, chwaraewyr MP3/MP4, peiriannau galw, watshys clyfar neu ddyfeisiau electronig tebyg eraill;

defnyddio cof bach neu ddyfais debyg heb ganiatâd pan fydd ymgeisydd yn defnyddio prosesydd geiriau;

hwyluso camymddwyn ar ran ymgeiswyr eraill;

ymddwyn mewn modd sy'n tanseilio gonestrwydd yr arholiad.

# Atodiad 3 Canllaw i gasglu tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad i gamymddwyn

Rhaid i'r sawl sy'n casglu tystiolaeth ynghylch honiad o gamymddwyn gan ymgeisydd mewn canolfan gasglu tystiolaeth a chyflwyno adroddiad wedyn i'r corff dyfarnu.

**Ni ddylai'r sawl sy'n casglu tystiolaeth fod ag unrhyw fudd personol na gwrthdaro buddiannau arall yng nghanlyniad yr ymchwiliad hwnnw.**

**Rhaid i'r adroddiad roi manylion ynghylch:**

pwy oedd yn ymwneud â'r digwyddiad, yn cynnwys ymgeiswyr, aelodau o staff a/neu oruchwylwyr;
ffeithiau'r achos, yn ôl yr hyn a gadarnhawyd ar sail y dystiolaeth a/neu ddatganiadau gan y rhai dan sylw.

**Rhaid i'r adroddiad gynnwys:**

adroddiad clir, yn ôl yr angen, o'r amgylchiadau;
manylion y gweithgareddau a gynhaliwyd gan y ganolfan;
datganiadau ysgrifenedig gan unrhyw athrawon, goruchwylwyr neu aelodau eraill o staff dan sylw, y mae'n **rhaid** iddynt fod wedi'u llofnodi a'u dyddio;
datganiadau ysgrifenedig gan yr ymgeiswyr dan sylw, y mae'n **rhaid** iddynt fod wedi'u llofnodi a'u dyddio;
unrhyw dystiolaeth arall sy'n berthnasol i'r honiad.

Lle bo'n briodol:

gwybodaeth yn dweud sut mae'r ganolfan yn rhoi gwybod i'r ymgeiswyr am reoliadau'r cyrff dyfarnu;
cynlluniau eistedd;
unrhyw ddeunydd diawdurdod a ganfuwyd yn yr ystafell arholiadau;
tystiolaeth ffotograffig o unrhyw ddeunydd a ysgrifennwyd ar y dwylo/y dillad ac ati;
unrhyw waith yr ymgeisydd/deunydd cysylltiol sy'n berthnasol i'r ymchwiliad;
unrhyw dystiolaeth berthnasol arall.

Rhaid i unigolion sy'n gysylltiedig â chamymddwyn gael yr hawliau a nodir yn adran 6.14.

**Rhaid** defnyddio **Ffurflen CGC/M3** sydd i'w chael yn http://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice yn sail i'r adroddiad hwn. Mae angen cwblhau'r rhestr wirio ar ddiwedd y ffurflen a'i chyflwyno gyda'r adroddiad.

**Os bydd yr honiad yn cael ei ddirprwyo i uwch aelod o staff y ganolfan, cyfrifoldeb cyffredinol pennaeth y ganolfan yw casglu'r dystiolaeth o hyd.**

Wrth ddethol uwch aelod addas o staff y ganolfan, **rhaid** i bennaeth y ganolfan gymryd pob cam rhesymol i osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau.

Lle y gall fod awgrym bod gwrthdaro buddiannau, **ni ddylid** dirprwyo ymchwiliadau o gamymddwyn honedig i reolwr yr is-adran, tîm neu'r adran sy'n destun y camymddwyn honedig. **Ni ddylai'r sawl sy'n cynnal yr ymchwiliad fod ag unrhyw ddiddordeb personol yng nghanlyniad yr ymchwiliad hwnnw.**

**Rhaid** i adroddiadau, tystiolaeth a datganiadau cefnogi gael eu hanfon at y corff dyfarnu dan sylw.

Peidiwch ag oedi cyn cysylltu â'r tîm ymchwilio i gamymddwyn yn y corff dyfarnu perthnasol am gyngor ac arweiniad os ydych, ar unrhyw adeg, yn ansicr sut i weithredu – mae gwybodaeth gyswllt ar gael ar ddiwedd y ddogfen hon.

## Atodiad 4

# Sancsiynau mynegol yn erbyn canolfannau

| Sancsiwn arfaethedig | Rheswm bras dros y sancsiwn |
|---|---|
| Rhybudd ysgrifenedig | Mân ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau neu gamweinyddu heb unrhyw berygl gwirioneddol neu uniongyrchol i onestrwydd arholiad neu asesiad. |
| Adolygu ac adrodd (cynlluniau gweithredu) | Torri gweithdrefnau neu reoliadau a allai, pe na weithredir, olygu bod bygythiad i'r arholiad neu'r asesiad. |
| Cymeradwyo tasgau asesu penodol | Methiant mewn maes pwnc neu sector penodol yn ymwneud â natur y tasgau asesu a ddewiswyd. |
| Monitro neu arolygu ychwanegol | Methiant o safbwynt systemau'r ganolfan sy'n golygu bod yr arholiad neu'r asesiad wedi'i reoli'n wael, neu'r goruchwylio'n annigonol. |
| Dileu Statws Hawliau Uniongyrchol | Colli hyder yng ngallu'r ganolfan i asesu a dilysu portffolios ymgeiswyr yn foddhaol. |
| Cyfyngiadau ar ddeunyddiau arholiadau neu asesiadau | Methiant i gynnal diogelwch y deunyddiau arholiadau neu asesiadau. |
| Defnyddio goruchwylwyr annibynnol | Colli hyder yng ngallu'r ganolfan i oruchwylio arholiadau. |
| Gwahardd ymrestriadau ymgeiswyr | Peryglu buddiannau ymgeiswyr a ymrestrir ar y cymhwyster. |
| Atal ardystiad | Colli gonestrwydd penderfyniadau asesu; perygl o geisiadau annilys am ardystiad. |
| Tynnu cymeradwyaeth am gymhwyster (cymwysterau) penodol yn ôl | Parhau i dorri rheoliadau'n ymwneud â chymhwyster penodol. Neu, fethiant yn y trefniadau ar gyfer rheoli a sicrhau ansawdd cymhwyster neu sector/maes pwnc penodol. |
| Tynnu cydnabyddiaeth y ganolfan yn ôl. | Colli hyder ym mhennaeth neu uwch reolwyr y ganolfan.<br>Methiant yn y trefniadau rheoli a sicrhau ansawdd ar gyfer rhai cymwysterau achrededig neu'r holl gymwysterau achrededig a gynigir gan y ganolfan.<br>Methiant i gydweithredu â cheisiadau'r corff dyfarnu i ymchwilio'n drylwyr i gamymddwyn honedig. |

**Atodiad 5**

**Tabl o droseddau wedi'u graddio yn ôl difrifoldeb ac yn dangos amrywiaeth briodol o gosbau a gymhwysir i ymgeiswyr**

NODER: Yn yr achosion hynny lle mae'r blwch yn wag, gellir defnyddio'r gosb.

NODER: Gall fod gwahaniaeth yn strwythur cymwysterau cyrff dyfarnu ac felly efallai na fydd yr holl gosbau sydd ar gael yn berthnasol i bob cymhwyster.

| **Math o drosedd** | **Rhybudd**<br>(Cosb 1) | **Colli marciau**<br>(Caniateir agregu o hyd)<br>(Cosbau 2 – 4) | **Colli cyfle agregu neu ardystio**<br>(Cosbau 5 – 9) |
|---|---|---|---|
| **Cyflwyno deunydd diawdurdod i'r ystafell arholiadau, er enghraifft:** | | | |
| Eu papur gwag eu hunain | ei ddefnyddio ar gyfer gwaith bras | ei ddefnyddio ar gyfer gwaith terfynol | |
| Cyfrifianellau, geiriaduron (os ydynt wedi'u gwahardd) | heb eu defnyddio | wedi'u defnyddio neu wedi ceisio'u defnyddio | |
| Dod â nodiadau i mewn i'r ystafell arholiadau ar y ffurf anghywir neu anodiadau gwaharddedig | nodiadau/anodiadau y tu hwnt i'r hyn a ganiateir ond heb roi mantais; nodiadau sy'n amherthnasol i'r pwnc | Nodiadau/anodiadau yn berthnasol ac yn rhoi mantais annheg | cyflwyno nodiadau/anodiadau mewn ymgais fwriadol i ennill mantais |
| Canllawiau astudio a threfnwyr personol | cynnwys amherthnasol i'r pwnc | cynnwys perthnasol i'r pwnc | perthnasol i'r pwnc a thystiolaeth eu bod wedi'u defnyddio |
| Ffôn symudol neu ddyfeisiau electronig tebyg (gan gynnwys iPod, chwaraewyr MP3/4, cofau bach, Ffôn clyfar, Watsh clyfar) | ddim ym meddiant yr ymgeisydd, ond yn gwneud sŵn yn yr ystafell arholiadau | ym meddiant yr ymgeisydd, ond dim tystiolaeth ei fod yn cael ei ddefnyddio gan yr ymgeisydd | ym meddiant yr ymgeisydd a thystiolaeth bod yr ymgeisydd yn ei ddefnyddio |
| **Cosbau safonol:** | | | |
| rhybudd;<br>colli marciau;<br>colli'r holl farciau a enillwyd am gydran;<br>colli'r holl farciau a enillwyd am uned;<br>diarddel o'r uned; | | diarddel o bob uned mewn un cymhwyster neu fwy a gymerwyd yn y gyfres;<br>diarddel o'r cymhwyster cyfan;<br>diarddel o'r holl gymwysterau a gymerwyd yn y gyfres honno;<br>gwahardd rhag cofrestru am arholiadau am gyfnod penodol o amser. | |

| Math o drosedd | Rhybudd<br>(Cosb 1) | Colli marciau<br>(Caniateir agregu o hyd)<br>(Cosbau 2 – 4) | Colli cyfle agregu neu ardystio<br>(Cosbau 5 – 9) |
|---|---|---|---|
| **Torri amodau arholiad** | | | |
| Torri cyfarwyddiadau neu gyngor goruchwyliwr, arolygwr, neu'r corff dyfarnu mewn perthynas â rheolau a rheoliadau'r arholiad | mân ddiffyg cydymffurfio: e.e. eistedd mewn sedd nad yw'n benodol ar ei gyfer; parhau i ysgrifennu am gyfnod byr ar ôl dweud wrtho am beidio | diffyg cydymffurfio mawr; e.e gwrthod symud i sedd sy'n benodol ar ei gyfer; parhau i ysgrifennu am amser sylweddol ar ôl dweud wrtho am roi'r gorau i ysgrifennu | diffyg cydymffurfio perthynol |
| Methu â chadw at yr amodau goruchwylio a fwriadwyd i gynnal diogelwch a gonestrwydd yr arholiadau | gadael yr arholiad yn gynnar (heb golli gonestrwydd); mynd â'r sgript o'r ystafell arholiadau, ond tystiolaeth bod gonestrwydd wedi cael ei gynnal | mynd â'r sgript o'r ystafell arholiadau heb brawf bod y sgript yn ddiogel; mynd â deunyddiau gartref | mynd ati'n fwriadol i dorri trefniant goruchwylio yn ymwneud â gwrthdaro ar yr amserlen; mynd â sgript o'r ystafell arholiadau a phrawf yr amharwyd â'r sgript; gadael yr ystafell arholiadau yn gynnar fel bod gonestrwydd yn cael ei amharu |
| Ymddwyn yn aflonyddgar yn yr ystafell arholiadau neu sesiwn asesu (gan gynnwys defnyddio iaith fygythiol) | mân amhariad yn para am amser byr; galw allan, gwneud sŵn, troi rownd | ailadrodd neu barhau i aflonyddu; sylwadau digywilydd annerbyniol; cael ei dynnu o'r ystafell arholiadau; cymryd eiddo ymgeisydd arall | Anwybyddu rhybuddion; ymddwyn yn bryfoclyd neu'n gythruddol; ailadrodd sylwadau swnllyd neu sarhaus; ymosod yn gorfforol ar aelod o staff neu eiddo |
| **Cosbau safonol:** | | | |
| rhybudd;<br>colli marciau a enillwyd am adran;<br>colli'r holl farciau a enillwyd am gydran;<br>colli'r holl farciau a enillwyd am uned;<br>diarddel o'r uned; | | diarddel o bob uned mewn un cymhwyster neu fwy a gymerwyd yn y gyfres;<br>diarddel o'r cymhwyster cyfan;<br>diarddel o'r holl gymwysterau a gymerwyd yn y gyfres honno;<br>gwahardd rhag cofrestru am arholiadau am gyfnod penodol o amser. | |

| Math o drosedd | Rhybudd<br>(Cosb 1) | Colli marciau<br>(Caniateir agregu o hyd)<br>(Cosbau 2 – 4) | Colli cyfle agregu neu ardystio<br>(Cosbau 5 – 9) |
|---|---|---|---|
| **Cyfnewid, cael, derbyn, neu drosglwyddo gwybodaeth a allai ymwneud â'r arholiad (neu geisio gwneud hynny):** | | | |
| Cyfathrebu ar lafar | achosion arunig o siarad cyn dechrau arholiad neu ar ôl i'r papurau gael eu casglu | siarad yn ystod yr arholiad am faterion nad ydynt yn ymwneud â'r arholiad; derbyn gwybodaeth yn ymwneud â'r arholiad | siarad am faterion yn ymwneud â'r arholiad yn ystod yr arholiad; sibrwd atebion i gwestiynau |
| Cyfathrebu | Trosglwyddo/derbyn cyfathrebiadau ysgrifenedig nad oes ganddynt unrhyw beth i'w wneud â'r asesiad | derbyn gwybodaeth sy'n ymwneud â'r asesiad | trosglwyddo nodiadau sy'n ymwneud â'r asesiad i ymgeiswyr eraill; helpu'i gilydd; cyfnewid sgriptiau |
| **Troseddau'n ymwneud â chynnwys gwaith yr ymgeiswyr** | | | |
| Cynnwys deunydd amhriodol, bygythiol neu fasweddus mewn sgriptiau, asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs, asesiadau di-arholiad neu bortffolios | geiriau neu luniau unigol, sydd ychydig yn fygythiol, ymagweddau neu ymatebion amhriodol | Geiriau neu luniadau ychydig yn anweddus i'w gweld yn aml; rhai geiriau anweddus iawn; geiriau ychydig yn anllad o dro i dro neu sylwadau ychydig yn anllad wedi'u hanelu at arholwr neu aelod o'r staff | Sylwadau bygythiol neu aflednais wedi'u hanelu at aelod o staff, arholwr neu grŵp crefyddol; sylwadau neu luniadau homoffobaidd, trawsffobaidd, hiliol neu rywiaethol neu anllad |
| **Cosbau safonol:**<br>rhybudd;<br>colli marciau a enillwyd am adran;<br>colli'r holl farciau a enillwyd am gydran;<br>colli'r holl farciau a enillwyd am uned;<br>diarddel o'r uned; | | diarddel o bob uned mewn un cymhwyster neu fwy a gymerwyd yn y gyfres;<br>diarddel o'r cymhwyster cyfan;<br>diarddel o'r holl gymwysterau a gymerwyd yn y gyfres honno;<br>gwahardd rhag cofrestru am arholiadau mewn cyfnod penodol o amser. | |

| **Math o drosedd** | **Rhybudd**<br>(Cosb 1) | **Colli marciau**<br>(Caniateir agregu o hyd)<br>(Cosbau 2 – 4) | **Colli cyfle agregu neu ardystio**<br>(Cosbau 5 – 9) |
|---|---|---|---|
| Cyd-gynllwynio: cydweithio ag ymgeiswyr eraill y tu hwnt i'r hyn a ganiateir | cydweithio yn amlwg mewn rhai mannau, oherwydd cyngor yr athro o bosibl; yr ymgeisydd ddim yn ymwybodol o'r rheoliadau | gwaith cydweithredol yn dechrau effeithio ar allu'r arholwr i ddyfarnu marc teg i ymgeisydd unigol | mae gwaith yr ymgeiswyr yn adlewyrchu nodweddion helaeth sy'n debyg a darnau unfath; oherwydd ymdrech fwriadol i rannu gwaith |
| Llên-ladrad: copïo neu atgynhyrchu deunydd o ffynonellau cyhoeddedig heb gydnabod hynny (gan gynnwys y rhyngrwyd); cyfeirio anghyflawn | ychydig bach o lên-ladrad/cyfeirio gwael mewn mannau | llên-ladrata o waith cyhoeddedig a restrir neu y cyfeirir ato yn y llyfryddiaeth; **neu** mân lên-ladrata o ffynhonnell na restrir neu na chyfeirir ati yn y llyfryddiaeth | llên-ladrata o waith cyhoeddedig a restrir neu y cyfeirir ato yn y llyfryddiaeth; **neu** destun wedi'i lên-ladrata'n cynnwys sylwedd y gwaith a gyflwynwyd a'r ffynhonnell wedi'i rhestru neu gyfeiriad ati yn y llyfryddiaeth |
| Gwneud datganiad ffug o ddilysrwydd | | darnau o'r gwaith wedi'u gwneud gan eraill, ond y rhan fwyaf yn dal i fod yn waith yr ymgeisydd | nid gwaith yr ymgeisydd yw'r rhan fwyaf neu'r cyfan o'r gwaith |
| Copïo gan ymgeisydd arall neu ganiatáu i waith gael ei gopïo (gan gynnwys camddefnyddio technoleg) | rhoi benthyg gwaith, heb wybod y byddai'n cael ei gopïo | caniatáu i sgript arholiad / gwaith gael ei gopïo; dangos yr atebion i ymgeiswyr eraill | copïo o sgript, asesiad dan reolaeth, gwaith cwrs, asesiad di-arholiad ymgeisydd arall; benthyg gwaith i'w gopïo |
| **Tanseilio gonestrwydd arholiadau / asesiadau** | | | |
| Difrodi gwaith yn fwriadol | mân ddifrod i waith nad yw'n amharu ar weledd | difwyno sgriptiau; difrodi gwaith yr ymgeisydd ei hun | difrodi gwaith ymgeisydd arall yn sylweddol anwiriad / ffugiad |
| **Cosbau safonol:** | | | |
| rhybudd;<br>colli marciau a enillwyd am adran;<br>colli'r holl farciau a enillwyd am gydran;<br>colli'r holl farciau a enillwyd am uned;<br>diarddel o'r uned; | | diarddel o bob uned mewn un cymhwyster neu fwy a gymerwyd yn y gyfres;<br>diarddel o'r cymhwyster cyfan;<br>diarddel o bob cymhwyster;<br>gwahardd rhag cofrestru am arholiadau am gyfnod penodol o amser. | |

| **Math o drosedd** | **Rhybudd**<br>(Cosb 1) | **Colli Marciau**<br>(Caniateir agregu o hyd)<br>(Cosbau 2 – 4) | **Colli cyfle agregu neu ardystio**<br>(Cosbau 5 – 9) |
|---|---|---|---|
| Camddefnyddio deunydd ac adnoddau asesu, neu geisio gwneud hynny | ceisio dod o hyd i wybodaeth yn ymwneud ag asesu ar y we | derbyn gwybodaeth yn ymwneud ag asesiad heb gyflwyno adroddiad am hynny i'r corff dyfarnu | camddefnyddio deunydd asesu neu wybodaeth yn ymwneud â'r arholiad gan gynnwys: ceisio cael neu gael gwybodaeth am gynnwys yr asesiad ymlaen llaw; datgelu amhriodol (gan gynnwys dulliau electronig); derbyn gwybodaeth asesu o'r ystafell arholiadau; hwyluso camymddwyn ar ran eraill; trosglwyddo neu ddosbarthu gwybodaeth gysylltiedig ag asesiadau i bobl eraill |
| Dwyn (lle y mae gwaith yr ymgeisydd yn cael ei dynnu neu ei ddwyn) | | | cymryd gwaith rhywun arall (e.e. project / gwaith cwrs) gan ddweud mai eu gwaith nhw ydyw |
| Personadu | | | defnyddio’r enw neu’r rhif anghywir yn fwriadol; personadu unigolyn arall; trefnu i gael eu personadu |
| Ymddwyn mewn ffordd fydd yn tanseilio gonestrwydd yr arholiad/asesiad | | | er enghraifft, ceisio cael tystysgrifau trwy dwyll; ymgais i lwgrwobrwyo; gwneud ymgais i gael neu gyflenwi deunyddiau arholiad drwy dwyll |
| Cosbau safonol: | | | |
| rhybudd;<br>colli marciau a enillwyd am adran;<br>colli’r holl farciau a enillwyd am gydran;<br>colli’r holl farciau a enillwyd am uned;<br>diarddel o’r uned; | | diarddel o bob uned mewn un cymhwyster neu fwy a gymerwyd yn y gyfres;<br>diarddel o'r cymhwyster cyfan;<br>diarddel o bob cymhwyster yn y gyfres honno;<br>gwahardd rhag cofrestru am arholiadau am gyfnod penodol o amser. | |

**Grid Tariff Sancsiynau Staff Canolfannau CGC Ionawr 2019** **Atodiad 6**

Cytunwyd ar y ddogfen hon gan gynrychiolwyr cyrff dyfarnu'r Cyd-gyngor Cymwysterau, a'i bwriad yw darparu canllaw seiliedig ar egwyddorion i gymhwyso sancsiynau mewn achosion o gamymddwyn gan athro/athrawes. Canllaw yn unig yw hwn, nid yw'n rhagnodol nac yn hollgynhwysfawr a'i fwriad yw darparu fframwaith dangosol ar gyfer ystyried sancsiynau ym mhob achos o gamymddwyn gan athro/athrawes. Fe'i defnyddir ochr yn ochr ag unrhyw ffactorau lliniarol a gwaethygol sy'n bresennol mewn achos penodol, a fydd yn cael ei gymryd i ystyriaeth.

| **Math o drosedd** | **Rhybudd** | **Hyfforddiant** | **Amodau Arbennig** | **Gwaharddiad dros dro (MalCom yn unig)** |
|---|---|---|---|---|
| **Cymorth Amhriodol** | Ychydig o gymorth, dim effaith sylweddol, e.e. lle na chaniateir, penawdau neu dempled tabl sylfaenol, ychydig bach o adborth syml /generig, rhannu enghreifftiau heb reolaeth ofalus (lle nad yw unigolyn wedi'i hyfforddi/lle mae unigolyn yn ddibrofiad). | Cymorth cyfyngedig, effaith fach iawn, camddeall rheolau neu ddiffyg profiad, e.e. darllenwr newydd yn egluro cwestiynau, unigolyn nad yw'n arbenigwr yn rhoi canllaw 'sut i' yn yr asesiad di-arholiad yn erbyn rheoliadau. | Cymorth ac effaith gyfyngedig, e.e. mae aelod o staff yn rhoi arweiniad 'sut i' cyffredinol, gan roi enghreifftiau heb unrhyw reolaeth, a/neu adborth y tu hwnt i'r rheoliadau lle mae ffactorau lliniarol yn bresennol, e.e. mewn asesiad di-arholiad yn dilyn newid diweddar i fanyleb lle caniatawyd mewn manyleb flaenorol. | Effaith sylweddol; amharu ar ddilysrwydd asesiadau; e.e. adborth y tu hwnt i reoliadau, rhoi enghreifftiau ar gyfer copïo, darparu atebion. |
| **Camweinyddu** | Defnydd o dasgau/testunau hen neu anghywir ar fwy nag un achlysur, mân wallau wrth ddilyn rheoliadau asesu heb lawer o effaith ar ymgeiswyr, e.e. caniatáu trefniadau mynediad cyfiawn pan na roddir cymeradwyaeth. | Gwallau yn dilyn rheoliadau asesu, gan staff dibrofiad/sydd wedi eu hyfforddi'n annigonol, e.e. goruchwylwyr newydd yn methu rheoli amseriadau'n gywir; ysgrifennydd yn darllen cwestiynau. | Gwallau wrth ddilyn rheoliadau asesu gan aelodau o staff profiadol, ond gydag effaith gyfyngedig ar nifer gyfyngedig o ymgeiswyr, e.e. caniatáu trefniadau mynediad i ymgeiswyr nad ydynt yn gymwys gan arwain at effaith gyfyngedig sydd ddim yn systematig o ran cwmpas; methu goruchwylio ymgeiswyr sydd â gwrthdaro ar eu hamserlenni yn ddigonol gan arwain at effaith gyfyngedig. | Gwallau wrth ddilyn rheoliadau asesu sy'n cyfaddawdu cywirdeb asesiad neu gyflwyniadau; neu dorri rheoliadau sy'n effeithio ar ganlyniadau; neu ddiffyg cydymffurfio systemig, parhaus neu ar fwy nag un achlysur â rheoliadau'r CGC; methu darparu hyfforddiant i oruchwylwyr, a/neu'r rheiny sy'n cynorthwyo gyda'r Trefniadau Mynediad. |
| **Twyll** | Bwriedir i'r blwch hwn fod yn wag. | Bwriedir i'r blwch hwn fod yn wag. | Bwriedir i'r blwch hwn fod yn wag. | Ffugio gwaith neu gyflwyniadau ymgeiswyr, diffyg cydymffurfio systematig â rheoliadau'r CGC; ffugio marciau, cofrestru ymgeiswyr ffug a/neu anghymwys ar gyfer arholiadau; dyfeisio tystiolaeth ar gyfer trefniadau mynediad. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Tanseilio Diogelwch** | Methu talu digon o sylw i ddiogelwch deunyddiau asesu sydd ddim yn arwain at danseilio diogelwch e.e., deunyddiau wedi'u gadael y tu allan i'r storfa ddiogel ond y pecynnau papurau cwestiynau heb eu hagor. Risg i ddilysrwydd yr arholiad, ond dim tystiolaeth o danseilio; methu storio papurau'n briodol ond heb effaith y tu hwnt i risg gynyddol. | Risg i ddilysrwydd arholiad gyda thystiolaeth o fethu deall rheoliadau a ddyluniwyd i ddiogelu dilysrwydd arholiad, e.e. papurau anghywir wedi'u tynnu o storfa ddiogel, dim gwiriad gan ail bâr o lygaid, ond ni chafodd cynnwys papurau ei ddatgelu i unrhyw drydydd parti anawdurdodedig. | Methiant esgeulus/mewn camgymeriad i ddilyn rheoliadau neu gamau gweithredu diogelwch sydd â'r potensial o danseilio diogelwch arholiad e.e. rhoi'r papur anghywir i ymgeiswyr ond dim ond ar ymgeiswyr y ganolfan honno yr effeithiwyd. | Camddefnyddio mynediad cyfiawn i ddeunyddiau cyfrinachol, e.e. rhannu cwestiynau arholiad byw gydag ymgeiswyr cyn amser cychwyn swyddogol yr arholiad. Methu gweithredu yn brydlon i reoli effaith tanseilio diogelwch i ganolfan. Methu trefnu goruchwyliaeth lle bo gwrthdaro rhwng arholiadau sy'n arwain at effaith sylweddol. |
| **Methu Cydweithredu / Rhoi gwybod am faterion** | Mân ddiffyg cydymffurfio, e.e. oedi o ran cwrdd â graddfeydd amser ymchwilio heb gytundeb, oedi wrth roi gwybod. | Methu ymchwilio yn unol ag arweiniad y CGC. | Methu rhoi gwybod am ddigwyddiad effaith isel o gamymddwyn. Methu gweithredu fel sy'n ofynnol gan gorff dyfarnu. | Methu rhoi gwybod am achosion sylweddol o gamymddwyn. Methu cydweithredu â'r ymchwiliad, methu ymateb i gyfathrebiadau corff dyfarnu.<br>Cyflwyno adroddiadau ymchwiliad sy'n gamarweiniol neu'n cynnwys gwybodaeth ffug a allai olygu bod corff dyfarnu yn dod i gasgliadau anghywir. |

**Atodiad 7**

# Enghreifftiau o gamymddwyn

Enghreifftiau wedi'u golygu o gofnodion hanesyddol yr holl gyrff dyfarnu sy'n rhan o gytundeb y Cyd-gyngor yw'r enghreifftiau canlynol o gamymddwyn.

## 1. Camymddwyn gan staff y ganolfan:

### 1.1 Ymyrryd â sgriptiau neu waith cwrs ymgeiswyr ar ôl ei gasglu a chyn ei ddanfon i'r corff dyfarnu

**Lefel 3 Diploma mewn Nyrsio Deintyddol**

Yr oedd gweithdrefnau sicrhau ansawdd mewnol y ganolfan ei hun wedi nodi bod aseswr i'r cymhwyster Lefel 3 Diploma mewn Nyrsio Deintyddol wedi cwblhau tystiolaeth bortffolio ar ran nifer o ddysgwyr. Daeth yr ymchwiliad dilynol i'r casgliad bod tystiolaeth bortffolio chwe dysgwr wedi'i chynhyrchu gan yr aseswr. Nid oedd tystiolaeth i awgrymu bod unrhyw faterion dilysrwydd yn perthyn i waith dysgwyr eraill y garfan. Ymddiswyddodd yr aseswr o'i swydd wrth i'r ymchwiliad fynd rhagddo.

Canlyniadau: (a) Penderfynodd y corff dyfarnu nad oedd yn gallu derbyn gwaith y chwe dysgwr. Gofynnwyd iddynt gynhyrchu tystiolaeth bellach ar gyfer eu portffolios.

(b) Penderfynodd y corff dyfarnu y dylid diarddel yr aseswr rhag ymwneud o gwbl â darparu na gweinyddu ei arholiadau ac asesiadau am gyfnod o ddwy flynedd.

(c) Ymwelwyd â'r ganolfan ac archwiliwyd y portffolios eto cyn y cytunwyd i ardystiad y cymhwyster hwn.

**TGAU Hanes**

Yn dilyn sylwadau gan ymgeisydd, cychwynnodd y ganolfan ymchwiliad i gamymddwyn honedig gan aelod o staff. Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad bod athro Hanes yn y ganolfan, oedd wedi colli neu heb dderbyn gwaith ymgeiswyr, wedi ffugio asesiadau dan reolaeth naw ymgeisydd.

Canlyniadau: (a) Cafodd yr athro ei wahardd rhag cyflwyno cymwysterau'r corff dyfarnu am gyfnod o dair blynedd.

(b) Cymerwyd camau i liniaru'r effaith ar ymgeiswyr.

**1.2 Tanseilio diogelwch**

**TAG Safon Uwch Bioleg**

Adroddodd canolfan fod cyn-aelod o'r staff, a oedd yn gweithio mewn ysgol arall, wedi anfon e-bost at aelod o'r Adran Wyddoniaeth a oedd yn cynnwys dau bapur enghreifftiol a oedd yn seiliedig ar brawf asesu ymarferol byw. Darganfuwyd hefyd bod yr athro wedi anfon copïau o'r deunydd at nifer o ymgeiswyr. Yr oedd hyn o bosibl wedi peryglu diogelwch y prawf ymarferol.

Canlyniadau (a) Cafodd yr athro ei wahardd rhag ymwneud ag arholiadau ac asesiadau'r corff dyfarnu am gyfnod o ddwy flynedd.

(b) Hysbyswyd y cyrff dyfarnu eraill o’r penderfyniad hwn.

**TGAU Saesneg / Saesneg Iaith**

Adroddwyd bod ymgeiswyr wedi cael gweld gwybodaeth yn ymwneud â phapurau cwestiynau cyfrinachol cyn yr arholiadau. Pan ymchwiliodd y corff dyfarnu i hyn, cadarnhaodd mwy nag un o'r ymgeiswyr bod pennaeth y ganolfan wedi rhoi gwybodaeth o'r fath iddyn nhw.

Canlyniadau: (a) Datgofrestrwyd y ganolfan am fethu sicrhau gonestrwydd yr arholiad ac am gamddefnyddio'r system arholiadau yr oedd yn ymwneud â hi er mwyn rhoi mantais annheg i'w hymgeiswyr.

(b) Cafodd pennaeth y ganolfan ei wahardd rhag ymwneud ag arholiadau'r corff dyfarnu am gyfnod o bum mlynedd am fethu cadw deunydd arholiadau'n ddiogel cyn amser dechrau swyddogol yr arholiad ac am ganiatáu i ddeunydd arholiad gael ei weld heb awdurdod neu hwyluso hynny.

(c) Hysbyswyd y cyrff dyfarnu eraill o’r penderfyniad hwn.

**TGAU Daearyddiaeth**

Adroddodd y ganolfan bod aelod o'r staff addysgu, oedd yn bresennol yn yr ystafell arholiadau am yr arholiad cyfan, wedi siarad ag ymgeiswyr oedd wedi codi eu dwylo yn ystod yr arholiad. Yr oedd nifer o'r ymgeiswyr wedi datgan bod deunydd perthnasol i'r pwnc wedi'i awgrymu fel atebion posibl wrthyn nhw.

Canlyniadau: (a) Penderfynodd y corff dyfarnu na ddylai'r aelod o staff, am gyfnod o dair fynd i mewn i unrhyw ystafell arholiad, nac unrhyw ystafell arall sydd wedi'i dynodi yn ystafell arholiad, tra bod arholiad yn cael ei gynnal ar y corff dyfarnu hwnnw.

(b) Am gyfnod o dair blynedd o leiaf, ni ddylai'r aelod o staff ymwneud ag arholiadau ar gyfer y corff dyfarnu hwnnw heb oruchwyliaeth. Rhaid i uwch aelod o staff sy'n fwy profiadol ei oruchwylio.

## 2. Cymorth amhriodol i ymgeiswyr:

### 2.1 Cynorthwyo ymgeiswyr wrth gynhyrchu asesiadau dan reolaeth

**TGAU Cyfrifiaduro**

Adroddodd y cymedrolwr bod yr un cod wedi'i ysgrifennu yn eu tasg gan yr ymgeiswyr, a bod hyn yn awgrymu bod yr athro wedi rhoi'r codau hyn iddyn nhw. Adroddodd y ganolfan bod yr athro wedi dangos y codau ar y bwrdd ac wedi annog ymgeiswyr i'w gopïo i'w gwaith.

Canlyniadau:

(a) Penderfynodd y corff dyfarnu nad oedd yn gallu derbyn gwaith yr ymgeiswyr ar gyfer yr uned hon. Yn hytrach cyhoeddwyd gradd wedi'i hasesu i'r ymgeiswyr gan ddefnyddio'r dull sgôr Z.

(b) Derbyniodd y corff dyfarnu'r amgylchiadau lliniarol a gyflwynwyd gan yr athro. Oherwydd hynny cafodd yr athro ei ddiarddel am gyfnod byrrach o un flwyddyn rhag ymwneud â darparu arholiadau'r corff dyfarnu gan ei fod wedi cynnig cymorth y tu hwnt i'r lefel a ganiateir.

**TGAU Gwyddoniaeth**

Adroddodd y safonwr bod posibilrwydd o gamymddwyn. Yr oedd ychwanegiadau wedi'u gwneud ar ddiwedd atebion mewn beiro lliw gwahanol yn achos chwe ymgeisydd yn y sampl a welwyd. Yr oedd tystiolaeth bod brawddeg wedi'i hychwanegu. Ar ôl ymchwilio cadarnhawyd bod yr aelod o staff, ar ôl cwblhau'r asesiad dan reolaeth ar lefel uchel, wedi gwneud nodiadau mewn pensil ar y gwaith. Yna dychwelwyd y gwaith i'r ymgeiswyr a rhoddwyd amser iddyn nhw wneud cywiriadau.

Canlyniadau:

(a) Cafodd yr aelod o staff ei wahardd rhag ymwneud ag arholiadau'r corff dyfarnu am gyfnod o dair blynedd, am gynorthwyo gynhyrchu asesiad dan reolaeth y tu hwnt i'r graddau a ganiateir gan y rheoliadau.

(b) Hysbyswyd y cyrff dyfarnu eraill o'r penderfyniad hwn.

**TGAU Saesneg**

Dan bwysau gan bennaeth y ganolfan i wella marciau, cytunodd athro gynnal diwrnod ymyrraeth er mwyn llunio darn wedi'i wella o waith. Tafluniodd yr athro amlinelliad o ateb ar fwrdd wrth i'r ymgeiswyr gwblhau'r asesiad dan amodau dan reolaeth. Yr oedd eu llyfrau ysgrifennu ar gael i'r ymgeiswyr hefyd.

Canlyniadau: (a) Cafodd yr athro ei wahardd rhag ymwneud ag arholiadau'r corff dyfarnu am gyfnod o ddwy flynedd, am gynorthwyo gynhyrchu asesiad dan reolaeth y tu hwnt i'r graddau a ganiateir gan y rheoliadau.

(b) Hysbyswyd y cyrff dyfarnu eraill o'r penderfyniad hwn.

**TGAU Saesneg Iaith**

Adroddodd y ganolfan bod athro wedi caniatáu i ymgeiswyr gopïo deunydd o asesiadau dan reolaeth enghreifftiol a gwblhawyd y flwyddyn flaenorol. Yr oedd yr athro hefyd wedi caniatáu i'r ymgeiswyr ddefnyddio traethodau a gwblhawyd ganddynt adref yn lle'r gwaith a gwblhawyd ganddynt dan amodau dan reolaeth.

Canlyniadau: (a) Cafodd yr athro ei wahardd rhag ymwneud ag arholiadau ac asesiadau'r corff dyfarnu am gyfnod o dair blynedd, am ymgeiswyr wrth gynhyrchu asesiadau dan reolaeth y tu hwnt i'r graddau a ganiateir gan y rheoliadau.

(b) Hysbyswyd y cyrff dyfarnu eraill o'r penderfyniad hwn.

## 2.2 Cynorthwyo ymgeiswyr wrth gynhyrchu atebion

**TGAU Sbaeneg**

Adroddodd y cymedrolwr ei bod yn bosibl, yn ystod yr asesiad dan reolaeth Siarad, clywed yr athro oedd yn cynnal y prawf yn sibrwd ysgogiadau i'r ymgeiswyr yn Sbaeneg. Yr oedd yr ymgeiswyr wedyn wedi defnyddio llawer o'r geiriau a sibrydwyd yn eu hymatebion. Mae tystiolaeth glir ar y recordiadau bod cymorth amhriodol wedi'i roi i ymgeiswyr.

Canlyniadau: (a) Cafodd yr athro ei wahardd rhag ymwneud ag arholiadau ac asesiadau'r corff dyfarnu am gyfnod o ddwy flynedd.

(b) Hysbyswyd y cyrff dyfarnu eraill o'r penderfyniad hwn.

**TAG Dylunio a Thechnoleg**

Adroddodd pennaeth canolfan ei fod wedi'i ddarganfod bod athro wedi gwella gwaith cwrs rhai o'r ymgeiswyr yn y sampl safoni. Yr oedd rhai ymgeiswyr eraill nad oedden nhw'n rhan o'r sampl wedi derbyn marciau llawer uwch nag yr oedd y gwaith cwrs yn ei haeddu.

Cyfaddefodd yr athro ei fod wedi gwella'r gwaith cwrs ac wedi dyfarnu marciau uchel i ymgeiswyr nad oedden nhw'n haeddu'r marciau hynny.

Canlyniadau: (a) Penderfynodd y corff dyfarnu wahardd yr athro rhag ymwneud â'i arholiadau am gyfnod o dair blynedd.

(b) Hysbyswyd y cyrff dyfarnu eraill o'r penderfyniad hwn.

**TGAU Mathemateg**

Cynhaliodd y ganolfan ymchwiliad i gamymddwyn honedig ar ôl i ymgeisydd wneud sylwadau wrth aelod o staff. Ar ôl ymchwilio daethpwyd i'r casgliad bod aelod o staff yn gweithredu fel goruchwyliwr wedi cynorthwyo'r ymgeisydd mewn ffordd amhriodol yn ystod arholiad TGAU Mathemateg. Yn ystod yr arholiad yr oedd yr un aelod o staff hefyd wedi gadael yr ymgeisydd heb ei oruchwylio am gyfnod anhysbys o amser.

Canlyniadau: (a) Cafodd yr athro ei wahardd rhag ymwneud â chymwysterau'r corff dyfarnu am gyfnod o dair blynedd am gynorthwyo'r ymgeisydd mewn ffordd amhriodol.

(b) Am fethu â goruchwylio'r ymgeisydd wrth weithredu fel goruchwyliwr, cafodd yr athro ei wahardd am flwyddyn ychwanegol.

(c) Byddai mwy o fonitro yn digwydd yn y ganolfan er mwyn sicrhau gonestrwydd y cymwysterau a ddarparwyd yno.

**TGAU Astudiaethau Crefyddol**

Adroddodd pennaeth y ganolfan wrth y corff dyfarnu bod y pennaeth Astudiaethau Crefyddol wedi mynd i mewn i'r ystafell arholiadau ac wedi edrych ar bapur cwestiynau ac ymatebion a ysgrifennwyd gan rai o'r ymgeiswyr. Yna siaradodd yn dawel â rhai o'r ymgeiswyr yn unigol gan ddweud wrthynt am ddarllen dros eu gwaith a'u hatgoffa y gallent ddefnyddio'u barn eu hunain yn eu hatebion. Roedd y goruchwylwyr a'r swyddog arholiadau'n dystion i hyn. Roedd datganiadau'r ymgeiswyr yr oedd yr athrawes wedi siarad â nhw'n datgelu ei bod wedi rhoi cyngor am ymatebion penodol. Gwadodd yr athrawes ei bod wedi rhoi unrhyw gymorth o bwys i'r ymgeiswyr.

Canlyniad:

(a) Roedd yr athrawes wedi torri gonestrwydd yr arholiad TGAU Astudiaethau Crefyddol.

(b) Roedd yn amhosibl barnu'n union i ba raddau y gallai ymyrraeth yr athrawes fod wedi helpu rhai ymgeiswyr, ond mae'n debygol na fyddai'n cael effaith fawr iawn.

(c) Cymerodd y corff dyfarnu gamau i amddiffyn buddiannau'r ymgeiswyr.

(ch) Gan ei bod wedi gweithredu fel hyn, cafodd yr athrawes ei gwahardd rhag cymryd unrhyw ran yn y gwaith o weinyddu, cyflwyno na marcio unrhyw arholiadau am gyfnod o ddwy flynedd.

**TAG UG Daearyddiaeth**

Adroddodd pennaeth y ganolfan bod athrawes y pwnc wedi dod i mewn i'r ystafell arholiadau tua diwedd yr arholiad TAG UG Daearyddiaeth. Gofynnodd ganiatâd y goruchwylwyr ac yna rhoddodd gyngor cyffredinol i'r ymgeiswyr ar sut i ymateb i'r cwestiynau ar y papur. Cyfaddefodd yr athrawes ei bod wedi gwneud hyn.

Roedd gan yr athrawes, fel uwch aelod o staff, ganiatâd pennaeth y ganolfan i fod yn bresennol yn yr ystafell arholiadau er mwyn helpu i sicrhau bod disgyblaeth briodol ar waith yn yr ystafell. Ar ôl ystyried y wybodaeth oedd ar gael, penderfynodd y corff dyfarnu bod y cyngor a roddwyd i'r ymgeiswyr yn benodol ac y byddai wedi'u helpu.

Fodd bynnag, gan nad oedd modd barnu i ba raddau yr oedd y cyngor hwn wedi helpu'r ymgeiswyr, ac oherwydd nad oeddent yn gyfrifol am yr ymyrraeth hon, gweithredodd y corff dyfarnu i ddiogelu ei fuddiannau.

Canlyniad:

(a) Penderfynwyd y byddai'r athrawes, gan ei bod wedi torri'r rheoliadau, yn cael ei gwahardd rhag cymryd unrhyw ran yn y gwaith o weinyddu, cyflwyno na marcio arholiadau ac asesiadau am gyfnod o flwyddyn.

## 3. Twyll:

### 3.1 Ffugio cofnodion asesu a / neu ddilysu mewnol neu ddatganiadau dilysu

**<u>Lefel 3 Gyrru Cerbydau Teithwyr Ffordd</u>**

Cafodd camymddwyn posibl ei nodi gan ddilyswr wrth iddo adolygu sampl o waith ymgeiswyr yn rhan o weithgareddau sicrhau ansawdd y corff dyfarnu. Yr oedd arsylwadau'r ymgeiswyr wedi'u ffugio. Ymwelwyd â'r ganolfan a daethpwyd i'r casgliad, er bod y ganolfan wedi cynnal yr arsylwadau ymgeiswyr, ei bod wedi ffugio'r dystiolaeth y gofynnwyd amdani wedyn gan gynnwys llofnodion a dyddiadau.

<u>Canlyniadau:</u> (a) Ar sail yr holl dystiolaeth oedd ar gael, tynnwyd cymeradwyaeth y ganolfan yn ôl.

(b) Hysbyswyd y cyrff dyfarnu eraill o'r penderfyniad hwn.

**<u>Lefel 2 Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Oedolion (FfCCh)</u>**

Derbyniodd y corff dyfarnu honiad bod canolfan yn hawlio tystysgrifau cyn i'r ymgeiswyr gwblhau holl unedau'r cymhwyster. Yn dilyn ymchwiliad, cadarnhawyd bod nifer o ymgeiswyr wedi'u hardystio'n gynnar. Yr oedd rheolwr y ganolfan, oedd hefyd yn gweithredu fel dilysydd mewnol, wedi hawlio'r tystysgrifau gan wybod bod y dystiolaeth yn anghyflawn. Fodd bynnag, dywedodd ei fod dan bwysau gan gyflogwyr yr ymgeiswyr i sicrhau ardystiad i'r ymgeiswyr. Er nad oedd cymhwysedd yr ymgeiswyr wedi'i gadarnhau eto drwy asesiad, credai eu bod neu y byddent yn gymwys oherwydd eu bod yn gwneud eu swyddi.

<u>Canlyniadau:</u> (a) Nid oedd y corff dyfarnu'n hyderus y gallai'r ganolfan gynnal gonestrwydd y cymhwyster, na sicrhau gweithrediad effeithiol y ganolfan yn gyffredinol a thynnodd ei chymeradwyaeth yn ôl.

(b) Cafodd tystysgrifau pob ymgeisydd a dderbyniodd y dystysgrif yn gynnar eu dirymu a throsglwyddwyd yr ymgeiswyr hynny oedd ar y rhaglen o hyd i ganolfan arall.

(c) Hysbyswyd y cyrff dyfarnu perthnasol eraill a'r rheoleiddiwr o'r canlyniad gan y corff dyfarnu.

**<u>Saesneg Llafar Rhyngwladol i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (IESOL)</u>**

Derbyniodd y corff dyfarnu honiad bod y ganolfan yn cynnal arholiadau Saesneg llafar dros y rhyngrwyd gyda'r cyd-sgwrsiwr yn y DU a'r ymgeiswyr dramor. Gwadodd y ganolfan yr honiad hwn a mynnodd bod yr ymgeiswyr a'r cyd-sgwrsiwr yn y DU ar adeg yr arholiad. Nid oedd gan y ganolfan gofnodion o fanylion cyswllt yr ymgeiswyr. Profodd profion awdio-fforensig ar y recordiadau arholiadau bod y cyd-sgwrsiwr a'r ymgeiswyr mewn lleoliadau gwahanol ar adeg yr arholiad. Nid oedd, felly, yn bosibl penderfynu hunaniaeth yr ymgeiswyr.

<u>Canlyniadau:</u>

(a) Nid oedd y corff dyfarnu'n hyderus y gallai'r ganolfan gynnal gonestrwydd y cymhwyster, na sicrhau gweithrediad effeithiol y ganolfan yn gyffredinol a thynnodd ei chymeradwyaeth yn ôl.

(b) Cafodd pob tystysgrif a gyhoeddwyd gan y ganolfan ar gyfer y cymhwyster ei [illegible]

(c) Hysbyswyd y cyrff dyfarnu perthnasol eraill a'r rheoleiddiwr o'r canlyniad gan y corff dyfarnu.

### 3.2 Cynhyrchu tystiolaeth o gymhwysedd yn erbyn safonau cenedlaethol

**Cymwysterau wedi'u dilysu**

Derbyniodd y corff dyfarnu honiadau gan sawl ffynhonnell oedd yn gysylltiedig â chanolfan. Honnwyd bod:

- tystysgrifau wedi'u hawlio heb i waith ymgeiswyr gael ei gwblhau;
- arsylwadau asesu wedi'u cynhyrchu gan staff nad oedden nhw'n gymwys yn y maes galwedigaethol a bod yr hyn oedd ar goll wedi'i ychwanegu'n nes ymlaen;
- rhai ymgeiswyr heb eu hasesu o gwbl, eto yr oedd tystysgrifau wedi'u hawlio.

Honnwyd bod rheolwyr y ganolfan yn gwbl ymwybodol o'r arferion uchod a'u bod wedi bwlio'r staff i gyflawni targedau.

Digwyddodd ymweliad cydymffurfio a chanfuwyd yr afreoleidd-dra canlynol:

- hawlio'r lefel anghywir o gymhwyster ar gyfer ymgeiswyr o gymharu â'r dystiolaeth yn y portffolios;
- llofnodion ymgeisydd ac aseswr ar goll;
- llofnodion ymgeiswyr yn edrych yn wahanol drwy'r portffolios;
- nid oedd tystiolaeth ymgeiswyr yn edrych yn ddilys nac yn ddigonol;
- hawliwyd tystysgrifau ymgeiswyr ar gyfer portffolios nad oeddent yn bodloni safonau cenedlaethol;
- cyflwyno hawliadau ardystio cyn i ymgeiswyr gwblhau'r cymhwyster;
- tîm asesu anghymwys yn alwedigaethol.

Esboniodd pennaeth y ganolfan bod aelod o staff wedi bod yn gyfrifol am ddifrodi rhai o'r portffolios a mynd â rhywfaint o waith yr ymgeiswyr oddi yno.

Canlyniad: Penderfynodd y corff dyfarnu bod pryderon difrifol am uwch reolwyr y ganolfan. Nid oeddent yn amgyffred yn llawn sut roedd arferion cyflwyno ac asesu i fod i weithio yn y ganolfan. Methodd y system sicrhau ansawdd â chanfod y materion hyn. Yr oedd pryderon ynghylch dilysrwydd a digonoldeb tystiolaeth yr ymgeiswyr a gyflwynwyd ar gyfer hawliadau ardystio. Cytunodd y corff dyfarnu bod pryderon ynghylch dilysrwydd tystysgrifau ymgeiswyr a gyhoeddwyd yn flaenorol drwy'r Statws Hawlio Uniongyrchol (DCS). Felly cafodd yr holl dystysgrifau DCS a hawliwyd ers yr ymweliadau dilysu allanol diwethaf eu galw'n ôl a'u dirymu. Cytunwyd y gellid ailgyflwyno'r ymgeiswyr hynny y tynnwyd eu tystysgrifau'n ôl, i'w dilysu a'u hail-ardystio felly yn ystod y chwe mis i ddod. O ganlyniad i'r namau sylweddol a ganfuwyd wrth sicrhau ansawdd nifer o gymwysterau, ac anallu'r ganolfan i ddarparu tystiolaeth ymgeisydd ddigonol, penderfynodd y corff dyfarnu dynnu cymeradwyaeth y ganolfan yn ôl ar gyfer yr holl gymwysterau.

**TGAU Cerddoriaeth**

Adroddodd pennaeth y ganolfan bod aelod o'r staff addysgu wedi gofyn i aelod arall o'r adran greu darn o waith mewn uned asesu dan reolaeth i'w gyflwyno i'w asesu yn lle'r gwaith gwreiddiol a gyflawnwyd gan yr ymgeisydd. Ni ddigwyddodd y twyll hwn a chyflwynwyd gwaith gwreiddiol yr ymgeisydd i'w asesu.

Canlyniadau:

(a) Cafodd yr aelod o staff ei wahardd rhag ymwneud ag arholiadau'r corff dyfarnu am gyfnod o bum mlynedd, am geisio peryglu'r broses asesu, gonestrwydd y cymhwyster neu ddilysrwydd canlyniad neu dystysgrif.

(b) Hysbyswyd y cyrff dyfarnu eraill o'r penderfyniad hwn.

**TGAU Addysg Gorfforol**

Adroddodd y safonwr bod y sampl safoni a dderbyniwyd gan y ganolfan yn cynnwys gwaith ymgeiswyr oedd yn debyg iawn ac mewn rhai achosion yn union yr un fath. Hefyd, adroddwyd bod gwaith sawl ymgeisydd wedi'i golli ar ôl marcio mewnol. Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad nad oedd y gwaith yn cael ei adnabod fel gwaith yr ymgeiswyr y cafodd ei briodoli iddynt. Penderfynwyd nad oedd y gwaith yn bodoli a bod yr asesiad yn un ffug.

Canlyniadau:

(a) Cafodd yr aelod o staff a oedd yn gyfrifol am yr asesu mewnol, casglu'r gwaith a chyflwyno marciau'r ganolfan i'r corff dyfarnu, ei wahardd rhag ymwneud ag arholiadau'r corff dyfarnu am gyfnod o bedair blynedd, am ddyfeisio marciau ar gyfer cydrannau a aseswyd yn fewnol pan nad oes tystiolaeth wirioneddol o gyflawniad yr ymgeiswyr, a ffugio'r asesiad a/neu gofnodion dilysu mewnol.

(b) Hysbyswyd y cyrff dyfarnu eraill o'r penderfyniad hwn.

**TGAU Astudiaethau Dinasyddiaeth**

Adroddodd y ganolfan bod ymgeisydd wedi gwneud honiad. Honnodd yr ymgeisydd bod aelod o staff wedi ychwanegu rhywbeth at ei asesiad dan reolaeth ac wedi gofyn iddo wedyn lofnodi'r datganiad. Adroddwyd hyn ar ôl cyflwyno'r marciau am y gydran asesiad dan reolaeth Astudiaethau Dinasyddiaeth i'r corff dyfarnu. Ar ôl ymchwilio i'r mater canfuwyd bod yr aelod o staff wedi 'agor' asesiad dan reolaeth ymgeisydd arall, oedd wedi'i storio'n electronig, a'i ailgadw fel gwaith yr ymgeisydd hwn. Yr oedd yr aelod o staff wedi ychwanegu nodiadau at y gwaith hefyd. Ar sail ei ymchwiliad hefyd nodwyd gan y ganolfan bod aelod arall o staff, sef y Pennaeth Adran, wedi cwblhau asesiad dan reolaeth yr ymgeisydd ar ei ran. Cyflwynwyd marc yr ymgeisydd i'r corff dyfarnu.

Canlyniadau:

(a) Cafodd y ddau aelod o staff eu gwahardd rhag ymwneud o gwbl â chymwysterau'r corff dyfarnu am gyfnod o dair blynedd.

(b) Amcangyfrifwyd marc ar gyfer y garfan mewn perthynas â'r gydran asesiad dan reolaeth. Derbyniodd yr ymgeisydd y gwnaed ei waith drosto farc o sero gan nad oedd wedi cwblhau unrhyw ran o'r cymhwyster.

## 4. Camweinyddu:

### 4.1 Goruchwylio gwael

**TGAU Daearyddiaeth**

Adroddodd y ganolfan bod dau ymgeisydd wedi derbyn 25% o amser ychwanegol yn eu harholiad TGAU Daearyddiaeth, oedd yn anghywir. Yr oedd yr ymgeiswyr hyn wedi'u rhoi yn yr un ystafell ag ymgeiswyr a chanddynt drefniadau mynediad cymeradwyedig. Fodd bynnag, y trefniadau mynediad oedd gan yr ymgeiswyr hyn oedd caniatâd i ddefnyddio prosesydd geiriau ac i gael egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth.

Canlyniadau: (a) Penderfynodd y corff dyfarnu fod yr ymgeiswyr wedi cael mantais am eu bod wedi cael amser ychwanegol ac na ellid derbyn gwaith yr

Rhybuddiwyd y goruchwyliwr a gofynnwyd iddo fynychu hyfforddiant pellach.

**TGAU Saesneg**

Adroddodd goruchwyliwr yn y ganolfan bod uwch athro, yn gweithredu fel y swyddog arholiadau, wedi methu â chyflwyno adroddiad i'r corff dyfarnu bod dau ymgeisydd wedi bod yn cyfathrebu â'i gilydd yn ystod yr arholiad. Yr oedd deunydd diawdurdod ym meddiant un o'r ymgeiswyr dan sylw ar ffurf nodiadau oedd yn berthnasol i'r pwnc. Rhaid adrodd am bob achos o gamymddwyn i'r corff dyfarnu priodol cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad. Yn ychwanegol, yr oedd ymgeisydd oedd yn destun amrywiad ar yr amserlen wedi'i adael yn rhydd i ailymuno â phoblogaeth gyffredinol yr ysgol yn hytrach na chael ei gadw dan oruchwyliaeth y ganolfan tan un awr ar ôl amser dechrau cyhoeddedig y corff dyfarnu ar gyfer yr arholiad.

Canlyniadau: (a) Cafodd yr athro/swyddog arholiadau ei wahardd rhag ymwneud ag arholiadau ac asesiadau'r corff dyfarnu am gyfnod o dair blynedd.

(b) Hysbyswyd y cyrff dyfarnu eraill o’r penderfyniad hwn.

### 4.2 Methu ag ymchwilio'n ddigonol i gamymddwyn honedig

**Tystysgrif Llythrennedd Cyfrifiadurol**

Adroddodd y safonwyr bod gwallau unfath ar sgriptiau’r ymgeiswyr yn Unedau 2, 4, 5 a 7. Dyma'r ail ddigwyddiad tebyg mewn cyfnod o ddeuddeg mis. Y tro hwn, ysgrifennwyd tri llythyr at y ganolfan dros gyfnod o dri mis yn gofyn am ymchwiliad ac adroddiad, ond ni chafwyd ymateb. Y tro hwn, cafodd y ganolfan ei gwahardd dros dro rhag cyflwyno cofrestriadau am y cymhwyster hwn.

Canlyniadau:

(a) Cytunodd y corff dyfarnu bod amheuaeth o hyd am wreiddioldeb y gwaith a gyflwynwyd gan yr ymgeiswyr. Ni wnaeth y ganolfan unrhyw beth i ddileu'r amheuaeth hon. Felly, ni ellid derbyn y gwaith, ac ni fyddai canlyniadau’n cael eu cyhoeddi ar gyfer yr ymgeiswyr hyn.

(b) Nododd y corff dyfarnu hefyd bod methiant y ganolfan i ymchwilio'r mater hwn yn mynd tu hwnt i fater penodol i gymhwyster. Yr oedd yn cwestiynu pa mor barod yw'r ganolfan i gadw at weithdrefnau'r corff dyfarnu yn gyffredinol. Yr oedd y corff dyfarnu wedi colli hyder yng ngallu'r ganolfan hon i gadw at ei reoliadau'n ymwneud ag arholiadau. Felly, tynnwyd cymeradwyaeth y ganolfan yn ôl ar gyfer holl gymwysterau'r corff dyfarnu.

(c) Hysbyswyd y cyrff dyfarnu eraill o’r penderfyniad hwn.

### 4.3 Methiant i gydweithredu ag ymchwiliad

**TGAU Gwyddoniaeth**

Adroddodd yr Uwch Gymedrolwr bryderon i'r corff dyfarnu ynghylch asesiadau dan reolaeth TGAU Gwyddoniaeth y ganolfan. Ymchwiliodd y pennaeth i'r mater a darparwyd adroddiad rhagarweiniol. Ond, methodd â chydymffurfio â cheisiadau pellach y corff dyfarnu i gwblhau a chyflwyno ymchwiliad llawn iddyn nhw.

Canlyniad:

(a) Cafodd y pennaeth ei wahardd rhag ymwneud o gwbl â chymwysterau'r corff dyfarnu am gyfnod o dair blynedd.

## 4.4 Methiant i gyflwyno adroddiad

**<u>Tystysgrif mewn Defnyddio Mathemateg – Lefel 1 a 2</u>**

Yn ystod gwrthdaro ar yr amserlen, ni chafodd ymgeiswyr oedd wedi cwblhau arholiad mewn sesiwn gynharach eu goruchwylio'n ddigonol ar ôl gorffen eu harholiad.

Hysbysodd y swyddog arholiadau ei rheolwr llinell a chwrdd â phennaeth y ganolfan i drafod y digwyddiad ar ddiwrnod yr arholiad. Ni adroddwyd wrth y corff dyfarnu am y toriad diogelwch posibl am 15 diwrnod.

<u>Canlyniad:</u> (a) Cafodd y pennaeth ei wahardd rhag ymwneud o gwbl â chymwysterau'r corff dyfarnu am gyfnod o ddwy flynedd.

## 4.5 Datgelu deunydd arholi cyfrinachol

**<u>TAG UG Ffiseg</u>**

Adroddodd canolfan bod ymgeisydd wedi llunio atebion oedd yn unfath â'r atebion mewn cynllun marcio Ffiseg Uned 3 ac wedi ennill marciau llawn. Yn dilyn ymchwiliad, datgelwyd bod mam yr ymgeisydd, oedd yn gweithio fel technegydd mewn canolfan arall, wedi mynd â chopi o'r cynllun marcio Uned 3 gartref ac wedi'i roi i'w mab.

<u>Canlyniadau</u> (a) Cafodd y technegydd ei wahardd rhag ymwneud â chymwysterau'r corff dyfarnu am gyfnod o bum mlynedd.

(b) Hysbyswyd y cyrff dyfarnu eraill o'r penderfyniad hwn.

## 5. Camymddwyn gan ymgeiswyr:

### 5.1 Newid unrhyw ddogfen ganlyniadau, gan gynnwys tystysgrifau

**Slipiau canlyniadau TGAU**

Ffugiodd ymgeisydd ei datganiadau o ganlyniadau rhagarweiniol gan newid ei graddau ar gyfer pynciau gyda thri chorff dyfarnu. Cyflwynwyd y dogfennau wedyn i goleg lle'r oedd yn gobeithio ailsefyll TGAU a dilyn cyrsiau UG. Adroddodd y swyddog ymrestru bod yr ymgeisydd wedi dod â'i slipiau canlyniadau go iawn i ail gyfarfod ac wedi dweud bod dryswch wedi digwydd gyda slip ymgeisydd arall (datganiad ffug). Gwadodd yr ymgeisydd i ddechrau ei bod wedi ffugio ei chanlyniadau ond yn y diwedd cyfaddefodd ei bod wedi gwneud hyn oherwydd pryder am ymateb ei rhieni. Hysbysodd y ganolfan un o'r tri chorff dyfarnu dan sylw, a hysbysodd y bwrdd hwnnw'r lleill.

Canlyniad: Diarddelodd y corff dyfarnu cyntaf yr ymgeisydd o'i harholiadau TGAU i gyd gyda'r bwrdd hwnnw, a gwnaeth y ddau gorff dyfarnu arall yr un peth. Ni fyddai'r ymgeisydd felly'n derbyn tystysgrif gan unrhyw gorff dyfarnu.

### 5.2 Torri cyfarwyddiadau neu gyngor goruchwyliwr, arolygwr neu'r corff dyfarnu mewn perthynas â rheolau a rheoliadau'r arholiad neu asesiad

**TAG Safon Uwch Celf a Dylunio – Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol**

Darganfyddodd pennaeth adran bod un llyfr braslunio ar goll o storfa'r athro. Daeth i'r amlwg bod ymgeisydd wedi mynd â'i lyfr braslunio ei hun oddi yno heb ganiatâd ar ôl dyddiad cwblhau'r gwaith. Yn ôl yr ymgeisydd yr oedd wedi gwneud hyn oherwydd camddealltwriaeth ynglŷn â'r dyddiadau cwblhau. Mae datganiadau gan y ganolfan yn cadarnhau bod y wybodaeth a roddwyd i'r ymgeiswyr am ddyddiadau cwblhau yn glir ac wedi'u rhoi ar lafar ac yn ysgrifenedig. Roedd y llyfr braslunio wedi bod ar goll am 4 diwrnod.

Canlyniad: Collodd yr ymgeisydd yr holl farciau a enillwyd am y gydran (cosb 3).

## 5.3 Methu â chadw at yr amodau goruchwylio a fwriadwyd i gynnal diogelwch yr arholiadau neu asesiadau

**TGAU Dylunio a Thechnoleg**

Gadawodd yr ymgeisydd yr ystafell arholiadau am 9.45 a.m., 45 munud ar ôl dechrau'r arholiad a 15 munud cyn diwedd y cyfnod lle gellir caniatáu i ymgeiswyr adael yr ystafell. Roedd yn bosibl bod gweithredu fel hyn yn mynd i dorri ar onestrwydd yr arholiad gan nad oedd yr ymgeisydd hwn bellach o dan oruchwyliaeth uniongyrchol y ganolfan.

Canlyniad: Cafodd yr ymgeisydd ei ddiarddel o'r cymhwyster gan ei fod wedi methu â chadw at yr amodau goruchwylio (cosb 7).

**TAG Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau**

Torrwyd y trefniadau goruchwylio cyn yr arholiad gan ymgeisydd y caniatawyd iddi gwblhau ei harholiad Astudio'r Cyfryngau ar ôl yr amser swyddogol ar yr amserlen oherwydd gwrthdaro arholiadau. Siaradodd am gyfnod byr ag ymgeisydd arall oedd newydd gwblhau'r arholiad Astudio'r Cyfryngau.

Canlyniad: Cafodd yr ymgeisydd ei ddiarddel o'r cymhwyster (cosb 7).

**TAG Safon Uwch Economeg ac Astudiaethau Crefyddol**

Roedd gan yr ymgeisydd wrthdaro ar ei amserlen a bu'n rhaid ei oruchwylio ar ôl arholiad y bore tan ddechrau arholiad y prynhawn, sef Astudiaethau Crefyddol. Camddeallodd yr ymgeisydd y cyfarwyddiadau a ddarparwyd gan y ganolfan a gadawodd yr ystafell heb oruchwyliaeth. Nododd yr ymgeisydd nad oedd wedi bod mewn cysylltiad ag unrhyw ymgeisydd arall.

Canlyniad: Cafodd yr ymgeisydd ei ddiarddel o'r uned Astudiaethau Crefyddol (cosb 5).

**TGAU Mathemateg**

Yr oedd goruchwyliwr yn amau bod ffôn symudol ym meddiant ymgeisydd, ond roedd yr ymgeisydd yn gwadu hynny. Pan ofynnodd y swyddog arholiadau i'r ymgeisydd roi ei ffôn symudol iddo, dechreuodd ymddwyn yn fygythiol gan wrthod cael ei chwilio, a gadawodd y ganolfan.

Canlyniad: Cafodd yr ymgeisydd ei ddiarddel o'r cymhwyster (cosb 7).

**TGAU Ffrangeg Gwrando**

Adroddodd y ganolfan fod Ymgeisydd A wedi cael caniatâd i gwblhau'r papur TGAU Ffrangeg Gwrando yn y bore, yn hytrach nag yn y prynhawn, oherwydd gwrthdaro ar yr amserlen. Yn ystod y cyfnod yr oedd ar wahân defnyddiodd Ymgeisydd A ffôn symudol i gysylltu ag Ymgeisydd B, oedd yn aros i sefyll yr arholiad, gan gynnig gwybodaeth yn ymwneud â'r arholiad drwy gyfrwng neges testun. Derbyniodd Ymgeisydd B y cynnig ac roedd neges arall gan Ymgeisydd A yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r arholiad.

Canlyniadau: (a) Penderfynodd y corff dyfarnu bod Ymgeisydd A, oherwydd ei fod wedi defnyddio ffôn symudol yn ystod y cyfnod yr oedd ar wahân i ddatgelu gwybodaeth yn ymwneud â'r arholiad wrth ymgeisydd arall, wedi torri'r oruchwyliaeth o ran gwrthdaro arholiadau. O ganlyniad, cafodd Ymgeisydd A

(b) Cafodd Ymgeisydd B ei ddiarddel o'r cymhwyster am danseilio gonestrwydd y cymhwyster a dod i wybod ymlaen llaw am ddeunydd fyddai i'w weld yn yr arholiad (cosb 7).

### 5.4 Cyd-gynllwynio: gweithio ar y cyd ag ymgeiswyr eraill, y tu hwnt i'r hyn a ganiateir

**TGAU Astudiaethau Gwybodaeth**

Adroddodd y cymedrolwr bod gwaith cwrs pob un o'r chwe ymgeisydd o un ganolfan yn cynnwys deunydd unfath. Nododd y tiwtor, er bod rhai myfyrwyr wedi rhannu cyfrifiadur, ei fod yn hyderus eu bod i gyd wedi gweithio'n annibynnol. Awgrymodd fod y tasgau'n gwbl benodol a'i bod yn anorfod y byddai'n cynhyrchu canlyniadau unfath. Gwadodd pob ymgeisydd unrhyw ddrwgweithredu. Cytunodd y corff dyfarnu bod y deunydd unfath a ganfuwyd yng ngwaith yr ymgeiswyr yn debygol o fod yn ganlyniad i'r ymgeiswyr yn rhannu eu gwaith ar ddisgiau dros gyfnod o amser, yn ystod yr amrywiol gamau cynhyrchu. Gan nad oedd y gwaith a gyflwynwyd yn caniatáu i'r arholwr lunio barn ar allu unigol yr ymgeiswyr, nid oedd yn bosibl ei dderbyn.

Canlyniadau: (a) Ni ddyfarnwyd unrhyw farciau i'r ymgeiswyr am y gydran hon (cosb 3).

(b) Mynegodd y corff dyfarnu ei siom bod yr athro wedi llofnodi datganiad dilysrwydd gan ei fod yn amlwg bod gwaith unfath yn cael ei gyflwyno.

**TAG Safon Uwch Dylunio a Thechnoleg**

Adroddodd cymedrolwr bod tebygrwydd rhwng gwaith cwrs dau ymgeisydd. Yr oedd y ganolfan wedi darganfod dwy ffeil unfath yn ffolderi cyfrifiadur yr ymgeiswyr ond, ym marn y Pennaeth Technoleg, nid oedd unrhyw debygrwydd a welwyd yn dystiolaeth bod camymddwyn wedi digwydd yn yr achos hwn. Pan gawsant eu cyfweld, cyfaddefodd y ddau ymgeisydd eu bod wedi gweithio'n agos â'i gilydd ond heb unrhyw fwriad i dwyllo. Cytunodd y corff dyfarnu bod yr ymgeiswyr wedi cydweithredu ar y project hwn i raddau amhriodol.

Canlyniadau:
(a) Nid oedd yn bosibl dyfarnu marc oedd yn gwahaniaethu rhwng galluoedd yr ymgeiswyr. O ganlyniad, nid oedd yn bosibl dyfarnu marc i'r naill ymgeisydd na'r llall am yr uned hon (cosb 4).
(b) Gofynnodd y corff dyfarnu i'r ganolfan gysylltu â'r swyddog pwnc am gyngor ar y lefel o gydweithio a ganiateir.

### 5.5 Copïo gan ymgeisydd arall (gan gynnwys defnyddio TGCh i gynorthwyo'r copïo)

**Prosesu Geiriau**

Mewn arholiad Prosesu Geiriau sylwodd yr arholwr bod dau ymgeisydd wedi cynhyrchu gwallau unfath mewn dogfen. Gwadodd yr ymgeiswyr a'r ganolfan unrhyw gamymddwyn. Penderfynodd y corff dyfarnu ei bod yn amlwg o'r dystiolaeth bod copïo wedi digwydd rhwng y ddau ymgeisydd.

Canlyniadau:
(a) Cafodd y ddau ymgeisydd eu diarddel o'r cymhwyster (cosb 7).
(b) Gofynnwyd i'r ganolfan adolygu ei gweithdrefnau ar gyfer cynnal arholiadau.

**TGAU Bioleg**

Yr oedd y cymedrolwr wedi darganfod darnau tebyg ac unfath yng ngwaith dau ymgeisydd a oedd yn gwneud iddo amau bod Ymgeisydd A wedi copïo gwaith Ymgeisydd B. Cyfaddefodd ymgeisydd B ei fod wedi dangos ei waith i ymgeisydd A i'w 'helpu i weld sut i fynd i'r afael â'r broblem'. Roedd ymgeisydd A wedi addo na fyddai'n copïo'r gwaith ond, fel mae'n digwydd, roedd wedi copïo llawer o'r cynnwys a'i gyflwyno fel ei waith ei hun.

Canlyniad:
Cafodd Ymgeisydd A ei ddiarddel o'r cymhwyster cyfan (cosb 7).

Collodd ymgeisydd B ei holl farciau am y gydran (cosb 3) am gynorthwyo â'r copïo.

**TGAU Dylunio a Thechnoleg: Dylunio Cynnyrch**

Adroddodd y ganolfan, ar ôl i'r ymgeisydd lofnodi'r ffurflen ddilysu, y darganfuwyd bod ei waith cwrs yn cynnwys gwaith ymarferol ac ysgrifenedig/graffeg nad oedd wedi'i weld o'r blaen gan yr athro. Cyfaddefodd yr ymgeisydd ei fod wedi copïo gwaith ei chwaer.

Canlyniad: Cafodd yr ymgeisydd ei ddiarddel o'r cymhwyster (cosb 7).

**TAG Safon Uwch Cemeg**

Yr oedd arholwr yn amau bod Ymgeisydd A wedi copïo ateb yn ei sgript gan Ymgeisydd B oedd yn eistedd drws nesaf iddo. Cyfaddefodd Ymgeisydd A ei fod wedi gwneud hyn.

Canlyniadau: (a) Cafodd Ymgeisydd A ei ddiarddel o'r cymhwyster (cosb 7).

(b) Ni weithredwyd yn erbyn Ymgeisydd B.

**TAG Safon Uwch Mathemateg**

Adroddodd yr arholwr bod rhai atebion yn sgriptiau'r ddau ymgeisydd yn debyg. Cyfaddefodd Ymgeisydd A ei fod wedi troi o amgylch ac wedi edrych ar rai o'r atebion ar sgript Ymgeisydd B.

Canlyniad: Cafodd Ymgeisydd A ei ddiarddel o'r cymhwyster (cosb 7).

**TAG Safon Uwch Addysg Gorfforol**

Adroddodd cymedrolwr bod dau ymgeisydd wedi cyflwyno aseiniadau gwaith cwrs oedd yn cynnwys traethawd unfath ar brosesu gwybodaeth. Yr unig wahaniaeth oedd trefn dau baragraff. Wrth ymchwilio i hyn cyfaddefodd Ymgeisydd A ei fod wedi copïo rhannau o waith Ymgeisydd B a'i gyflwyno fel ei waith ei hun. Roedd Ymgeisydd A wedi codi'r prif baragraffau, wedi newid eu trefn a'u defnyddio fel ei waith ei hun heb i Ymgeisydd B wybod.

Canlyniad: Cafodd Ymgeisydd A ei ddiarddel o'r cymhwyster (cosb 7).

## 5.6 Ymddwyn yn aflonyddgar yn yr ystafell arholiadau neu yn ystod sesiwn asesu (gan gynnwys defnyddio iaith fygythiol)

**TGAU TGCh**

Adroddodd y ganolfan fod ymgeisydd wedi ceisio aflonyddu yn ystod arholiad. Yr oedd yr ymgeisydd yn troi o amgylch ac yn ceisio tynnu sylw ffrind oedd yn ei hanwybyddu.

Canlyniad: Ystyriwyd mai mân ymyriad oedd hwn a rhoddwyd rhybudd i'r ymgeisydd (cosb 1).

**TGAU Celf a Dylunio**

Adroddodd y ganolfan bod ymgeisydd wedi aflonyddu ar yr arholiad trwy daflu pensil at ymgeisydd arall oedd yn eistedd tair desg i ffwrdd. Cyfaddefodd yr ymgeisydd ei fod wedi taflu gwrthrychau dwywaith yn ystod yr arholiad. Pan ofynnwyd iddo adael yr ystafell, cafwyd trafferth ei gael i wneud hynny ond mi adawodd yn y diwedd.

Canlyniad: Collodd yr ymgeisydd ei farciau i gyd am y gydran (cosb 3).

**TGAU Astudiaethau Busnes**

Cyn diwedd yr arholiad cymerodd yr ymgeisydd ei ffôn symudol allan a dechreuodd ei ddefnyddio. Gofynnodd y goruchwyliwr i'r ymgeisydd droi'r ffôn i ffwrdd. Gwrthododd yr ymgeisydd a dechreuodd regi ac ymddwyn yn ymosodol ac yn fygythiol tuag at y goruchwyliwr.

Canlyniad: Cafodd yr ymgeisydd ei ddiarddel o'r cymhwyster cyfan (cosb 7), a'i atal rhag sefyll unrhyw arholiadau gyda'r corff dyfarnu am flwyddyn (cosb 9).

**TGAU Mathemateg**

Rhybuddiwyd yr ymgeisydd bedair gwaith ar ddechrau'r arholiad am siarad, rhegi, gweiddi a rhoi ei chwaraewr cerddoriaeth ymlaen. Gan ei fod yn amharu'n ddifrifol ar yr ymgeiswyr eraill, gofynnodd y goruchwyliwr iddo adael yr ystafell ond mynnodd gael ei chwaraewr cerddoriaeth yn ôl. Gafaelodd yn ei chwaraewr cerddoriaeth a gwthiodd heibio'r goruchwyliwr yn galed. Wrth ruthro heibio iddi fel hyn gwthiodd y goruchwyliwr dros y ddesg a syrthiodd i'r llawr, gan anafu ei phen a'i phenelin yn y broses. Roedd y goruchwyliwr wedi ypsetio ac ni allai fynd ymlaen â'i dyletswyddau. Adroddodd yr ysgol bod gan yr ymgeisydd hanes o ymddwyn yn fygythiol ac yn wrthgymdeithasol.

Canlyniadau:

(a) Cafodd yr ymgeisydd ei ddiarddel o'r holl gymwysterau a gymerwyd yn y a chafodd ei wahardd rhag sefyll arholiadau gyda'r corff dyfarnu hwnnw am ddwy flynedd.

(b) Hysbyswyd y cyrff dyfarnu eraill (cosbau 8 a 9).

### 5.7 Grŵp o ymgeiswyr yn ymddwyn yn aflonyddgar yn yr ystafell arholiadau

**TGAU Saesneg**

Yr oedd saith ymgeisydd yn ymddwyn yn aflonyddgar yn ystod arholiad TGAU Saesneg. Roedd y rhybuddion priodol wedi'u harddangos a'r ymgeiswyr wedi cael gwybod am reoliadau'r arholiad cyn dechrau'r arholiad. Parhaodd tri o'r ymgeiswyr i aflonyddu ar yr arholiad er gwaethaf cael rhybudd gan y goruchwyliwr. Roedd y pedwar ymgeisydd arall yn aflonyddu i raddau llai. Gwrthododd yr ymgeiswyr â gwneud datganiad ysgrifenedig pan gawsant y cyfle i wneud hynny. Eglurodd yr ysgol bod yr ymgeiswyr wedi'u 'hysgwyd' oherwydd bod newid hwyr wedi bod i leoliad yr arholiad.

Canlyniad: Cafodd tri o'r ymgeiswyr eu diarddel o'r TGAU Saesneg. Rhoddwyd rhybudd i'r pedwar ymgeisydd oedd wedi ymwneud i raddau llai â'r digwyddiad.

### 5.8 Cyfnewid, caffael, derbyn neu drosglwyddo gwybodaeth a allai fod yn gysylltiedig â'r arholiad (neu geisio gwneud hynny) trwy gyfrwng siarad neu gyfathrebu yn ysgrifenedig neu mewn ffyrdd nad oeddent ar lafar

**TGAU Llenyddiaeth Saesneg**

Adroddodd y ganolfan bod pedwar ymgeisydd yn siarad ar amrywiol adegau yn ystod yr arholiad. Nid oedd yn bosibl clywed yn union beth a ddywedwyd, ond honnodd un ymgeisydd ei fod yn gofyn am feiro.

Canlyniad: Gostyngwyd marciau'r ymgeiswyr am y gydran i sero (cosb 3).

**TGAU Dylunio a Thechnoleg**

Adroddodd y goruchwyliwr bod yr ymgeisydd wedi ceisio dangos ei bapur atebion i ymgeisydd arall. Gwrthododd yr ymgeisydd â gwneud datganiad.

Canlyniad: Cafodd yr ymgeisydd ei ddiarddel o'r cymhwyster (cosb 7).

### 5.9 Cynnwys deunydd amhriodol, bygythiol neu frwnt mewn sgriptiau, asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs neu bortffolios

**TGAU Mathemateg**

Adroddodd yr arholwr bod yr ymgeisydd wedi ysgrifennu nifer fawr o sylwadau tramgwyddus drwy ei sgript i gyd. Ar ôl edrych dros y sgript, daethpwyd i'r casgliad bod y sylwadau'n cynnwys iaith anweddus neu sylwadau o natur dramgwyddus.

Canlyniad: Dyfarnwyd marc o 0 i'r ymgeisydd am y papur (cosb 4).

**TGAU Dylunio a Thechnoleg**

Roedd sgript yr ymgeisydd yn cynnwys sawl sylw anweddus gan gynnwys un a anelwyd yn benodol at yr arholwr, yn ogystal â chyfeiriad at gyffuriau.

Canlyniad: Cafodd yr ymgeisydd ei ddiarddel o'r cymhwyster (cosb 7).

### 5.10 Llên-ladrad: copïo heb gydnabyddiaeth o ffynonellau cyhoeddedig; cyfeirio anghyflawn

**TGAU Cerddoriaeth**

Adroddodd y ganolfan bod ymgeisydd wedi ceisio cyflwyno perfformiad wedi'i gynhyrchu a'i recordio'n broffesiynol o ddarn o gerddoriaeth â hawlfraint arno, fel ei pherfformiad ei hun. Gwrthododd y ganolfan â derbyn y gwaith gan na ellid ei ddilysu. Cyfaddefodd yr ymgeisydd i'r weithred.

Canlyniadau: (a) Daeth y corff dyfarnu i'r casgliad bod y ganolfan wedi ymdrin yn briodol â'r mater wrth wrthod y gwaith a gyflwynwyd. Atgoffwyd y ganolfan mai mater disgyblu mewnol oedd unrhyw ganlyniadau i'r ymgeisydd oedd yn deillio o gyflwyno darn wedi'i lên-ladrata fel asesiad dan reolaeth cyn ei ddilysu.

(b) Derbyniwyd ail ddarn o waith a gyflwynwyd gan y ganolfan ar ran yr ymgeisydd.

**TAG Safon Uwch Seicoleg**

Adroddodd arholwr bod gwaith cwrs ymgeisydd yn cynnwys deunydd oedd wedi'i gopïo o nifer o ffynonellau nad oeddent wedi'u rhestru yn y llyfryddiaeth, gan gynnwys y Rhyngrwyd. Cyfaddefodd yr ymgeisydd ei bod wedi methu â chydnabod y deunydd a gopïwyd ac ymddiheurodd am beidio â chymryd sylw o'r cyfarwyddiadau ar beryglon llên-ladrata. Roedd yr ymgeisydd wedi cael problemau sylweddol a difrifol gartref yn ystod y cyfnod yr oedd yn gweithio ar y gwaith cwrs.

Canlyniad: Penderfynodd y corff dyfarnu bod problemau'r ymgeisydd gartref yn golygu bod amgylchiadau lliniarol anghyffredin o sylweddol yn bodoli. O ganlyniad, tynnwyd marciau'r ymgeisydd am yr uned (cosb 4), yn hytrach na'i ddiarddel o'r pwnc cyfan (cosb 7).

**TAG Safon Uwch Hanes**

Daeth y cymedrolwr o hyd i ddarnau helaeth yng ngwaith cwrs yr ymgeisydd oedd wedi'u cymryd o werslyfr Safon Uwch oedd newydd ei gyhoeddi a restrwyd yn y llyfryddiaeth. Cyfaddefodd yr ymgeisydd ei fod wedi torri rheolau'r arholiadau.

Canlyniad: Cafodd yr ymgeisydd ei ddiarddel o'r cymhwyster (cosb 7).

### 5.11 Dwyn gwaith ymgeisydd arall

**<u>TAG Dylunio a Thechnoleg</u>**

Sawl wythnos cyn y dyddiad cyflwyno dywedodd Ymgeisydd A wrth ei athro bod ei waith cwrs wedi'i ddwyn. Bedwar diwrnod cyn y dyddiad cau, fodd bynnag, llwyddodd i gyflwyno'r gwaith. Sylweddolodd aelodau'r staff yn reit gyflym mai gwaith disgybl arall, Ymgeisydd B, oedd y darn a gyflwynwyd. Cyfaddefodd Ymgeisydd A nad ei waith ef oedd y gwaith a gyflwynodd.

<u>Canlyniadau:</u> (a) Cytunodd y corff dyfarnu bod Ymgeisydd A wedi dwyn yr arteffact a wnaed gan Ymgeisydd B, gan effeithio o bosibl ar gyfleoedd Ymgeisydd B yn y pwnc hwn. Y gosb arferol am y drosedd hon yw diarddel o'r holl bynciau yn y gyfres hon (cosb 9). Yn yr achos hwn, fodd bynnag, roedd tystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi gwneud rhywfaint o'i waith ei hun. Roedd cwestiwn hefyd am ddiogelwch y gwaith yn y ganolfan.

(b) Cafodd Ymgeisydd A ei ddiarddel o'r pwnc hwn yn unig (cosb 7). Atgoffwyd y ganolfan, pan fydd gwaith yn cael ei ddwyn, mai'r drefn arferol yw gwneud cais am ystyriaeth arbennig ar gyfer yr ymgeisydd dan sylw.

**<u>NVQ mewn Trin Gwallt</u>**

Sylwodd aseswr oedd yn adolygu tystiolaeth a gyflwynwyd gan Ymgeisydd A bod hylif cywiro wedi'i ddefnyddio i orchuddio'r enw gwreiddiol a bod enw Ymgeisydd A wedi'i roi i mewn. Darganfuwyd hyn cyn yr hawliwyd unrhyw ardystiad ar gyfer yr ymgeisydd. Fodd bynnag, roedd yr ymgeisydd wedi llofnodi'r datganiad o ddilysrwydd uned NVQ.

Yn wreiddiol roedd Ymgeisydd A wedi dweud mai ei thystiolaeth hi ydoedd. Pan ymchwiliodd y ganolfan i'r mater, fodd bynnag, cyfaddefodd ei bod wedi'i dwyn gan Ymgeisydd B. Roedd ymgeisydd A wedi bod yn eistedd wrth ymyl B. Gadawodd ymgeisydd B yr ystafell am amser byr, roedd ei phortffolio ar ei desg a chymerodd ymgeisydd A dystiolaeth ohono. Gan fod ymgeisydd B eisoes wedi'i hasesu pan gafodd y gwaith ei ddwyn, nid oedd unrhyw oblygiadau iddi hi.

<u>Canlyniadau:</u> (a) Dinistriodd y ganolfan yr holl dystiolaeth oedd wedi'i dwyn.

(b) Ni chaniatawyd i Ymgeisydd A ymgymryd ag unrhyw asesiad pellach yn y ganolfan am gyfnod penodol o amser (cosb 9).

**5.12 Dod â deunydd diawdurdod i mewn i'r ystafell arholiadau neu'r sefyllfa asesu, er enghraifft: nodiadau, canllawiau astudio a threfnwyr personol, eu papur gwag eu hunain, cyfrifianellau, geiriaduron (pan maent wedi'u gwahardd), stereos personol, ffonau symudol neu ddyfeisiau electronig tebyg**

**TGAU Astudiaethau Busnes – uned asesiad dan reolaeth**

Cyflwynodd ganolfan Ffurflen JCQ/M1 i adrodd bod ymgeisydd, yn ystod yr uned asesiad dan reolaeth, wedi torri'r rheoliadau asesu dan reolaeth ac wedi defnyddio ffôn symudol yn ystod yr asesiad. (Mae lefel uchel iawn o reolaeth am yr asesiad dan reolaeth hwn.)

Canlyniad: Rhoddwyd yr arweiniad canlynol i'r ganolfan: naill ai rhoi cyfle arall i'r ymgeisydd ailsefyll tasg asesu dan reolaeth arall (os oes un ar gael) cyn cyflwyno'r gwaith i'w gymedroli, cosbi'r ymgeisydd neu roi'r penderfyniad yn nwylo'r corff dyfarnu.

**TGAU Celf a Dylunio**

Cyflwynodd y ganolfan Ffurflen JCQ/M1 yn adrodd ei bod wedi canfod ffôn symudol ym meddiant yr ymgeisydd yn yr ystafell arholiadau yn ystod yr arholiad Celf a Dylunio.

Canlyniad: Dyfarnwyd marc o sero i'r ymgeisydd am yr uned.

**TGAU Mathemateg**

Er gwaethaf y ffaith bod yr ymgeisydd wedi'i atgoffa o'r rheoliadau cyn dechrau'r arholiad, cafodd ei ganfod yn defnyddio trefnydd personol/cyfrifiannell gyda bysellfwrdd QWERTY. Roedd y cof yn wag.

Canlyniad: Collodd yr ymgeisydd ei farciau i gyd am y gydran (cosb 3).

**TGAU TGCh**

Darganfuwyd yr ymgeisydd yn gwrando ar chwaraewr MP3 35 munud i mewn i'r arholiad. Honnodd yr ymgeisydd nad oedd yn gwybod am y rheol yn gwahardd defnyddio offer o'r fath. Cadarnhaodd y swyddog arholiadau mai cerddoriaeth yn unig a oedd arno.

Canlyniad: Gostyngwyd marciau'r ymgeisydd am y gydran i sero (cosb 3).

**TGAU Hanes**

Roedd gan yr ymgeisydd ganiatâd i ddefnyddio gliniadur ar gyfer cwblhau ei arholiadau i gyd. Yn ystod arholiad gwelwyd yr ymgeisydd yn defnyddio cof bach yr oedd wedi'i osod yn ei liniadur. Cymerwyd y cof bach oddi arno tua 30 munud i mewn i'r arholiad, a chanfuwyd ei fod yn cynnwys cryn dipyn o ddeunydd oedd yn ymwneud â'r arholiad TGAU Hanes.

Canlyniad: Cafodd yr ymgeisydd ei ddiarddel o'r pwnc (cosb 7).

**TGAU Llenyddiaeth Saesneg**

Adroddodd y ganolfan bod tri ymgeisydd wedi mynd â'u canllawiau astudio i mewn i'r ystafell arholiadau yn hytrach na'r gweithiau a ganiatawyd. Honnodd yr ymgeiswyr eu bod wedi mynd â'r llyfr anghywir i mewn, gan feddwl ei fod wedi'i ganiatáu.

Canlyniadau: (a) Gostyngwyd marciau'r ymgeiswyr am y gydran i sero (cosb 3).

(b) Mynegodd y corff dyfarnu bryderon am safon yr oruchwyliaeth ar ddechrau'r arholiad.

**TAG Safon Uwch Gwyddeleg**

Adroddodd y goruchwyliwr bod pren mesur ym meddiant yr ymgeisydd oedd ag ysgrifen arno. Honnodd yr ymgeisydd mai patrwm oedd yr ysgrifen. Cymerwyd y pren mesur oddi ar yr ymgeisydd a chadarnhaodd pennaeth y ganolfan ei fod yn cynnwys gwybodaeth ddiawdurdod oedd yn berthnasol i'r arholiad.

Canlyniad: Cafodd yr ymgeisydd ei ddiarddel o'r cymhwyster (cosb 7).

**TGAU Astudiaethau Busnes**

Gwelodd y goruchwyliwr yr ymgeisydd yn defnyddio deunydd diawdurdod ar ffurf 'cardiau fflach' bach gyda phrint o faint llai na 2mm. Cymerwyd y nodiadau oddi ar yr ymgeisydd. Pan gyfwelwyd yr ymgeisydd ar ôl yr arholiad darganfuwyd nodiadau ychwanegol yn ei esgid ar ôl derbyn gwybodaeth gan ymgeiswyr eraill.

Canlyniad: Cafodd yr ymgeisydd ei ddiarddel o'r cymhwyster cyfan (cosb 7).

**TAG Safon Uwch Y Gyfraith**

Yn ystod yr arholiad Uned 4 gwelwyd yr ymgeisydd yn defnyddio nodiadau astudio. Cafodd ei dywys o'r ystafell arholiadau a chymerwyd y deunydd diawdurdod oddi arno. Wrth ei dywys yn ôl i'r ystafell arholiadau rhoddodd yr ymgeisydd ragor o ddeunydd diawdurdod i'r goruchwyliwr. Yn ystod yr arholiad Uned 5 gwelwyd yr ymgeisydd yn cyfeirio unwaith eto at nodiadau astudio. Cyfeiriodd datganiad personol yr ymgeisydd at amgylchiadau personol trallodus. Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth ategol gan y coleg.

Canlyniadau: (a) Cafodd yr ymgeisydd ei ddiarddel o'r holl gymwysterau a gymerwyd yn y gyfres honno gan y corff dyfarnu h.y. TAG Safon Uwch Y Gyfraith a TAG

(b) Yn ogystal penderfynwyd y byddai'r ymgeisydd yn cael ei wahardd am flwyddyn rhag cofrestru am arholiadau pellach (cosbau 8 a 9).

**TAG Safon Uwch Economeg**

Daeth yr ymgeisydd â ffôn symudol i mewn i'r ystafell arholiadau a ganodd yn ei boced. Dywedodd yr ymgeisydd mai larwm ydoedd ac nad oedd yn gwybod y byddai'n canu, gan mai ffôn newydd ydoedd. Roedd yr ymgeiswyr wedi'u rhybuddio cyn dechrau'r arholiad i adael yr holl ffonau symudol y tu allan i'r ystafell arholiadau.

Canlyniad: Gostyngwyd marciau'r ymgeiswyr am yr uned i sero (cosb 4).

**TGAU Hanes**

Adroddodd y goruchwyliwr bod ffôn symudol wedi bod ym meddiant yr ymgeisydd yn ystod yr arholiad, a'i bod yn cynnwys gwybodaeth oedd yn berthnasol i'r arholiad. Cadarnhaodd y ganolfan bod rhybuddion wedi'u rhoi cyn yr arholiad ynglŷn â ffonau symudol. Cyfaddefodd yr ymgeisydd ei fod wedi defnyddio ffôn symudol yn ystod yr arholiad.

Canlyniad: Cafodd yr ymgeisydd ei ddiarddel o'r cymhwyster cyfan (cosb 7).

**TGAU Mathemateg**

Canfuwyd yr ymgeisydd yn defnyddio ffôn symudol fel cyfrifiannell yn ystod yr arholiad. Gwadodd yr ymgeisydd hyn a honnodd mai diffodd y ffôn ydoedd pan gafodd ei ddarganfod.

Canlyniad: Cafodd yr ymgeisydd ei ddiarddel o'r cymhwyster cyfan (cosb 7).

**TGAU Bioleg a TGAU Cemeg**

Rhoddodd ymgeisydd lun ar y cyfryngau cymdeithasol yn dangos ysgrifennu ar ei fraich. Dywedodd yn y pennawd ei fod wedi ysgrifennu o'r arholiad TGAU Bioleg ar ei fraich. Nodwyd hyn yn rhan o fonitro cyfryngau cymdeithasol y corff dyfarnu. Ymchwiliodd yr ysgol i'r mater a chafodd yr ymgeisydd ei gyfweld ar ddiwedd ei arholiad nesaf, TGAU Cemeg. Yr oedd ffôn symudol a nodiadau Cemeg ym meddiant yr ymgeisydd.

Canlyniad: Cafodd yr ymgeisydd ei ddiarddel o'r ddau arholiad am gyflwyno nodiadau i'r arholiadau heb ganiatâd er mwyn ceisio cael mantais, yn ogystal â bod â ffôn symudol yn ei feddiant yn ystod arholiad.

## 5.13 Ymddwyn mewn ffordd fydd yn tanseilio gonestrwydd yr arholiad TAG

**Safon Uwch Bioleg**

Adroddodd y ganolfan bod ymgeisydd A wedi gofyn am gael mynd i'r toiled a'i fod wedi'i dywys yno. Archwiliwyd y toiledau ar ôl iddo ail-ddechrau'r arholiad a darganfuwyd nodiadau'n ymwneud â'r arholiad a chopi o'r gwerslyfr. Yna gofynnodd ymgeisydd B am gael mynd i'r toiled a chafodd ei dywys yno; roedd y deunydd wedi'i symud oddi yno erbyn hyn. Cyfaddefodd ymgeisydd A mai ei nodiadau ef oedden nhw ond ni wyddai sut yr oeddent wedi cyrraedd y toiled a gwadodd eu defnyddio.

Canlyniadau:

(a) Penderfynodd y corff dyfarnu fod Ymgeisydd A wedi bod yn euog o dorri'r rheoliadau drwy edrych ar nodiadau a oedd yn berthnasol i'r arholiad. Cafodd ddiarddel o'r cymhwyster (cosb 7).

(b) Ni weithredwyd yn erbyn Ymgeisydd B.

**TGAU Llenyddiaeth Saesneg**

Roedd un ymgeisydd oedd yn ailsefyll yr arholiad wedi argyhoeddi goruchwyliwr newydd fod hawl ganddo gael ei gopi (wedi'i anodi) ei hun o werslyfr. Roedd y llyfr yn cynnwys nodiadau manwl. Roedd yr ymgeisydd wedi sefyll yr arholiad yn flaenorol a dywedwyd wrtho sawl gwaith nad oedd yn cael mynd â'i werslyfrau ei hun i mewn i'r arholiad.

Canlyniadau:

(a) Cafodd yr ymgeisydd ei ddiarddel o'r cymhwyster (cosb 7).

(b) Derbyniodd y ganolfan gyfarwyddyd i sicrhau bod y goruchwyliwr yn cael ei ail-hyfforddi'n llawn cyn cael yr hawl i oruchwylio arholiad eto.

### 5.14 Camddefnyddio, neu geisio camddefnyddio, deunyddiau ac adnoddau arholiadau

**<u>TAG Safon Uwch Cymdeithaseg</u>**

Cynllwyniodd nifer o ymgeiswyr ar grŵp sgwrsio cyfryngau cymdeithasol i guddio ffôn ar un ymgeisydd oedd yn sefyll ei harholiad mewn sesiwn gynharach oherwydd gwrthdaro ar yr amserlen. Anfonodd yr ymgeisydd neges destun at ffrind yn cynnwys testunau'r cwestiwn pan aeth i'r toiled yn ystod sesiwn y bore. Trosglwyddodd y ffrind y wybodaeth hon i'r grŵp sgwrsio cyfryngau cymdeithasol. Yn ei dro pasiodd un ymgeisydd o'r grŵp sgwrsio hwn y wybodaeth hon i grŵp sgwrsio cyfryngau cymdeithasol arall.

<u>Canlyniadau:</u>

(a) Cafodd yr ymgeiswyr hynny wnaeth hwyluso camymddwyn ar ran ymgeiswyr eraill eu diarddel o'r holl gymwysterau a safwyd ganddynt â'r corff dyfarnu yn ystod y gyfres arholiadau honno.

(b) Cafodd yr ymgeiswyr hynny wnaeth gynllwynio i gamymddwyn ac a dderbyniodd wybodaeth yn ymwneud ag asesu heb adrodd amdano i'r corff dyfarnu eu diarddel o'u harholiadau Safon Uwch Cymdeithaseg a safwyd yn y gyfres honno.

### 5.15 Cyfnewid, cael, derbyn, neu drosglwyddo gwybodaeth a allai ymwneud â'r asesu

**<u>TAG Safon Uwch Seicoleg</u>**

Darparwyd tystiolaeth electronig i'r corff dyfarnu bod gan ymgeisydd wybodaeth yn ymwneud ag asesu yn ei meddiant a anfonwyd ati dros y cyfryngau cymdeithasol. Yr oedd yr ymgeisydd wedi gwneud sylw am y wybodaeth a dderbyniwyd ond nid oedd wedi adrodd amdano i'r corff dyfarnu nac i unrhyw aelod o staff yn ei chanolfan.

<u>Canlyniad:</u> Derbyniodd yr ymgeisydd farc o sero am y cwestiynau y derbyniodd wybodaeth amdanyn nhw dros y cyfryngau cymdeithasol.

Atodiad 8 Ffurflenni M1, M2 ac M3 y CGC

**JCQ / M1**

## Camymddwyn honedig gan ymgeisydd

**Cyfrinachol**

Dylai canolfannau ddefnyddio'r ffurflen hon i roi gwybod am achosion honedig o gamymddwyn gan ymgeisydd.

Am ganllawiau ar sut i lenwi'r ffurflen hon, **gweler tudalen 6**.

**Corff dyfarnu**

| |
|---|
| |

| **Dyddiad y digwyddiad** | **Amser (sesiwn AM / PM)** |
|---|---|
| | |

**Rhif y ganolfan**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

**Enw a chyfeiriad y ganolfan**

| |
|---|
| |
| |
| |
| |

| **Cyfeiriad e-bost pennaeth y ganolfan** | **Rhif ffôn pennaeth y ganolfan** |
|---|---|
| | |

| |
|---|
| |

| Rhif(au) yr ymgeisydd | Enw(au) yr ymgeisydd |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

**Manylion yr arholiad / asesiad**

| Cod y cymhwyster neu'r fanyleb | Teitl y cymhwyster neu'r fanyleb |
|---|---|
| | |
| **Rhif / cod y gydran / uned** | **Teitl y gydran / uned** |
| | |

**Enw(au) y goruchwyliwr (goruchwylwyr) / personél asesu neu dyst arall / tystion eraill**

| Enw | Rôl |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

**JCQ/M2**

# Hysbysiad o amheuon o gamymddwyn/camweinyddu sy'n cynnwys staff y ganolfan

**Cyfrinachol**

Dylai pennaeth y ganolfan ddefnyddio'r ffurflen hon **cyn** ymchwiliad i roi gwybod i gorff dyfarnu am achos o gamymddwyn neu gamweinyddu honedig, a amheuir neu wirioneddol.. **Rhaid i'r ffurflen gael ei llenwi a'i chyflwyno i'r corff dyfarnu priodol ar unwaith ar ôl i amheuaeth godi neu honiad gael ei wneud.**

**Corff dyfarnu**

| |
|---|
| |

**Rhif y ganolfan**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

**Enw a chyfeiriad y ganolfan**

| |
|---|
| |
| |
| |
| |

**Cyfeiriad e-bost pennaeth y ganolfan** **Rhif ffôn pennaeth y ganolfan**

| | |
|---|---|
| | |

| |
|---|
| |

**Enw pennaeth y ganolfan**

| |
|---|
| |

**Y dyddiad y rhoddwyd gwybod i dîm rheoli'r ganolfan am y digwyddiad**

| |
|---|
| |

**Enwau aelodau staff y ganolfan sy'n ymwneud â'r achos** **Swydd**

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

**Manylion yr arholiadau / asesiadau dan sylw**

| Cod y cymhwyster, uned neu fanyleb | Teitl y cymhwyster, uned neu fanyleb |
|---|---|
| | |

**Dyddiad ac amser y digwyddiad**

| |
|---|
| |

**Disgrifiwch natur yr achos honedig o gamymddwyn / camweinyddu, gan gynnwys manylion sut darganfuwyd yr achos, gan bwy a phryd.**

| |
|---|
| |

**A allai'r ymgeiswyr fod wedi cael mantais neu anfantais annheg o ganlyniad i'r camymddwyn / camweinyddu honedig? Os felly, rhowch fanylion.**

| |
|---|
| |

**Disgrifiwch y camau y mae tîm rheoli'r ganolfan yn cynnig eu cymryd i gasglu tystiolaeth mewn perthynas â'r mater hwn.**

| |
|---|
| |

**Yr unigolyn a enwebir i gasglu tystiolaeth**

| | |
|---|---|
| Enw: | |
| Rôl yn y ganolfan/sefydliad: | |
| Y rheswm pam ei fod yn addas i gasglu tystiolaeth (e.e. uwch-arweinydd profiadol): | |

| | | |
|---|---|---|
| A ydych chi a'r unigolyn a enwebir i gasglu tystiolaeth wedi darllen canllawiau'r CGC ar fuddiant personol yn adran XX o Bolisïau a Gweithdrefnau'r CGC ar Amau Camymddwyn? | DO ☐ | NADDO ☐ |
| A oes gan yr unigolyn a enwebir i gasglu tystiolaeth unrhyw fuddiant personol hysbys yng nghanlyniad yr ymchwiliad? | DO ☐ | NADDO ☐ |

**Enw a swydd:** ______________________________

**Llofnodwyd:** ______________________________

**Dyddiad:** ______________________________

**Dylid dychwelyd y ffurflen yn unig at y corff dyfarnu priodol fel y rhestrir isod. Dylid cadw'r rhestr wirio nes bydd yr ymchwiliad ar ben.**

**Rhaid dychwelyd y ffurflen a'r dogfennau ategol i:**

**AQA**

Afreoleidd-dra/Camymddwyn Irregularities/Malpractice
AQA
Devas Street
Manceinion M15 6EX
irregularities@aqa.org.uk

**CCEA**
Afreoleidd-dra/Camymddwyn Irregularities/Malpractice
29 Clarendon Road
Belffast BT1 3BG
malpractice@ccea.org.uk

**City & Guilds**
Ymchwilio a Chydymffurfio / Investigation and Compliance
5-7 Giltspur Street
Llundain EC1A 9DD
investigationandcompliance@cityandguilds.com

**Pearson**
Tîm Ymchwiliadau / Investigations Team
80 Strand
Llundain WC2R 0RL
pqsmalpractice@pearson.com

**OCR**

**Cymwysterau Galwedigaethol**
Y Tîm Cydymffurfio / Compliance Team
Progress House
Westwood Way
Coventry CV4 8JQ
malpractice@ocr.org.uk

**Cymwysterau Cyffredinol**
Y Tîm Cydymffurfio / Compliance Team
The Triangle Building
Shaftesbury Road
Caergrawnt
CB2 8EA
malpractice@ocr.org.uk

**CBAC**
Y Tîm Cydymffurfio
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
camymddwyn@cbac.co.uk

Change this to Compliance Team

**JCQ/M3**

## Adroddiad ar amheuon o gamymddwyn/camweinyddu sy'n cynnwys staff y ganolfan

**Cyfrinachol**

Dylai pennaeth y ganolfan ddefnyddio'r ffurflen hon ar ôl casglu tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad i achos o amheuon o gamymddwyn neu gamweinyddu. **Rhaid** iddi gael ei chwblhau a'i chyflwyno i'r corff dyfarnu priodol ynghyd â'r datganiadau a'r dogfennau ategol.

Os nad ydych wedi dechrau casglu tystiolaeth eto, defnyddiwch **Ffurflen JCQ/M2** *Hysbysiad o achos o amheuon o gamymddwyn/camweinyddu* sydd i'w gweld ar wefan y CGC – http://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice

**Corff dyfarnu**

| |
|---|
| |

**Rhif y ganolfan**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

**Enw a chyfeiriad y ganolfan**

| |
|---|
| |
| |
| |
| |

**Cyfeiriad e-bost pennaeth y ganolfan** | **Rhif ffôn pennaeth y ganolfan**

| | |
|---|---|
| | |

| |
|---|
| |

**Enw pennaeth y ganolfan**

| |
|---|
| |

**Enwau aelodau staff y ganolfan sy'n ymwneud â'r achos** **Swydd**

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

**Manylion yr arholiadau / asesiadau dan sylw**

| **Cod y cymhwyster, uned neu fanyleb** | **Teitl y cymhwyster, uned neu fanyleb** |
|---|---|
| | |

**Dyddiad ac amser y digwyddiad**

| |
|---|
| |

**Yr unigolyn (unigolion) a gasglodd y dystiolaeth**

| | |
|---|---|
| Enw: | |
| Rôl yn y ganolfan/sefydliad: | |
| Y rheswm pam ei fod yn addas i gasglu tystiolaeth (e.e. uwch-arweinydd profiadol): | |

**A wnaeth unrhyw bobl allanol (e.e. personél yr awdurdod lleol, swyddogion yr undeb) helpu i gasglu tystiolaeth? Os felly, rhowch fanylion:**

**Enw(au)** **Swydd**

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

**Rhowch fanylion y dystiolaeth rydych wedi'i chasglu a'ch canfyddiadau**

**Lle nodwyd bod camymddwyn (gan gynnwys camweinyddu) wedi digwydd, defnyddiwch y blwch isod i roi'r canlynol:**

- **manylion y camau gweithredu y mae eich canolfan yn cynnig eu cymryd i liniaru'r effaith ar ymgeiswyr;**
- **manylion y camau y mae eich canolfan yn cynnig eu cymryd i atal achosion tebyg rhag digwydd eto yn y dyfodol**

**Enw a swydd (priflythrennau):** ______________________________

**Llofnodwyd:** ______________________________________________

**Dyddiad:** ____________________

## Adroddiad ar ymchwiliad i amheuon o gamymddwyn/camweinyddu sy'n cynnwys staff y ganolfan

Bwriad y rhestr wirio hon yw cynorthwyo canolfannau wrth iddynt gasglu tystiolaeth ar gyfer ymchwilio i achos honedig o gamymddwyn neu gamweinyddu sy'n cynnwys staff y ganolfan. Ar ôl iddi gael ei chwblhau, **rhaid** iddi gael ei chyflwyno i'r corff dyfarnu ynghyd â'r datganiadau a'r dogfennau ategol. **Cyfrifoldeb pennaeth y ganolfan yw sicrhau bod y gofynion hyn yn cael eu bodloni.**

Cyfeirir at y gofynion a nodir yn y ddogfen CGC:
*Amau Camymddwyn – Polisïau a Gweithdrefnau*

**Enw'r aelod o staff y ganolfan:** ______________________________

**Nodwch drwy roi croes yn y blwch priodol ar gyfer y pwyntiau canlynol:**

| | | Ie | Na |
|---|---|---|---|
| 1. | Mae'r aelod o staff a gyhuddir wedi cael gwybod beth yw ei gyfrifoldebau unigol a'i hawliau **(adrannau 2.5 a 6.14)**. | ☐ | ☐ |
| 2. | Dylai'r aelod o staff a gyhuddir o gamymddwyn: | | |
| | • gael gwybod (yn ysgrifenedig, yn ddelfrydol) o'r honiad yn ei erbyn ef neu hi (**dylech gynnwys copi o unrhyw lythyr/hysbysiad yn y dogfennau a gyflwynir**); | ☐ | ☐ |
| | • cael copi o gyhoeddiad y CGC *Amau Camymddwyn – Polisïau a Gweithdrefnau* | ☐ | ☐ |
| | • gwybod pa dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r honiad (**darparwch fanylion llawn yn y dogfennau a gyflwynir i'r corff dyfarnu**); | ☐ | ☐ |
| | • gwybod y canlyniadau posibl pe byddai achos o gamymddwyn yn cael ei brofi; | ☐ | ☐ |
| | • cael y cyfle i ystyried ei ymateb i'r honiadau (**darparwch gofnod dilys o unrhyw gyfweliadau a gynhaliwyd**); | ☐ | ☐ |
| | • cael cyfle i gyflwyno datganiad ysgrifenedig (**darparwch gopi o bob datganiad**); | ☐ | ☐ |
| | • cael gwybod y bydd ef/hi yn cael y cyfle i ddarllen a gwneud datganiad mewn ymateb i'r dogfennau a gyflwynir i Bwyllgor Camymddwyn y corff dyfarnu; | ☐ | ☐ |
| | • cael cyfle i geisio cyngor (yn ôl yr angen) a rhoi datganiad ategol (os bydd angen); | ☐ | ☐ |
| | • cael gwybod am y weithdrefn apelio sy'n berthnasol, pe bai penderfyniad yn cael ei wneud yn ei erbyn ef neu hi; | ☐ | ☐ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • cael gwybod am y posibilrwydd y gallai gwybodaeth sy'n ymwneud ag achos difrifol o gamymddwyn gael ei rhannu â chyrff dyfarnu eraill, y rheoleiddwyr ac awdurdodau priodol eraill. | ☐ | ☐ |

**Rhaid amgáu'r ffurflen hon gyda'r adroddiad ac unrhyw dystiolaeth arall sy'n berthnasol.**

**Rhaid dychwelyd y ffurflen a'r dogfennau ategol i:**

**AQA**

Afreoleidd-dra/Camymddwyn
Irregularities/Malpractice
AQADevas Street
Manceinion M15 6EX
irregularities@aqa.org.uk

**CCEA**
Afreoleidd-dra/Camymddwyn Irregularities/Malpractice
29 Clarendon Road
Belffast BT1 3BG
malpractice@ccea.org.uk

**City & Guilds**
Ymchwilio a Chydymffurfio / Investigation and Compliance
5-7 Giltspur Street
Llundain EC1A 9DD
investigationandcompliance@cityandguilds.com

**NCFE**
Y Tîm Cydymffurfio / Compliance Team
Q6, Quarum Business Park
Benton Lane
Newcastle Upon Tyne NE12 8BT
Malpractice@ncfe.org.uk

**Pearson**
Tîm Ymchwiliadau / Investigations Team
80 Strand
Llundain WC2R 0RL
pqsmalpractice@pearson.com

**OCR**

**Cymwysterau Galwedigaethol**
Y Tîm Cydymffurfio / Compliance Team
Progress House
Westwood Way
Coventry CV4 8JQ
malpractice@ocr.org.uk

**Cymwysterau Cyffredinol**
Y Tîm Cydymffurfio / Compliance Team
The Triangle Building
Shaftesbury Road
Caergrawnt
CB2 8EA
malpractice@ocr.org.uk

**CBAC**
Y Tîm Cydymffurfio / Compliance Team
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
camymddwyn@cbac.co.uk